# Rhaglen Gyflawn

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 22AIN MAI, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**


Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 15/05/24)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Dafydd Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Gill German | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Councillor Mared Eastwood | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Beca Brown | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Manon Williams | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Paul Smith | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Noel Fitzgerald | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwyr |
| Jennie Downes | Cynrychiolydd Eglwys yng Nghymru |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Marc Berw Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwern ap Rhisiart | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Bethan Eleri Roberts | Rheolwr Rheoli Perfformiad |
| Dewi Morgan | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |

# R H A G L E N


**1. CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer 2024/25.

**2. IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2024 fel rhai cywir.

**7. CYFRIFON TERFYNOL GWE 2023-24 - ALLDRO REFENIW** 10 - 14

Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2023/24.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-2024 GWE** 15 - 91

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2023-2024 i'r Cyd-Bwyllgor.

**9. COFRESTR RISG GWE** 92 - 97

Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**10. CEFNOGAETH DYSGU PROFFESIYNOL GWE 04-2024 - 03-2025** 98 - 101

Rhannu gwybodaeth gydag Aelodau Cyd-bwyllgor GwE am ein Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

**CYD-BWYLLGOR GWE**
**20/03/2024**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Julie Fallon (Cadeirydd) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Beca Brown (Cyngor Gwynedd), Dafydd Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Gill German (Cyngor Sir Ddinbych), Mared Eastwood (Cyngor Sir y Fflint) a Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Aelodau Cyfetholedig Heb Bleidlais:** Paul Smith (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Manon Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd) a Noel Fitzgerald (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gwern ap Rhisiart (Cyngor Gwynedd), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint) a Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych).

**Swyddogion yn bresennol:**

**GwE –** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad) a Meleri H Roberts (Cyfieithydd).

**Cyngor Gwynedd (Yr Awdurdod Lletyol) –** Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Siôn Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Ar ddechrau'r cyfarfod croesawyd aelodau newydd y Cydbwyllgor, Manon Williams, Paul Smith a Noel Fitzgerald, cynrychiolwyr newydd yr Ysgolion.

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Morgan (Pennaeth Adran Cyllid), Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

   Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

   Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 6$^{ed}$ o Ragfyr, 2023, yn gywir.

## 5. CYLLIDEB GWE 2023/2024 – ADOLYGIAD 3YDD CHWARTER

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ariannol i aelodau'r Cydbwyllgor am gyllideb GwE hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023 a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nodwyd ar sail gwariant ac incwm, rhagwelir y bydd gorwariant net o £59,500 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24. Cadarnhawyd bod y wybodaeth yma yn parhau i fod yn gyfredol. Nodwyd bod hyn yn cymharu â £37,000 oedd wedi ei ragolygu yn adolygiad diwedd Medi sydd yn golygu bod y gorwariant wedi cynyddu.

Nodwyd bod gorwariant o £46,000 o dan y pennawd Gweithwyr; roedd hyn yn dilyn i GwE dderbyn targed arbedion o £102,000 o dan y pennawd hwn yn 2023/24. Ychwanegwyd bod y gorwariant yn cael ei leihau o ganlyniad i ddwy swydd barhaol sydd heb eu llenwi yn ogystal â throsiant staff. Tynnwyd sylw at y tanwariant o £16,500 o dan y pennawd Cludiant, yn bennaf oherwydd y ffyrdd newydd o weithio. Ychwanegwyd y rhagwelir gorwariant o £23,000 dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau gyda chostau adnewyddu offer T.G wedi taro GwE eleni.

Mynegwyd bod bwriad i ddefnyddio cronfa sydd ar gael er mwyn cyllido'r £59,500 o'r gorwariant a ragwelir; byddai hyn yn gadael £239,000 ar ôl yn y gronfa.

Nid oedd unrhyw sylwadau.

**PENDERFYNWYD**
**Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad ar adolygiad o gyllideb GwE hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023.**

## 6. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL GWE 2023/2024 – MONITRO CHWARTER 3

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE yr adroddiad oedd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol ac yn canolbwyntio ar y cyfnod o ddiwedd Medi i Ragfyr 2023.

Adroddodd bod 28 o gynlluniau manwl yn bodoli ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ysgolion ar draws y Rhanbarth a bod cefnogaeth gyfoethog iawn wedi ei ddarparu i'r ysgolion hynny. Eglurodd bod Atodiad 2 yn cyfeirio at y data rhanbarthol â'r niferoedd sydd wedi ymgysylltu gyda'r ddarpariaeth.

Mynegwyd bod yr adroddiad yn gynhwysfawr a diolchwyd i'r staff am eu gwaith i greu'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD**
**Cymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.**

## 7. DYFODOL GWELLA YSGOLION YNG NGOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yr adroddiad gan nodi bod newid sylweddol ar y gweill i'r hyn sydd wedi bod yn wasanaeth rhanbarthol. Mynegwyd bod y cyfnod hwn yn y cyfnod anoddaf iddo ei brofi ers bron i 40 o flynyddoedd yn gweithio yn y maes Addysg ac mai un o'r heriau mwyaf yw ymdopi gyda'r ansicrwydd.

Cyfeiriwyd at yr amserlen ers y 18$^{fed}$ o Ragfyr a'r argymhellion a gafwyd yn dilyn adolygiad Dylan Jones. Nodwyd y bydd model newydd o wasanaeth gwella ysgolion a bydd angen edrych ar y capasiti o fewn y system honno; nid oes cynllun manwl am y system newydd ar hyn o bryd. Soniwyd am yr heriau i Awdurdodau Lleol sydd wedi ei hamlygu yn rhan 3.2 o'r adroddiad. Rhedwyd drwy'r risgiau cyffredinol a'r goblygiadau ariannol.

Nodwyd y bydd yna gyfnod o newid cyn i'r model newydd fod mewn lle ac ardrawiad newid grantiau fydd yn cael effaith ar unwaith. Eglurwyd y bydd y gwasanaeth yn peidio â bod yn wasanaeth a rennir ar draws Gogledd Cymru. Golyga hyn y bydd newid mawr o'r 1af o Ebrill ble bydd y gwasanaeth gwella ysgolion yn dod yn wasanaeth comisiwn gan wahanol Awdurdodau Lleol unigol. Amlygwyd bod angen trafodaeth ddwys am rôl y Cydbwyllgor i'r dyfodol a rôl y Bwrdd Rheoli a bod hwn yn faes llywodraethu y bydd angen edrych arno wrth symud ymlaen.

Cyfeiriwyd at y posibilrwydd y bydd Gweinidog Addysg newydd yn dilyn cyhoeddi'r Prif Weinidog newydd heddiw ac y gallai hynny arwain at oedi. Nodwyd mai'r amserlen a roddwyd yw Ebrill 2025 ar gyfer cael model gwella ysgolion newydd mewn lle. Pryderwyd y gallai'r amserlen o Ebrill 2025 fod yn heriol i Awdurdodau Lleol.

Mynegwyd cydymdeimlad at wasanaethau'r Awdurdod lletya, gan y byddai'n golygu gwaith ychwanegol i wasanaethau Cyllid, Cyfreithiol ac Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd, ynghyd â chostau ychwanegol i bawb, megis costau cau a diswyddiadau posib. Yng nghyfarfod nesaf o'r Cydbwyllgor ym mis mai, nodwyd y bydd angen edrych ar gyfluniad y tîm gan gysidro sut fydd y cyllidebau erbyn mis Mawrth 2025. Bydd angen hefyd ystyried pa swyddi gall gael eu rhyddhau ar hyn o bryd.

Eglurwyd bod y gyllideb yn dynn ar bob lefel a bydd yr arian sydd wedi ei neilltuo ar gyfer gwella ysgolion yn cael ei leihau'n sylweddol. Pwysleisiwyd bod angen eglurder ynghylch y model dysgu proffesiynol cenedlaethol. Cyfeiriwyd at forâl isel staff oherwydd yr holl ansicrwydd a'r anallu i roi gwybod i staff am eu dewisiadau ar hyn o bryd.

I gloi cydnabuwyd y byddai pawb yn hoffi mwy o fanylder a mwy o wybodaeth gan amlygu bod Cam 2 o ymholiad Dylan Jones yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Nododd y Cadeirydd bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r Gweinidog Addysg ym mis Ebrill. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Cydbwyllgor fynegi unrhyw bryderon penodol neu gwestiynau felly y gallai'r Cadeirydd eu cyfleu yn y cyfarfod ym mis Ebrill. Cytunwyd y byddai GwE yn coladu cwestiynau ar gyfer y Cadeirydd.

Cyflwynodd yr aelodau'r sylwadau canlynol:

- Cydnabuwyd bod y sefyllfa wedi bod yn un anodd yn enwedig i staff GwE, a mynegwyd diolch iddynt.
- Nodwyd bod y sefyllfa wedi cael ei reoli'n wael a bod cryn ansicrwydd am y ffordd ymlaen.
- Pwysleisiwyd y pwysigrwydd i gadw ffocws a'r safonau er mwyn parhau i gefnogi ysgolion ar draws y rhanbarth a chynnig yr addysg gorau i ddisgyblion.
- Adroddwyd bod cyfarfodydd wedi bod ymysg y Prif Swyddogion i geisio gweithio drwy oblygiadau'r newidiadau i'r cyllid grant a'r telerau ac amodau.
- Nodwyd bod her ar dair lefel yn wynebu'r Cydbwyllgor:
    - Nodwyd mai'r flaenoriaeth yw'r dysgwyr a'r ysgolion a'i bod yn bwysig bod y gefnogaeth gorau yn parhau i gael ei gynnig. Mynegwyd ei bod yn hollbwysig peidio ag ansefydlogi perfformiadau presennol yr ysgolion.
    - Nodwyd bod gwaith cynllunio ar gyfer y Model Cenedlaethol newydd a bod diffyg eglurder ynghylch y ffocws cenedlaethol. Ategwyd bod cyfres o gyfarfodydd wedi eu trefnu. Bydd y rhain yn cynnwys Grŵp Cyfarwyddwyr Cenedlaethol gyda nifer o gyfarwyddwyr cynrychioladol a chydweithwyr Llywodraeth Cymru er mwyn trafod y manylder. Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal dydd Gwener.
    - Nodwyd bydd y model presennol yn dod i ben diwedd mis Mawrth 2025. Bydd angen adnoddau ychwanegol bryd hynny a bydd goblygiadau o ran diswyddo staff a chau'r gwasanaeth i lawr. Bydd hefyd costau i

sefydlu partneriaethau newydd rhwng yr Awdurdodau. Credwyd bod adnoddau cyfyngedig i ddelio â hyn.

Rhoddwyd cyfle i brifathrawon sy'n cynrychioli'r ysgolion ar y Cydbwyllgor i roi sylwadau. Ymysg y sylwadau, cyfeiriwyd at y siomedigaeth a'r ansicrwydd gan nodi ei bod yn anodd i ysgolion flaenoriaethu pan nad ydynt yn gwybod beth sydd o'u blaenau. Ychwanegwyd bod yr ysgolion wedi derbyn y gefnogaeth orau yn ystod y saith mlynedd diwethaf o ganlyniad i'r Ymgynghorwyr Gwella Ysgolion sy'n darparu gwasanaeth gwerthfawr. Mynegwyd pryderon am y gefnogaeth i'r dyfodol. Mynegwyd cydymdeimlad at staff GwE gan ategu bod agwedd a phroffesiynoldeb y staff i'w ganmol.

Cynigiwyd ychwanegu dwy frawddeg i'r argymhelliad a chytunwyd i'w hychwanegu fel (b) a (c) yn y Penderfyniad.

Mynegwyd diolch i'r aelodau am drafodaeth ddefnyddiol a phwysleisiwyd y bydd y cydweithio yn parhau gan obeithio y derbynnir mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn cael cynllun mewn lle.

Gofynnwyd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr GwE basio diolchiadau a gwerthfawrogiad y Cydbwyllgor i staff GwE am eu proffesiynoldeb dan amgylchiadau anodd.

I gloi mynegodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ei ddiolch am y sylwadau gan ategu y bydd rhaid i unrhyw fodel newydd fod yn well na beth oedd yn bodoli yn flaenorol. Mynegodd bod angen cysidro ble mae'r gwerth ychwanegol o unrhyw strwythur newydd. Ategwyd ei bod yn bwysig i ysgolion fod yn ymwybodol y bydd y lefel o gefnogaeth yn lleihau yn sylweddol o Ebrill a dros y flwyddyn gyllidol nesaf oherwydd y toriadau i'r gyllideb a goblygiadau'r grantiau. Bydd hyn yn cael ei gyfathrebu yn fwy effeithiol ac mewn mwy o fanylder efo'r ysgolion ar ôl y Pasg.

**PENDERFYNWYD**

a) **Nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried goblygiadau risg ar gyfer 2024-25 a thu hwnt.**
b) **Bod y Bwrdd Rheoli yn cyflwyno adroddiad yng nghyfarfod mis Mai o'r Cyd-bwyllgor ar y ffordd ymlaen fydd yn ymdrin ag amserlen a materion llywodraethu yn ogystal â goblygiadau cyllidebol.**
c) **I aelodau pleidleisio'r Cyd-bwyllgor gytuno i gyflwyno rhestr o gwestiynau i'w cyflwyno i'r Gweinidog Addysg yn y cyfarfod sydd wedi ei drefnu ar gyfer mis Ebrill.**

## 8. CYLLIDEB GWE 2024/2025 (CYLLIDEB SYLFAENOL)

Cyflwynwyd yr adroddiad ar y gyllideb gan egluro ei bod yn adlewyrchu'r newid sydd wedi bod yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i addasu'r dull o ddosbarthu grantiau Addysg ar gyfer 2024/25. Ychwanegwyd bod y targed arbedion o 10% gan yr Awdurdodau wedi eu cynnwys yn y gyllideb sylfaenol.

Cyfeiriwyd at y newid gan Lywodraeth Cymru i drefniadau o ran grantiau yn rhan 2.1 o'r adroddiad sy'n nodi y bydd y grant Addysg Awdurdodau Lleol yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r Cynghorau neu'r ysgolion.

Tynnwyd sylw at y tabl yn rhan 2.3 o'r adroddiad sy'n nodi'r penawdau sydd ddim bellach o dan gyfrifoldeb GwE, ac yn dangos y newidiadau cyllidol yn sgil hynny. Nodwyd bod y cyllid wedi lleihau o £6.2 miliwn yn 2023/24 i £4.5 miliwn yn 2024/25 sy'n leihad o £1.7 miliwn. Eglurwyd mai'r prif reswm yw toriad gan Lywodraeth Cymru yn swm y grantiau.

Cyfeiriwyd at Atodiad 2 oedd yn rhoi trosolwg o'r gyllideb graidd ar gyfer 2024/25. Eglurwyd bod y tabl yn crynhoi'r wybodaeth o ran yr arian craidd sy'n gyfanswm o £4 miliwn. Ymhellach, cyfeiriwyd at Atodiad 1 oedd yn nodi'r gyllideb o £8.46 miliwn sydd wedi ei osod a'n nodi'r incwm sy'n cyfateb i'r gwariant. Mynegwyd bod cyllideb gytbwys wedi ei gosod ar gyfer GwE ar gyfer 2024/25.

Yn ychwanegol, eglurwyd ar ôl ystyried chwyddiant ar holl wariant GwE ar gyfer 2024/25, gan nad yw'r grantiau Addysg yn cael eu chwyddo yn flynyddol, golyga hyn doriad sy'n gyfanswm o £737,000 yn hytrach na'r ffigwr o £392,000.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyflwynodd yr aelodau'r sylwadau canlynol:

- Pwysleisiwyd bod cyfraniad craidd GwE wedi lleihau 18% ac nid 10% gan ystyried y chwyddiant y cyfeirir ato yn rhan 3 o'r adroddiad. Nodwyd y bydd hyn yn cael ei egluro ymhellach yn y cyfarfod mis Mai ble bydd dosraniad yr arian yn cael ei drafod.
- Mynegwyd y bydd gwybodaeth sensitif yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf yn ymwneud â swyddi staff presennol GwE. Cadarnhawyd y bydd angen edrych ar y categori gwybodaeth eithriedig ar gyfer rhai eitemau yn y cyfarfod nesaf a llunio'r agenda yn unol â hynny.
- Diolchwyd i staff Cyllid Cyngor Gwynedd am eu cefnogaeth ac am eu gwaith wrth lunio'r gyllideb. Ategwyd bod yr amserlen cyhoeddi wedi bod yn fyr iawn a mynegwyd gwerthfawrogiad am eu gwaith caled.

**PENDERFYNWYD**
**Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2024/25 fel y'i chyflwynir yn Atodiad 1 o'r adroddiad sef £8,460,971.**

## 9. CALENDR CYFARFODYDD 2024-25

Cyflwynwyd yr adroddiad fel eitem er gwybodaeth er mwyn i aelodau'r Cydbwyllgor allu nodi'r dyddiadau yn eu calendrau, gan nodi efallai y bydd angen elfen o hyblygrwydd gan yr aelodau. Eglurwyd efallai y bydd angen rhagor o gyfarfodydd os bydd angen gwneud penderfyniadau ar frys yn sgil y sefyllfa bresennol.

Diolchwyd i'r Cydbwyllgor am eu gwaith â'u cyfraniadau.

**PENDERFYNWYD**
**Cymeradwyo calendr cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor am y flwyddyn 2024-25**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 11.30yb.

________________________________________

**CADEIRYDD**

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 22 Mai 2024 |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol GwE 2023/24 – Alldro Refeniw** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2023/24.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **AWDUR** | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. PENDERFYNIAD

**Gofynnir i'r Cydbwyllgor:**

1.1 **Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am 2023/24**.

1.2 Gymeradwyo trosglwyddiad ariannol o gronfa wrth gefn GwE i ariannu gorwariant o £77,323 yn 2023/24, ar ôl ystyried y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant.

1.3 Gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2023/24 fydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn sydd i'w cynhyrchu, eu hardystio a'u cyhoeddi gan Adran Gyllid yr awdurdod lletya o fewn yr amserlen statudol.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am 2023/24 yn ymddangos yn Atodiad 1.

2.2 Adroddir ar sefyllfa derfynol o orwariant net o £77,323 yn erbyn y gyllideb, sydd bennaf yn sgil gorwario ar y gyllideb staffio.

2.3 Yn yr adolygiad hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023, adroddwyd ar orwariant o £59,531. Mae hyn yn golygu fod symudiad o £17,792 i'r hyn a ragwelwyd yn yr adroddiad blaenorol.

2.4 Mae Rhan 3 isod yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

## 3. AMRYWIADAU ARIANNOL

3.1 **Gweithwyr:**
**Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £59,884** *Rhagfyr 2023: Gorwariant £46,173*
Adroddir ar orwariant, mae cyllideb staffio GwE yn seiliedig ar y gallu i ariannu rhai aelodau o staff yn erbyn grantiau. Eleni, mae mwy o arian grant wedi mynd i'r ysgolion, sydd yn golygu fod y targed incwm heb ei gyfarch. Mae'r sefyllfa yn well yn sgil trosiant staff Rheolaeth a Gweinyddiaeth, yn bennaf dwy swydd wag sydd heb eu llenwi yn ystod y flwyddyn.

3.2 **Adeilad:**
**Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £35,431** *Rhagfyr 2023: Gorwariant £6,228*
Gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r prif reswm am hyn oherwydd ddiffyg denu incwm rhent gan ysgolion, awdurdodau lleol a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau, am ddefnydd o adeiladau GwE. Nid oes targed incwm ar gyfer hwn wedi ei gynnwys fel rhan o gyllideb GwE ar gyfer 2024/25.

3.3 **Cludiant:**
**Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£21,400)** *Rhagfyr 2023: Tanwariant (£16,496)*
Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad hyd at ddiwedd Rhagfyr. Mae ffyrdd newydd o weithio sydd wedi ei ddatblygu yn ystod y cyfnod Covid wedi arwain at y tanwariant a nodir. Wrth edrych ymlaen i 2024/25, mae'r gyllideb wedi ei adolygu, ac wedi ei addasu i lefel mwy priodol.

3.4 **Cyflenwadau a Gwasanaethau:**
**Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £22,744** *Rhagfyr 2023: Gorwariant £22,738*

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn flaenorol. Mae costau adnewyddu offer T.G wedi taro GwE eleni, mae elfen o'r gronfa tanwariant wedi ei bennu i'r pwrpas yma, gyda GwE yn cyfrannu swm i'r gronfa yn flynyddol.

3.5 **Prosiectau Penodol:**
**Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £24,688** *Rhagfyr 2023: Niwtral*
Yn adrodd ar orwariant o £24,688 yn erbyn gwariant gros o £12.8m ar grantiau, y gorwariant yn deillio o wario ar gynlluniau angenrheidiol yn ystod y flwyddyn, er mwyn rhoi cefnogaeth i ysgolion.

## 4. CRONFA TANWARIANT

4.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2023/24 oedd £298,633.

4.2 Mae'r gorwariant net o £77,323 i'w ariannu o gronfa wrth gefn, felly balans terfynol y gronfa ar ddiwedd 2023/24 yw £221,310.

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2023/24.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad

## CYD-BWYLLGOR GwE
## CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2023/24

| | Cyllideb | Gwariant | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | £ | £ | £ |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | | | |
| - Rheolaeth, Comisiynu, Safonau a Gweinyddiaeth | 996,223 | 898,503 | (97,720) |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 4,072,619 | 4,094,257 | 21,638 |
| - Staff ar Secondiad | 262,170 | 262,170 | 0 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (2,027,531) | (1,889,798) | 137,733 |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 47,384 | 45,617 | (1,767) |
| Adeilad | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 205,880 | 222,040 | 16,160 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (65,458) | (46,188) | 19,270 |
| Cludiant | | | |
| Costau Teithio | 153,095 | 131,694 | (21,400) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 99,553 | 121,332 | 21,779 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 0 | 0 | 0 |
| Ffioedd archwilio | 12,744 | 13,709 | 965 |
| Comisiynu | 321,561 | 322,287 | 726 |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | |
| Cyfreithiol | 6,371 | 6,371 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 10,924 | 10,924 | 0 |
| Cyllid | 47,237 | 47,237 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 52,245 | 52,245 | 0 |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | 469,948 | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 9,967,296 | 9,987,575 | 20,278 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 1,145,400 | 1,146,520 | 1,120 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 100,000 | 101,983 | 1,983 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 186,067 | 186,236 | 169 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 940,805 | 940,805 | 0 |
| Rhaglen defnydd anffurfiol o'r Gymraeg (3-18 oed) (Siarter Iaith) | 207,719 | 207,719 | 0 |
| Ein Llais Ni | 168,036 | 169,174 | 1,138 |
| Prosiect Taith | 41,056 | 41,056 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **17,421,343** | **17,543,415** | **122,072** |

| | Cyllideb £ | Incwm £ | Gor / (Tan) Wariant Net £ |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn (22/23: 10.14% - 23/24: 10.09%) | (443,336) | (443,336) | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (22/23: 17.59% - 23/24: 17.53%) | (770,232) | (770,232) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (22/23: 15.26% - 23/24: 15.17%) | (666,666) | (666,666) | 0 |
| - Cyngor Sir Ddinbych (22/23: 15.48% - 23/24: 15.51%) | (681,484) | (681,484) | 0 |
| - Cyngor Sir y Fflint (22/23: 22.67% - 23/24: 22.79%) | (1,001,422) | (1,001,422) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (22/23: 18.86% - 23/24: 18.91%) | (831,077) | (831,077) | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (9,950,610) | (9,950,610) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (1,145,400) | (1,145,400) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (100,000) | (100,000) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | (186,067) | (186,067) | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (540,812) | (540,812) | 0 |
| Rhaglen defnydd anffurfiol o'r Gymraeg (3-18 oed) (Siarter Iaith) | (207,719) | (207,719) | 0 |
| Ein Llais Ni | (168,036) | (168,036) | 0 |
| Prosiect Taith | (41,056) | (41,056) | 0 |
| Incwm Secondiadau | (262,170) | (262,170) | 0 |
| Incwm Arall | (25,263) | (25,263) | 0 |
| Cyfraniad o Gronfa (ANG) | (399,993) | (399,993) | 0 |
| Llog Ar Falansau | 0 | (44,749) | (44,749) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(17,421,343)** | **(17,466,093)** | **(44,749)** |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **77,323** | **77,323** |

**Memorandwm -**

**Y Gronfa Gyffredinol**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2023** | **(298,633)** |
| Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2023/24 | 77,323 |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2024** | **(221,310)** |

**Y Gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2023** | **(855,228)** |
| Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2023/24 | 0 |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 399,993 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2024** | **(455,235)** |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**22 MAI 2024**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones - Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol GwE 2023-24** |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2023-2024 i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Fel y nodir yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaeth o safbwynt cyflawni swyddogaethau a nodau allweddol y gwasanaeth.

**2.2** Mae cynnwys yr adroddiad blynyddol yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol rhanbarthol, fel y cytunwyd yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2023-2024, gan werthuso'r effaith yn erbyn camau gweithredu a deilliannau am y flwyddyn gyfan.

**3.0 Ystyriaethau**

**3.1** Amgaeir yr Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol sydd yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol rhanbarthol ar gyfer 2023-2024:

1. **Gwella Ysgolion** - gwreiddio trefniadau gwella ysgol effeithiol wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau cysylltiedig.

2. **Cwricwlwm ac Asesu** - cefnogi 4 diben y cwricwlwm, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd ar ei lwybr dysgu ei hun gan fagu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau, gyda thegwch a rhagoriaeth yn ganolog i hyn oll.

3. **Datblygu dysgu ac addysgu o safon uchel** - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion trwy gefnogi a datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sgiliau addysgeg i hybu llwyddiant pob dysgwr, a hynny trwy ddysgu proffesiynol uchelgeisiol.

4. **Arweinyddiaeth** - datblygu arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i gefnogi llwyddiant pob dysgwr ar ei lwybr dysgu ei hun, a hynny trwy hunanwerthuso manwl gywir a chynllunio a chyflawni gwelliant cadarn.

   Parhau i ddatblygu system sy'n hunan wella, ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y cynhwysedd a'r gallu i fod yn dysgu a gwella arferion yn gyson, gan weithio tuag at fod yn sefydliadau sy'n dysgu.

5. **Profiad addysg cadarnhaol i bawb** - wedi ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant, gyda chefnogaeth ar gyfer llesiant a gwytnwch dysgwyr a staff, sy'n hanfodol er mwyn gwella deilliannau addysg a chyfleoedd bywyd.

   Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio.

   Grymuso dysgwyr a chymunedau i gael perthynas gadarn gyda darparwyr addysg, fel y gallwn fynd i'r afael â difreintedd a darparu addysg o'r radd flaenaf yn lleol ac yn genedlaethol.

6. **Mae Cymraeg yn perthyn i bawb** - rhoi mynediad cyfartal at yr iaith i bob dysgwr, a chyfle i bawb gyflawni ei botensial.

Annog defnyddio'r Gymraeg ar draws y system addysg fel rhan annatod o’r Cwricwlwm i Gymru a’n dyheadau ar gyfer Cymraeg 2050, ac ymestyn darpariaeth ôl-16 i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu’r iaith fel dinasyddion gweithredol a brwdfrydig.

7. **Busnes** - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a strwythurau busnes a gwella ysgol priodol ac effeithiol, sy’n sicrhau effaith gadarnhaol a gwerth am arian.

**3.2** Yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol, caiff pob Awdurdod Lleol adroddiad manwl sydd yn rhoi trosolwg lleol penodol, yn dal cynnydd yn erbyn pum maes allweddol, ac yn adnabod y camau nesaf ar y llwybr tuag at welliant:

- Maes Allweddol 1 - Gwella Arweinyddiaeth
- Maes Allweddol 2 - Gwella'r Dysgu a'r Addysgu
- Maes Allweddol 3 - Cwricwlwm a Darpariaeth
- Maes Allweddol 4 - Cynnydd a Safonau Dysgwyr
- Maes Allweddol 5 - Cymorth a Her i Ysgolion sy'n Destun Pryder

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Appendix 1 - Adroddiad Blynyddol GwE 2023-24

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon fod y diweddariad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.




# Adroddiad Blynyddol GwE 2023-2024

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol

2 Cyflwyniad a chyd-destun

3 Gwella Ysgolion

4 Cwricwlwm ac Asesu

5 Datblygu dysgu ac addysgu o safon uchel

6 Arweinyddiaeth

7 Profiad addysg cadarnhaol i bawb

8 Mae Cymraeg yn perthyn i bawb

9 Busnes

10 Amcanion Strategol a blaenoriaethau ar gyfer 2024-25

**DOGFENNAU ATEGOL:**

ATODIAD : Data Rhanbarthol

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae GwE a’r chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru yn adnabod eu hysgolion a'u lleoliadau yn dda, ac yn darparu her gadarn a phriodol yn ogystal â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae strategaethau, polisïau a phrosesau eglur iawn ar waith ar gyfer gwella ysgolion ac a ddeallir gan yr holl randdeiliaid. Mae perthynas gref rhwng yr Awdurdodau Lleol a GwE. Mae gweithdrefnau grymus ar waith i osod cyfeiriad a dwyn y gwasanaeth rhanbarthol i gyfrif. Mae'r Fframwaith Cynllunio Busnes sydd ar waith yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol. Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Adroddir am y cynnydd yn erbyn y cynllun busnes rhanbarthol bob chwarter, i'r Cyd-bwyllgor.

Mae rôl benodol yr Awdurdodau Lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol mewn gwella ysgolion yn amlwg ac yn glir i'r holl randdeiliaid, ac maent yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol gan weithdrefnau craffu lleol.

Mae ansawdd yr addysgu’n gyffredinol gadarn ar draws y rhan fwyaf o ysgolion ym mhob sector, ac mae gweithredu pwrpasol yn digwydd i fynd i'r afael â meysydd sy'n achosi pryder a lleihau amrywiad mewn ysgol. Mae'r Awdurdodau Lleol, mewn partneriaeth efo GwE, wedi bod yn gweithredu'n gadarnhaol i gefnogi arweinwyr ac athrawon i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Mae sicrhau dilyniant i swydd Pennaeth, ac yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, wedi bod ac yn parhau i fod yn her. Mae GwE yn darparu arlwy gyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ynghyd â chymorth pwrpasol ac wedi'i dargedu i ysgolion yn ôl yr angen, yn enwedig yr ysgolion hynny sy'n destun pryder.Ar ben hynny, mae trefniadau cadarn ar waith ar draws y rhanbarth ble mae arweinwyr ysgolion yn cydweithio i gefnogi'r naill a'r llall mewn clystyrau cynradd a chynghreiriau uwchradd ac yn cymryd perchenogaeth a chyfrifoldeb cynyddol am daith welliant ei gilydd.

Mae mwy o ffocws ar helpu ysgolion i wella ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ac addysgeg wedi arwain at well safonau ar draws y rhan fwyaf o ysgolion. Mae angen cyflymu’r gwelliant ymhellach mewn rhai ysgolion, ac eir i’r afael â hyn trwy gynllun cymorth ysgolion unigol. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion yn gwneud defnydd mwy deallus o ddata, ynghyd â gwybodaeth am ddysgu, dysgu ac asesu, i werthuso safonau ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach, ond cydnabyddir bod angen cryfhau'r prosesau hyn ymhellach er mwyn sicrhau mwy o ffocws ar gynnydd dysgwyr mewn rhai ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cyflwyno'n effeithiol rhaglenni tracio ac ymyrraeth i fynd i'r afael â thanberfformio ac amrywiad. Mewn ychydig o ysgolion, mae angen cryfhau a mireinio'r dulliau hyn ymhellach.

Mae gan GwE a'r Awdurdodau Lleol brotocolau clir yn eu lle i adnabod Ysgolion sy'n peri pryder. Mae hyn eu galluogi i ymateb yn brydlon a chadarn i ysgolion sy'n destun pryder. Ceir enghreifftiau penodol ble mae dwysau'r her a'r cymorth ochr yn ochr â gweithredu cadarn ac amserol wedi arwain yn uniongyrchol at newidiadau mewn uwch arweinyddiaeth. Ceir tystiolaeth gref bod prosesau a gweithredu GwE a'r Awdurdodau Lleol i gefnogi ysgolion sy'n destun pryder yn cael effaith ar ansawdd arweinyddiaeth ac addysgeg, ac yn arwain at well safonau yn yr ysgolion hynny. Mewn rhai o ysgolion, mae angen cyflymu'r gwelliant ymhellach.

Mae cynnwys yr adroddiad blynyddol yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a’n hamcanion strategol ar gyfer 2023-2024, gan werthuso effaith yn erbyn camau gweithredu a’r deilliannau ar gyfer y flwyddyn gyfan:

1. **Gwella Ysgolion** - gwreiddio trefniadau gwella ysgol effeithiol wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau cysylltiedig.

2. **Cwricwlwm ac Asesu** - cefnogi 4 diben y cwricwlwm, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd ar ei lwybr dysgu ei hun gan fagu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau, gyda thegwch a rhagoriaeth yn ganolog i hyn oll.

3. **Datblygu dysgu ac addysgu o safon uchel** - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion trwy gefnogi a datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sgiliau addysgeg i hybu llwyddiant pob dysgwr, a hynny trwy ddysgu proffesiynol uchelgeisiol.

4. **Arweinyddiaeth** - datblygu arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i gefnogi llwyddiant pob dysgwr ar ei lwybr dysgu ei hun, a hynny trwy hunanwerthuso manwl gywir a chynllunio a chyflawni gwelliant cadarn.

   Parhau i ddatblygu system sy'n hunan wella, ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y cynhwysedd a'r gallu i fod yn dysgu a gwella arferion yn gyson, gan weithio tuag at fod yn sefydliadau sy'n dysgu.

5. **Profiad addysg cadarnhaol i bawb** – wedi ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant, gyda chefnogaeth ar gyfer llesiant a gwytnwch dysgwyr a staff, sy'n hanfodol er mwyn gwella deilliannau addysg a chyfleoedd bywyd.

   Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio.

   Grymuso dysgwyr a chymunedau i gael perthynas gadarn gyda darparwyr addysg, fel y gallwn fynd i'r afael â difreintedd a darparu addysg o'r radd flaenaf yn lleol ac yn genedlaethol.

6. **Mae Cymraeg yn perthyn i bawb** - rhoi mynediad cyfartal at yr iaith i bob dysgwr, a chyfle i bawb gyflawni ei botensial.

   Annog defnyddio'r Gymraeg ar draws y system addysg fel rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru a'n dyheadau ar gyfer Cymraeg 2050, ac ymestyn darpariaeth ôl-16 i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu'r iaith fel dinasyddion gweithredol a brwdfrydig.

7. **Busnes** - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a strwythurau busnes a gwella ysgol priodol ac effeithiol, sy'n sicrhau effaith gadarnhaol a gwerth am arian.

Yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol, bydd pob Awdurdod Lleol yn derbyn adroddiad manwl yn rhoi trosolwg lleol penodol, gan nodi'r cynnydd yn erbyn pum maes allweddol yn ogystal â nodi'r camau nesaf ar y llwybr gwella:

- Maes Allweddol 1 – Gwella Arweinyddiaeth
- Maes Allweddol 2 – Gwella Addysgu a Dysgu
- Maes Allweddol 3 – Cwricwlwm a Darpariaeth
- Maes Allweddol 4 – Cynnydd a Safonau Dysgwyr
- Maes Allweddol 5 – Cefnogaeth a Her i Ysgolion sy'n Peri Pryder

## 2. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws gogledd Cymru fu'r negeseuon clir a chyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion gogledd Cymru. Nid arweinwyr a staff ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau.

Mae GwE a'r Awdurdodau Lleol yn adnabod eu hysgolion a'u lleoliadau yn dda, ac yn darparu her gadarn a phriodol yn ogystal â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer . Mae strategaethau, polisïau a phrosesau eglur iawn ar waith ar gyfer gwella ysgolion ac a ddeallir gan yr holl randdeiliaid. Mae perthynas weithio gref rhwng yr Awdurdodau Lleol a GwE.Mae gweithdrefnau grymus ar waith i osod cyfeiriad a dwyn y gwasanaeth rhanbarthol i gyfrif. Mae rolau penodol yr Awdurdodau Lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol mewn gwella ysgolion yn amlwg ac yn glir i'r holl randdeiliaid, ac maent yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol trwy weithdrefnau craffu lleol.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn gwerthuso ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio data a gwybodaeth ansoddol yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Mae proses glir ac effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn cyrraedd blaenoriaethau a thargedau corfforaethol yr Awdurdodau Lleol.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhaglen ddiwygio sylweddol, gyda dysgu ac addysgu effeithiol a chyflawni'r Pedwar Diben yn ganolog i'w llwyddiant. Mae GwE wedi gofalu bod pob cymorth cwricwlwm yn cyd-fynd â disgwyliadau ac egwyddorionLlywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi efo cyfnod pontio dysgwyr.

Mae cynnwys yr adroddiad blynyddol yn dal cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol ar gyfer 2023-2024, gan werthuso effaith yn erbyn camau gweithredu a'r deilliannau ar gyfer y flwyddyn gyfan.

## 3. GWELLA YSGOLION

### Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith

O ganlyniad i gydweithio ac ymwneud effeithiol rhwng GwE ac ysgolion:

- Ar draws mwyafrif yr ysgolion, dealltwriaeth ddyfnach o ofynion a disgwyliadau'r Canllawiau Gwella Ysgolion (CGY) newydd.
- Mae bron pob ysgol yn cynnal ystod helaeth o brosesau gwerthuso effeithiol, ac mae'r farn arfarnol yn y rhan fwyaf o ysgolion yn drylwyr, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o gynnydd disgyblion ac yn tynnu ar wybodaeth ansoddol a meintiol helaeth
- Dengys rhai ysgolion brosesau arfarnu hynod effeithiol sydd yn cael effaith gref ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.
- Mae gan rai ysgolion gynlluniau gwelliant miniog a phwrpasol gyda phrosesau cadarn ar waith i fonitro a mesur cynnydd ac effaith.
- Dengys lawer o ysgolion gryfderau neilltuol o fewn ac ar draws y pedwar maes ffocws, sef Arweinyddiaeth, Addysgu, Cwricwlwm a Darpariaeth a Safonau a Chynnydd [manylion o fewn astudiaethau achos ar OneDrive ac Adroddiadau Cynnydd].

**AMCAN 1 – GWELLA YSGOLION**

**Blaenoriaethau:**

**1.1 Sicrhau bod pob ysgol yn cael ei chefnogi i werthuso yn fanwl gywir a chyflawni cynlluniau gwella cadarn yn effeithiol.**
**1.2 Cefnogi arweinwyr i weithio ar y cyd i hyrwyddo safonau a dyheadau uchel i bawb.**
**1.3 Cefnogi'r arweinyddiaeth mewn ysgolion i ddod yn gyfarwydd â'r canllawiau gwella ysgol newydd ac i fod yn barod at eu gweithredu.**
**1.4 Cryfhau dulliau amlasiantaethol o weithio gydag ysgolion sy'n destun pryder**
**1.5 Cryfhau gweithio partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol.**

**GWELLA YSGOLION**

Canolbwyntiwyd yn bennaf dros y flwyddyn ar gefnogi ysgolion i fod yn 'barod am y fframwaith' o safbwynt y Fframwaith/Canllawiau Gwella Ysgolion. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen o benaethiaid rhanbarthol a staff GwE wedi datblygu canllawiau a deunyddiau enghreifftiol i ysgolion ar y gofyniad i gyhoeddi crynodeb o ganfyddiadau hunanarfarnu, cynnydd yn erbyn blaenoriaethau blaenorol y Cynllun Gwella Ysgol (CGY), blaenoriaethau gwella lefel uchel ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r cymorth allanol y bydd angen ar yr ysgol i gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Cynhaliwyd pedair sesiwn rithiol yn ystod oriau gwyll, ac roedd recordiadau ar gael i'r ysgolion hynny nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Bydd angen parhau i roi ffocws allweddol i'r maes hwn unwaith y bydd y Canllawiau Gwella Ysgolion (CGY) diwygiedig wedi'u lansio.

Yn rhan o fod yn '*barod am y fframwaith*', bu Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt (YCG) yn cefnogi ysgolion gyda'u prosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant - drwy weithdai a chymorth unigryw dilynol. Cafwyd adborth calonogol ar y cyfan gan ysgolion, gyda llawer yn nodi'n gryf eu bod wedi dyfnhau eu dealltwriaeth o ofynion a disgwyliadau'r CGY. Fodd bynnag, erys peth anghysondeb yn ansawdd cynllunio gwelliant, ac yn benodol, miniogrwydd geiriad blaenoriaethau a deilliannau disgwyliedig.

Mae Cynlluniau Cymorth yn weithredol yn y mwyafrif o ysgolion a daliwyd effaith y cymorth mewn astudiaethau achos i bob ysgol/clwstwr. Er hynny, mae cyfyngiadau 'gweithredu yn brin o streic' wedi arwain at leiafrif o ysgolion cynradd ddim yn ymgysylltu am ran sylweddol o'r flwyddyn.

Mae'r mwyafrif helaeth o YCG Cyswllt wedi cael eu cynnwys yn effeithiol mewn ymarferion craffu yn eu hysgolion ac wedi gallu gwirio dilysrwydd a chywirdeb y barnau. Mae cyfyngiadau 'gweithredu yn brin o streic' wedi golygu nad yw lleiafrif o ysgolion cynradd wedi gwahodd eu YCG Cyswllt i gymryd rhan.
Mae gweithgarwch YCG cyswllt ac agendâu rhwydweithiau/fforymau wedi canolbwyntio ar sicrhau bod prosesau arfarnu mewn ysgolion yn canoli fwy ar gynnydd a safonau dysgwyr. Bydd hyn yn parhau yn ffocws allweddol yn 2024-25 i sicrhau bod arferion effeithiol yn gwreiddio.

Mae ymgysylltu ychwanegol ag ysgolion dros gyfnod o dri thymor wedi arwain at werthusiad cynhwysfawr o effaith a chynnydd mewn pedwar maes allweddol: Arweinyddiaeth, Addysgu, Cwricwlwm a Darpariaeth a Safonau a Chynnydd. Mae'r adroddiadau hyn wedi bwydo i Adroddiad Cynnydd Blynyddol yr Awdurdod Lleol ac wedi'i rannu â'r pwyllgor craffu. I leiafrif o ysgolion cynradd, nid oedd yr adroddiadau yn cynnwys adroddiad cynhwysfawr yn erbyn pob maes oherwydd cyfyngiadau 'gweithredu yn brin o streic'. Ym mhob adroddiad, nodir agweddau allweddol i ddatblygu'r sector ymhellach o fewn pob Awdurdod Lleol.

Mae llawer o ysgolion yn parhau i wneud defnydd effeithiol o waith ymgysylltu â chymheiriaid. Er hynny, er bod y gwaith cefnogi a datblygu o fewn cynghreiriau/clystyrau yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a'r safonau mewn amryw o achosion, nid yw lefel yr her a gynigir gan arweinwyr cymheiriaid yn rhan o'r prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn ddigon cadarn ar draws rhai cynghreiriau/clystyrau. O ganlyniad, collir cyfleoedd gwerthfawr i herio ymhellach cywirdeb y canfyddiadau. Bu'r cynnydd yn araf iawn mewn rhai clystyrau/cynghreiriau ac yn enwedig o ran sicrhau lefel briodol o her. Bydd angen rhoi ffocws allweddol i hyn ar gyfer 2024-25.

Cryfhawyd prosesau a systemau i gefnogi ysgolion sy'n achosi consyrn (YAC) ac i adnabod yn gynnar ysgolion sy'n dirywio. Croesawodd y swyddogion y templedi diwygiedig ar gyfer adrodd i grwpiau ansawdd Lefel 1 a Lefel 2 yr Awdurdod Lleol. Nododd Swyddogion yr Awdurdodau Lleol, sydd yn ffurfio rhan o Grŵp Gorchwyl yr ALl/GwE, fod y templed adrodd wedi arwain at drafodaethau miniocach ynghylch pryderon ac ar gytuno ar y camau nesaf.

Mae proffil cyfredol y sector yn adnabod bod:

- 9 ysgol mewn categori statudol [3 uwchradd / 6 cynradd];
- 14 ysgol yn achosi consyrn [0 uwchradd/14 cynradd];
- 46 ysgol sy'n cael eu hadolygu [22 uwchradd / 24 cynradd].

## 4. CWRICWLWM AC ASESU

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**

O ganlyniad i gydweithio ac ymwneud effeithiol rhwng yr AauLl, GwE ac ysgolion:

- mae pob ysgol yn gweithredu cynlluniau i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd.
- mae pob ysgol yn datblygu cwricwlwm cytbwys i fodloni anghenion eu dysgwyr, gan gynnwys y rhai mwy abl.
- mae pob clwstwr yn gweithredu cynlluniau pontio.
- Mae’r sesiynau Dysgu Proffesiynol yn annog ysgolion i adnabod camau nesaf er mwyn datblygu eu darpariaeth ymhellach gan gyfrannu at feddylfryd Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu.

**AMCAN 2 – CWRICWLWM AC ASESU**

**Blaenoriaethau:**

**2.1 Gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru**
**2.2 Asesu, cynnydd ac atebolrwydd**

**DATBLYGU CWRICWLWM A RHWYDWEITHIAU (CiG)**

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhaglen ddiwygio sylweddol, gyda dysgu ac addysgu effeithiol a chyflawni'r Pedwar Diben yn ganolog i'w llwyddiant. Mae GwE wedi gofalu bod pob cymorth cwricwlwm yn cyd-fynd â disgwyliadau ac egwyddorion Y Daith i 2022 a fframwaith diwygiedig y Cwricwlwm i Gymru. Yn unol â gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru, darparwyd cymorth i bob ysgol a lleoliad fodloni'r gofynion

statudol newydd o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Mae'n hanfodol bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau i gefnogi efo cyfnod pontio dysgwyr.

**Rhwydweithiau CiG Rhanbarthol**
I hwyluso deialog broffesiynol, darparodd GwE rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion wedi datblygu, a rhannu, arfer effeithiol wrth ddadbacio potensial y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) a dyluniad cwricwlwm ysgol gyfan ac asesu, a hynny dan arweiniad ac adborth rheolaidd gan yr Athro Graham Donaldson. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi rhoi cefnogaeth effeithiol i arweinwyr baratoi at Y Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru, ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn bodloni amrywiol anghenion ysgolion yn ystod y pandemig. Roedd gan y proffesiwn strwythur ar draws y rhanbarth ar gyfer rhannu a thrafod arferion sy'n dod i'r amlwg o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Rhannodd y rhwydweithiau rhanbarthol ffrwyth eu llafur ag ysgolion trwy Ganolfan Cefnogaeth GwE, gan ddarparu cyfle i ymarferwyr raeadru negeseuon rhanbarthol a rhannu arferion lleol. Dan arweiniad y rhwydweithiau, cynhaliwyd gweminarau effeithiol i arweinwyr ysgolion ar ddylunio cwricwlwm, asesu a chynnydd ac egwyddorion cynllunio. Mae ysgolion wedi nodi bod y cyflwyniadau wedi rhoi hwb i'w hyder i ddatblygu eu Dyluniad Cwricwlwm lefel uchel i gynnwys gweledigaeth, egwyddorion ac ymgorffori'r pedwar diben. Mae pob ysgol wedi defnyddio'r gweithdai hyn, trwy naill ai recordiad byw neu drafodaethau diweddarach efo'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt.

Cynhaliwyd digwyddiad ar 22/06/2023 i ddathlu arferion sy'n dod i'r amlwg ar draws y system addysg. Roedd yn ddigwyddiad i arweinwyr ysgolion rhanbarthol, staff a rhanddeiliaid eraill. Cynhaliodd aelodau o'r Rhwydwaith CiG Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill weithdai a stondinau ar y cyd i rannu arferion, a chafwyd areithiau hefyd gan siaradwyr gwadd. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i ddathlu ac i rannu arferion, fel gall ymarferwyr gyfrannu at yr arferion gorau sy'n dod i'r amlwg o fewn y system ac ar draws y Rhanbarth, a datblygu gwell dealltwriaeth o sut i gyflawni'r CiG yn effeithiol.

Nododd nifer o'r rhai oedd yn bresennol eu bod wedi elwa'n fawr iawn ar ystod eang y ddarpariaeth. Yn ogystal, bu i bobl elwa ar y rhwydweithio anffurfiol a'r cyfle i gyfnewid profiadau ac adnoddau. Cafwyd adborth cadarnhaol a sylwadau adeiladol ar gyfer datblygiad pellach. Nododd bron yr holl ymatebwyr y camau nesaf yn dilyn y digwyddiad. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn nodi y byddant yn addasu/mireinio'r hyn maent eisoes yn ei wneud mewn ysgolion gan eu bod wedi dysgu mwy, neu wedi cael ysbrydoliaeth o'r syniadau yn yr amrywiol sesiynau. Bu'r gweithdai yn boblogaidd. Roedd ymarferwyr yn gwerthfawrogi gweld enghreifftiau o ysgolion er mwyn datblygu eu syniadau eu hunain yn seiliedig ar y cyflwyniadau, gan ystyried eu dulliau i'r dyfodol.

Fodd bynnag, nid oes Rhwydweithiau CiG penodol yn weithredol ar draws y Rhanbarth bellach. Bu'n fwriad gan y Gwasanaeth esblygu ac adolygu'r strwythur hwn i sicrhau ein bod yn hwyluso ac yn datblygu Rhwydweithiau Dysgu Proffesiynol a fyddai'n bodloni'r galw a'r angen mewn ysgolion er mwyn annog cydweithio, arferion llwyddiannus a rhannu gwybodaeth ymhlith addysgwyr a staff. Y bwriad oedd parhau gyda'r gynhadledd flynyddol i rannu arferion sy'n dod i'r amlwg er mwyn tynnu sylw at waith effeithiol a llwyddiannus. Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth ddiwedd Ionawr 2024 ac arweiniad telerau ac amodau’r Grant Addysg Awdurdod Lleol, mae’r gwaith yma bellach yn y fantol ac yn dibynnu ar y Gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan ysgolion / clystyrau / awdurdodau unigol os ydynt yn dymuno i ni hwyluso hyn i’r dyfodol.

**Rhwydweithiau CiG Traws Ranbarthol**
Mae pob grŵp YCG Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) Rhanbarthol wedi cynnal diwrnod o hyfforddiant yn Hydref/Tachwedd 2023, gyda’r bwriad o gynnal sesiwn ddilynol yn Mehefin/Gorffennaf 2024.

Mae adborth o'r sesiynau yma yn gyffredinol bositif:

- 94% yn cytuno/cytuno'n gryf bod y sesiynau wedi diwallu'r gofynion
- 87% yn nodi y byddent yn argymell y Dysgu Proffesiynol yma i eraill
- 85% yn nodi bod y sesiwn/sesiynau wedi rhoi sgiliau a gwybodaeth newydd iddynt i fod yn gymorth i arwain gwelliannau pellach

Mae pob grŵp MDaPh hefyd yn cyfarfod o leiaf bob hanner tymor gyda'r grŵp Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol yn hwyluso'r cyfarfodydd hyn. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle hefyd i rannu arferion llwyddiannus o'r gwahanol Ranbarthau ar draws Cymru.

Mae bron pob un sydd wedi mynychu unrhyw sesiwn/sesiynau uchod wedi adnabod camau nesaf er mwyn datblygu eu darpariaeth ymhellach.

## Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

**Sicrhau cymorth gydag egwyddorion ac arferion dylunio cwricwlwm.**

**Sefydlu Rhwydweithiau Celfyddydau Mynegiannol ar gais ysgolion / clystyrau / cynghreiriau /YCG / Arweinwyr Craidd.**

Cynhaliwyd sesiwn diwrnod cyfan gan GwE ar 11/05/23 i hwyluso Cyfarfod Clwstwr Celfyddydau Mynegiannol gydag ymarferwyr Cynradd ac Uwchradd. Bu hyn yn fodd i ymarferwyr ddyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o FDaPh y Celfyddydau Mynegiannol, a fydd yn ei dro yn datblygu eu gwaith cynllunio. Bu'n fodd hefyd cydweithio fwy o fewn y clwstwr ac ar draws y clwstwr. Nodwyd mewn adborth gan ymarferwyr bod 100% o'r rheiny a oedd yn bresennol yn credu bod y sesiwn yn fuddiol.

Cynhaliwyd dau gyfarfod Rhwydwaith Celf Mynegiannol yn nhymor yr Hydref 27/11/23 drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ar 28/11/23 drwy gyfrwng y Saesneg. Cynhaliwyd dau gyfarfod yn nhymor y Gwanwyn ar 12/03/24, ac ar 14/03/24 drwy gyfrwng y Saesneg. Cafodd y rheiny a fu'n bresennol wybodaeth am negeseuon allweddol, adnoddau, cyfle i wneud cysylltiadau ag asiantaethau allanol (Cyngor Celfyddydau Cymru a Charanga Cymru) a chyfle i gydweithio, trafod a rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg.

Mae gan ymarferwyr fynediad at gyflwyniadau Dysgu Proffesiynol GwE yn ymwneud â dylunio cwricwlwm:

- Dadbacio a deall MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol
- Cynnydd mewn dysgu ym MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol
- Sgiliau Cyfannol yn y Cwricwlwm i Gymru
- Beth yw Creadigrwydd?

Llwythwyd yr holl gyflwyniadau uchod ar wefan GwE. Mae hyn wedi galluogi bron pob ymarferydd i gael gafael ar yr holl ddogfennau perthnasol a chael gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ofynion mandadol a statudol dylunio cwricwlwm yng nghyd-destun y Celfyddydau Mynegiannol. Mae hyn hefyd wedi galluogi bron pob ymarferydd i wella'u hyder i gynllunio profiadau effeithiol, gwreiddiol a chyffrous ym MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol.

Bydd gan bron pob ymarferydd sy'n troi at y cyflwyniadau wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r broses greadigol ac ystyr y derminoleg. Bydd gan bron pob ymarferydd fwy o hyder i gyflwyno'r cwricwlwm mewn ffordd greadigol.

Mae ystod eang o adnoddau a chyflwyniadau wrth law i ymarferwyr ar wefan GwE er mwyn sicrhau bod

ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol yn effeithiol yn eu lleoliad, er enghraifft:

- Dadbacio'r Ystyriaethau sy'n benodol i Ddisgyblaethau
- Cynnydd ar draws y disgyblaethau
- Arferion Datblygol yn y Celfyddydau Mynegiannol
- Arferion Datblygol - Celfyddydau Mynegiannol a MDaPh eraill.

Adnabuwyd 5 Ymarferydd Uwchradd a 3 Ymarferydd Ysgol Arbennig Uwchradd i fod yn rhan o ddau weithgor bach ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol. Maent yn cyfarfod yn gyson â'r YCG Cyswllt. O ganlyniad, cafwyd toreth o ddogfennau, tystiolaeth o arferion sy'n dod i'r amlwg ac astudiaethau achos o'r uchod, ac mae'r rhain wedi'u huwchlwytho i'r adran Celfyddydau Mynegiannol ar wefan GwE i ymarferwyr eu defnyddio. Bydd gan bron pob ymarferydd wybodaeth dda o ystyr y derminoleg sy'n benodol i'r pum disgyblaeth, a gwybodaeth bwrpasol o sut mae cynnydd yn edrych o 3 i 16 oed ym mhob un o'r pum disgyblaeth.

Bydd gan bron pob ymarferydd a fydd wedi defnyddio'r adnoddau hyn wybodaeth a sgiliau cadarn, a phrofiadau posib i wireddu MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol yn eu lleoliadau. Byddant hefyd wedi magu mwy o hyder i gyflwyno'r Celfyddydau Mynegiannol trwy ddull amlddisgyblaethol.

Bydd gan bron pob ymarferydd wybodaeth a sgiliau cadarn, a phrofiadau posib i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru yn eu lleoliadau a byddant wedi magu hyder i gyflwyno'r Celfyddydau Mynegiannol drwy ddull amlddisgyblaethol.

Cynhaliwyd Gweithdai Rhanbarthol i UDRh, Athrawon a Chymorthyddion Dysgu ar ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o FDaPh y Celfyddydau Mynegiannol. Mae hyn wedi galluogi ymarferwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o bum disgyblaeth y MDaPh ac o gynllunio cynnydd yn y grŵp oedran 3-8, a hynny o fewn profiadau dysgu cyfoethog a phwrpasol. Nodir mewn adborth gan ymarferwyr bod ganddynt well dealltwriaeth o bwysigrwydd proses a datblygu sgiliau yn hytrach na bod y pwyslais ar y cynnyrch terfynol.

## IECHYD A LLES

**Cefnogi datblygiad y CiG mewn ysgolion ac UCD i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad.**
Darparwyd cymorth pwrpasol i ysgolion ar draws y rhanbarth, gan roi cymorth naill ai ar gyfer lles ysgol gyfan neu gwricwlwm MDaPh Iechyd a Lles a'i weithrediad, neu'r awdit lles ysgol gyfan a chynllunio ar gyfer newid. Gwnaed cynnydd da yn erbyn y camau gweithredu cytûn ac mae staff wedi uwch sgilio yn y broses.

Bydd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio gyda'u hysgolion cyswllt i sicrhau bod ysgolion yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau, gyda phwyslais penodol ar baratoi at Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru. Mae Rhwydweithiau newydd i gefnogi cydweithio, hyfforddiant a chymorth, rhannu negeseuon allweddol ac arferion da wrthi'n cael eu sefydlu yn ogystal.

Sefydlwyd Rhwydwaith Athrawon Iechyd a Lles Uwchradd/Arbennig/UCD. Mae gan y rheiny sydd wedi ymuno â'r rhwydwaith adnabyddiaeth a dealltwriaeth gadarnach o'r mentrau, y syniadau a'r adnoddau newydd sydd ar gael iddynt. Bydd effaith yr wybodaeth hon yn amlwg yng nghyd-destun cynnwys cwricwlwm y MDaPh a gyflwynir mewn ysgolion.

Sefydlwyd Rhwydwaith Arweinwyr Lles Uwchradd/Arbennig/UCD. Mae sianel TEAMS bellach ar gael i rannu newyddion a gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweminarau ac ati. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwydwaith wyneb yn wyneb a gwnaed cyflwyniadau ar destunau yr oedd llawer o aelodau wedi gofyn amdanynt yn

flaenorol. Roedd yr adborth yn hynod o gadarnhaol. Yr oedd yr aelodau yn ddiolchgar o'r amser i wneud cysylltiadau newydd a chyfleoedd i rwydweithio yn ogystal â chael llywio'r drafodaeth. Mae gan y rheiny sydd wedi ymuno â'r rhwydwaith adnabyddiaeth a dealltwriaeth gadarnach o'r mentrau, y syniadau a'r adnoddau newydd sydd ar gael iddynt.

Cafwyd adborth cadarnhaol yn dilyn y Rhwydweithiau a'r Gweithdai Iechyd a Lles ac mae ymarferwyr yn fwy hyderus wrth gynllunio datblygiad y MDaPh a'r sgiliau trawsgwricwlaidd. Dyma rai sylwadau unigol a gafwyd:

- *Llawn gwybodaeth ac wedi rhoi cryn syniadau i mi fynd yn ôl i aelodau staff eraill. Dangoswyd ffyrdd gwych i gorffori ac addasu ymarferion/sgiliau mewn llawer o weithgareddau.*
- *Deall ystyr a phwysigrwydd llythrennedd corfforol. Gwybod ble i gael gafael ar yr adnoddau. Cyfleoedd gwerthfawr i wrando a thrafod.*
- *Difyr iawn gwrando ar beth mae pawb arall yn ei gynnig a'r system sydd ganddynt ar waith.*

Crëwyd newyddlen Iechyd a Lles i'w chylchredeg ym mhob ysgol yn y rhanbarth a staff yr Awdurdodau Lleol sydd yn gyfrifol am Iechyd a Lles. Cafwyd sylwadau cadarnhaol am y newyddlenni.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen 'Asesu ar gyfer Cynnydd mewn Iechyd a Lles' - cynhaliwyd ail gyfarfod yn canolbwyntio ar asesu ysgol gyfan gyda phwyslais ar y MDaPh Iechyd a Lles. Arweiniodd hyn at drafodaeth a rhagor o geisiadau am gydweithio Ysgol i Ysgol.

Astudiaethau Achos Cefnogi Dysgwyr Bregus - cynhaliwyd ymweliadau â'r ysgolion uwchradd oedd wedi cofrestru, gyda'r camau cyntaf wedi'u cwblhau yn barod i gofnodi'r daith fel podlediad ym mis Mawrth. Bydd yr adroddiad ysgrifenedig terfynol yn cynnwys sut y caiff effaith ei mesur.

Cyflwynodd YCG Sgiliau Digidol GwE weithdy rhyngweithiol ar 'Sgiliau Digidol ym MDaPh Iechyd a Lles.' Roedd hyn yn cynnwys gwaith ymarferol gyda micro-bit i arddangos sut gellir defnyddio hwn yn effeithiol mewn gwersi Iechyd a Lles.

Cynhaliwyd cyfarfodydd â Chydlynwyr Ysgolion Iach yr ALl i bennu ffrydiau gwaith, blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau lleol. Drwy rannu gwybodaeth a chynlluniau, bydd hyn yn osgoi dyblygu DP ac yn cefnogi mentrau eraill ar yr un pryd.

Mynychwyd seremonïau Graddio Prifysgol Plant i ddangos cefnogaeth GwE i werth Dysgu trwy Brofiadau all ennyn cariad gydol oes at ddysgu. Mae 51 o ysgolion ar hyd a lled y rhanbarth wedi bod yn rhan o'r peilot. Mae mwy na 600 o ddysgwyr wedi cyflawni mwy na 30 awr neu fwy o ddysgu ychwanegol ac wedi bod mewn seremoni raddio gyda'u rhieni, eu gofalwyr a'u athrawon i ddathlu eu llwyddiant.

## Y DYNIAETHAU

**Holiadur i athrawon uwchradd y Dyniaethau**
Datblygwyd holiaduron i athrawon Dyniaethau uwchradd i gasglu gwybodaeth am sut y mae ysgolion yn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Y gobaith hefyd oedd adnabod arferion da ac anghenion athrawon o ran dysgu proffesiynol athrawon wrth i ni baratoi ar gyfer y Gynhadledd Dyniaethau Uwchradd ar 19/11/2023.

O 31 Rhagfyr 2023 ymlaen, cafwyd 40 ymateb gan athrawon ar draws y chwe awdurdod lleol. Roedd yr athrawon yn gyfrifol am addysgu Daearyddiaeth, Hanes a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Ni chafwyd

ymateb gan athrawon yn gyfrifol am addysgu astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol i ddysgwyr B7 a B8. Daeth 90% o'r ymatebion gan athrawon sydd â chyfrifoldeb am gynllunio ac addysgu cwricwlwm Blwyddyn 7 ar gyfer y Dyniaethau, neu gyfrifoldeb am ddisgyblaeth Dyniaethau.

- Mae Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol wedi'u cynnwys yng nghynllunio Blwyddyn 7 mewn 38% o ysgolion.
- Mae 45% o ysgolion yn cynnig cwricwlwm Dyniaethau integredig i ddisgyblion Blwyddyn 7, mae 40% yn addysgu gwersi disgyblaethol ac mae 15% yn cynnig cyfuniad o wersi disgyblaethol ac integredig.
- Mae llawer yn hyderus bod y Pedwar Diben, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r disgrifiadau dysgu yn y Dyniaethau yn cael dylanwad ar eu gwaith cynllunio.
- Nododd ambell un eu bod wedi bod yn rhan o drafodaethau lleol ar y Dyniaethau, e.e. craffu ar lyfrau, dyddiau pontio, sgyrsiau rhagarweiniol.
- Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o athrawon y Dyniaethau o'r farn bod eu cynllunio disgyblaethol a'u darpariaeth ar gyfer profiadau dysgu gwerthfawr yn gweithio'n dda.
- Nid yw'r rhan fwyaf o athrawon wedi cael unrhyw ddysgu proffesiynol i gefnogi efo gwaith cynllunio yn y Dyniaethau, a byddent yn hoffi cymorth pellach. er enghraifft, cynllunio ar gyfer cynnydd yn y Dyniaethau, gweld enghreifftiau o gynlluniau gwaith, gweithio efo partneriaid allanol.
- O'r holiadur, darparodd chwe ysgol enghreifftiau o'u harferion cynnar yn y Gynhadledd Dyniaethau ar 16 Tachwedd 2023.

**Cynhadledd Cwricwlwm i Gymru (Dyniaethau) i Athrawon Uwchradd 16/11/23**
Bu'r gynhadledd yn gyfle i athrawon wrando ar siaradwyr gwadd yn siarad am Cynefin ac Amrywiaeth, gwrando ar yr arferion sy'n dod i'r amlwg gan chwe ysgol yn y rhanbarth ac yn gyfle i rwydweithio fesul ALl a disgyblaeth.

Gweithgaredd Marchnad: Roedd partneriaid allanol o 10 asiantaeth yn bresennol. Rhoddwyd cyfle i athrawon drafod sut gallai'r asiantaethau hyn weithio gydag ysgolion i gyfoethogi'r cynnig cwricwlaidd.

Cynrychiolwyd 30 o ysgolion uwchradd y rhanbarth yn y gynhadledd:

Cwblhaodd 22 o'r 33 aelod oedd yn bresennol ffurflen werthuso lefel 1:

- Barnodd 100% fod y gynhadledd yn dda neu'n dda iawn

Rhoddodd yr aelodau sylwadau cadarnhaol ar

- Ansawdd y cyflwyniadau
- Y cyfle i rannu syniadau â chydweithwyr
- Clywed gan athrawon yn rhannu eu profiadau

Gofynnwyd i ysgolion gyfrannu at Rwydwaith Digidol y Dyniaethau. Ar hyn o bryd, mae 36 o athrawon yn rhan o Rwydwaith Digidol y Dyniaethau.
**Y gynhadledd oedd y gyntaf o'i math i athrawon disgyblaethau'r Dyniaethau. Croesawyd yn fawr:**

> *Hoffais y negeseuon pwysig a roddwyd a'r naws yn yr ystafell - a'r ffordd y'i cyflwynwyd hefyd a'r natur ryngweithiol - roedd yn gymorth gyda'r negeseuon allweddol. Edrychais ar yr adnoddau ac maen nhw'n ddefnyddiol iawn i ysgolion.*

> *Roedd sesiynau dysgu proffesiynol yn werthfawr iawn i osod cyd-destun y gwaith hwn. Yr oedd y diwrnod i gyd a'r holl gyflwyniadau yn wych i godi ymwybyddiaeth o hiliaeth mewn cymdeithas a rhannu strategaethau ymarferol y gellir eu rhannu ag ysgolion.*

***Google Classroom*** **Y Dyniaethau**
Mae 38 o athrawon wedi ymuno â Google Classroom y Dyniaethau. Mae holl ddeunyddiau'r cyflwyniadau o'r gynhadledd ar gael. Mae manylion cyswllt a gwybodaeth am wefannau y 10 partner allanol ar gael i bob ysgol ar Classroom. Mae hyn yn cynnwys:

- Amgueddfa Cymru
- Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru / Welsh Centre for International Affairs
- Casgliad y Werin Cymru / People's Collection Wales
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru / Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments Wales
- Cystadleuaeth Dreftadaeth (MYDG) / Heritage Competition (WHSI)
- Gyrfau Cymru / Careers Wales
- Keystone Heritage
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales
- Prosiect Llan Project (Esgobaeth Bangor Diocese)
- Senedd Cymru / Welsh Parliament

**Astudiaethau Gweithio gyda phartneriaid allanol**
Comisiynwyd tair ysgol yn ystod Tymor y Gwanwyn '24 i gyflwyno astudiaeth achos yn edrych ar effaith gweithio gyda phartneriaid allanol i roi profiadau dysgu difyr i ddysgwyr mewn perthynas â datblygu'r cwricwlwm newydd. Mae'r Astudiaethau Achos ar gael ar Google Classroom y Dyniaethau

## IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

## SAESNEG A LLYTHRENNEDD

**CYNRADD**
**Mae Cynnig DP ILlCh Trawsranbarthol (Cymraeg, Saesneg, ITM - Cynradd ac Uwchradd)** wedi'i lunio ac mae GwE yn defnyddio aelodau rhwydwaith ILlCh CiG i ailadrodd cyflwyniadau a wnaed yn y gynhadledd CiG ranbarthol (Mehefin 2023) i aelodau traws-ranbarthol yn nhymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn.

**Cymorth pwrpasol i ysgolion**
Bodlonwyd pob atgyfeiriad am gymorth unigryw i ysgolion sy'n achosi consyrn/sydd angen gwneud gwelliannau penodol mewn llythrennedd a Saesneg, gyda chymorth naill ai wedi'i gwblhau neu'n parhau. Mae'r tîm o Athrawon Llythrennedd, dan arweiniad yr YCG Llythrennedd, wedi cefnogi ysgolion y mae arnynt angen cymorth unigol ar gyfer Saesneg a Llythrennedd; wedi cynnal DP ysgol gyfan neu glwstwr, diwrnodau agored neu wedi croesawu athrawon i'w hysgolion i rannu/mentora arferion effeithiol. Mae'r YCG Llythrennedd hefyd wedi cefnogi ysgolion.

**Pecynnau adnoddau**
Mae ysgolion a gomisiynwyd wedi parhau i greu pecynnau adnoddau sydd yn cael eu llwytho ar One Drive i YCG ac ysgolion eu defnyddio.

**Dysgu proffesiynol a chydweithio**
**Gwyddoniaeth a Thechnoleg (efo sgiliau trawsgwricwlaidd** - Digwyddiad sgiliau trawsgwricwlaidd tri diwrnod drwy Wyddoniaeth a Thechnoleg, carfan 1 - bu'r YCG Llythrennedd yn cymryd rhan ar y dyddiau ochr yn ochr â chydweithwyr rhifedd a digidol. Y bwriad oedd corffori sgiliau llythrennedd mewn cyd-destun fel bod cynnydd mewn dysgu yn y pynciau, mewn model cost effeithiol a chydweithredol.

**Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) ar gyfer Ysgrifennu 8-11 oed, Shirley Clarke** – un digwyddiad i gefnogi ymhellach AagD a datblygiadau ysgrifennu i ddysgwyr mewn dosbarthiadau ar gyfer 8-11 oed..

**Digwyddiadau Dysgu Proffesiynol (DP) agored mewn ysgolion**: cynhaliwyd amryw o ddigwyddiadau DP agored yn edrych ar **Sgiliau Llythrennedd Sylfaenol** mewn cyd-destun a **Thaith Cariad@Ddarllen**.

**UWCHRADD**
**Cymorth pwrpasol i ysgolion**
Cyflawnwyd yr holl geisiadau penodol gan ysgolion a chefnogwyd ysgolion drwy ystod o hyfforddiant adrannol ac ysgol gyfan a ddarparwyd gan y tîm.

**Arweinwyr Llythrennedd**
Drwy gydol y flwyddyn, bu tri digwyddiad ar wahân i arweinwyr llythrennedd. Bu'r digwyddiadau hyn yn fodd i arweinwyr llythrennedd gynnal momentwm ac atebolrwydd am eu gwaith mewn perthynas â'r 'Dull Chwe Cham'.

**29.06.23** - Digwyddiad lansio'r strategaeth chwe cham. Sicrhaodd y sesiwn fod y dull chwe cham i ddatblygu strategaeth lythrennedd yn cael ei gyflwyno mewn fforymau arweinwyr llythrennedd. Mynegodd bawb a oedd yn bresennol (21 ysgol) ddiddordeb mewn bod yn aelodau o weithgorau lleol i gefnogi ei gilydd i wreiddio'r strategaeth. Cynhaliwyd y digwyddiad ar yr un diwrnod â'r fforwm arweinwyr llythrennedd cyfrwng Cymraeg a bu'n fodd rhoi'r un neges i holl ysgolion y rhanbarth.

**17.10.2023** – Cynhaliwyd rhwydwaith rhanbarthol i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg ble roedd 20 ysgol yn bresennol. Roedd ffocws y diwrnod ar ddatblygu strategaeth, cynnydd mewn sgiliau a datblygu gweithgorau. Dyfarnodd 77% o'r aelodau 5/5 i'r DP yn eu gwerthusiadau. Dyfarnodd 23% o'r aelodau 4/5 i'r DP yn eu gwerthusiadau. Mynegodd bob un o'r aelodau bod y DP wedi bod yn ddefnyddiol, a dewisodd bawb un o nodweddion y DP i lywio'r camau nesaf yn eu hysgolion, ar sail y llinyn llythrennedd y mae'r ysgol wedi'i flaenoriaethu i fod yn ffocws cychwynnol i ddatblygu sgiliau llythrennedd.

**26.01.2024** – Cymorth gweithgor (hanner diwrnod) - Gwahoddwyd ysgolion i ymuno â llinyn llythrennedd i'w hysgol ganolbwyntio arno. Hwylusodd y sesiwn hon gyfle i fonitro effaith y sesiynau hyfforddiant blaenorol. Bu pob llinyn mewn sesiwn hanner diwrnod ble bu'r YCG pynciol yn cyflwyno hyfforddiant penodol ar ddarllen, ysgrifennu a llafaredd. Bu'n fodd i arweinwyr llythrennedd rwydweithio a chydweithio ag ysgolion eraill. Roedd pob ysgol oedd yn bresennol yn gallu gwneud cais am grant i gefnogi datblygiad adnoddau a hyfforddiant i'w staff. Roedd 17 ysgol yn bresennol. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn gweld bod y sesiynau yn fuddiol gyda 88% o ysgolion yn rhoi 5/5 i'r sesiwn yn eu gwerthusiadau.

**Adeiladu pŵer darllen**
Yn sgil adolygiad positif o'r rhaglen adeiladu pŵer darllen, bu modd i ni gynnig cyllid ychwanegol i'r ysgolion peilot gwreiddiol i ehangu'r prosiect yn eu hysgolion. Bu modd i ni hefyd gynnal ail gam y rhaglen. Cyllidwyd 8 ysgol arall a rhoddir hyfforddiant yn y flwyddyn ariannol newydd. Mae'r holl adnoddau bellach wedi'u diweddaru ar Herio a bydd ysgolion cam un yn ychwanegu adnoddau ychwanegol yn rhan o'u cytundeb ariannu.

**PENAETHIAID SAESNEG**
**13.06.2023** - Yn y Fforwm Penaethiaid Saesneg ym mis Mehefin 2023, canolbwyntiwyd ar ddylunio'r cwricwlwm i ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru (CiG). Darparodd David Didau ddysgu proffesiynol i 50 o Benaethiaid Saesneg ar draws y rhanbarth. Yn ôl sylwadau gan Benaethiaid Saesneg, bu'r dysgu proffesiynol yn ddefnyddiol. Yn ddilyniant i'r gwaith hwn, bu'r Penaethiaid Saesneg yn trafod eu cynnydd a'r arferion da/cynnar mewn cyfarfodydd rhanbarthol i Benaethiaid Saesneg ym mis Chwefror 2024.

**13.11.2023** - Cynhaliwyd rhwydwaith rhanbarthol ble roedd Penaethiaid Saesneg o 33 ysgol yn bresennol, yn ogystal ag ystod o Benaethiaid Adran Cymraeg ac Ieithoedd Rhyngwladol. Lansiodd Shirley Clarke ein ffocws ar Asesu Ffurfiannol wedi iddi fod yn siaradwr gwadd yn y rhwydwaith ym mis Mehefin - cafwyd sylwadau calonogol o'r sesiwn. Rhoddodd 78% sgôr o 5/5 am y DP. Dyfarnodd 19% sgôr o 4/5. Rhoddwyd cymorth unigryw dilynol i rai ysgolion. Cafwyd dilyniant rhanbarthol ym mis Chwefror ble bu ysgolion yn trafod eu cynnydd hyd yma o ran datblygu arferion asesu ffurfiannol yn eu hadrannau.

**Wythnos yn cychwyn 26.02.2024** – Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol i roi'r cyfle i Benaethiaid Saesneg drafod sut maent wedi trefnu datblygiad sgiliau a gwybodaeth wrth gynllunio ar gyfer y CiG i sicrhau cynnydd. Roedd hyn yn cynnwys trafod y cyfryngau a ddewiswyd i gyflawni eu bwriadau dysgu, sut maent wedi datblygu (neu'n bwriadu datblygu) y defnydd o asesu ffurfiannol i gefnogi cynnydd dysgwyr a'u camau nesaf i ddatblygu'r CiG.

**Digwyddiad Llythrennedd Tymor 2 Gwanwyn 2024**
Trefnodd y tîm gyfres o weithdai Dysgu Proffesiynol i arweinwyr llythrennedd a'u rheolwyr llinell ar draws holl ysgolion y rhanbarth. Cynhaliwyd y gweithdai hyn ar-lein, unwaith yr wythnos, drwy gydol mis Chwefror/Mawrth 2024. Canolbwyntiodd bob gweithdy ar un elfen o ddatblygu sgiliau llythrennedd trawsgwricwlaidd effeithiol gan gynnwys llythrennedd disgyblaethol, datblygu darllen, cefnogi ysgrifennu a datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr. Darparwyd y sesiynau hyn ar-lein a'u recordio er mwyn i ysgolion fynd at y dysgu proffesiynol ar adeg cyfleus iddynt a defnyddio'r recordiadau i gefnogi dysgu proffesiynol yn eu hysgolion eu hunain hefyd. Bu'r cofrestru ar gyfer y sesiynau yn boblogaidd a'r presenoldeb ym mhob sesiwn yn dda. Cafwyd sylwadau positif gan yr aelodau a oedd yn tystio eu bod yn gweld gwerth y gweithdai a'r strategaethau ymarferol a ddangoswyd.

**Rhwydwaith Penaethiaid Saesneg Newydd**
Digwyddiad ar-lein yn targedu Penaethiaid Saesneg newydd a darpar Benaethiaid Saesneg gyda'r nod o rannu gwybodaeth hanfodol gan gynnwys dyddiadau TGAU a Safon Uwch pwysig, llywio gwefan ddiogel CBAC, dyddiadau cau enghreifftiol, a chynllunio'r cwricwlwm. Cafwyd trafodaethau ar werthuso Cynlluniau Dysgu a phrosesau gwella ansawdd, strategaethau yn cefnogi gweithrediad adrannau o ddydd i ddydd, a ffyrdd i drin a thrafod sgyrsiau anodd. Cyfeiriwyd at adnoddau/gwefannau defnyddiol fel "The Confident Teacher" a "Learning Spy". Cafwyd sesiwn holi ac ateb fer yn ystod y dydd hefyd, a chafwyd niferoedd da o blith penaethiaid a darpar benaethiaid Saesneg a phenaethiaid Saesneg newydd. Roedd 8 ysgol yn bresennol a rhoddodd 50% o'r aelodau 4/5 yn eu gwerthusiadau, a 50% o'r aelodau yn rhoi 5/5 yn eu gwerthusiadau.

**Gweithdai i Athrawon Anarbenigol**
Datblygwyd gweithdai i athrawon anarbenigol i ymateb i fwy o alw gan ysgolion y rhanbarth am arweiniad i rymuso staff anarbenigol i godi safon cyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r pwyslais ar gyflymu, gweithredu asesu ar gyfer dysgu (AagD) effeithiol a defnyddio strategaethau i herio myfyrwyr i gyflawni eu llawn botensial. Prif nod y sesiynau hyn sydd wedi'u llunio'n ofalus yw meithrin dealltwriaeth ddofn o arferion addysgu enghreifftiol mewn Saesneg ymysg staff, gan roi amrywiol adnoddau iddynt er mwyn codi eu hyder i gyflwyno Saesneg, a chreu dilyniant di-dor o strategaethau a methodolegau addysgegol. Bu'r sylwadau gan yr aelodau yn hynod galonogol, gyda phob sesiwn yn cael marciau llawn gan bawb.

**Cymorth i gynghreiriau godi safonau Saesneg**
Yn y cyfarfodydd, rhannwyd dulliau ar gyfer y cwestiynau darllen â marciau uwch, hwyluso'r broses o safoni Asesiadau Di-Arholiad TGAU, dulliau adborth a chymorth i godi cyrhaeddiad A/A*. Cafwyd niferoedd da yn y cyfarfodydd a chafodd bob sesiwn 5/5 gan bawb yn y gwerthusiadau. Ymhellach, mae llwyddiant y sesiynau hyn wedi annog ysgolion penodol i chwilio am gymorth sydd wedi'i deilwra ar eu cyfer.

**Cyfarfodydd cymorth Safon Uwch**
Edrychodd y tair sesiwn ar-lein ar gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r testunau hanfodol yn ymwneud â'r cyrsiau ac arholiadau cyfres yr Haf. Trafodwyd yr arferion gorau, tynnwyd sylw at arddangosiadau enghreifftiol, ac atgyfnerthwyd elfennau allweddol y cwricwlwm. Dangosodd 11 o'r 14 aelod a oedd yn bresennol yn y sesiwn Llenyddiaeth Saesneg ymwneud cryf â'r pwnc. Hefyd, gwelwyd 4 aelod yn y sesiwn Iaith Saesneg, a chafwyd niferoedd da yn y sesiwn Iaith a Llenyddiaeth, gyda 4 o'r 6 myfyriwr oedd wedi cofrestru yn bresennol. Yn bwysig iawn, nododd yr adborth gan yr holl aelodau eu bod yn gweld y sesiynau yn hynod fuddiol, gyda 100% yn nodi bodlonrwydd â'r cynnwys.

Rhoddodd y tîm gyflwyniad manwl i garfan TAR Prifysgol Bangor, yn canolbwyntio ar y tri chwrs Safon Uwch a gynigir yn y rhanbarth ar hyn o bryd. Defnyddiodd y cyflwyniad ystod eang o fethodolegau addysgu a strategaethau ymarferol, gan roi adnoddau i'r addysgwyr y gellid eu plethu'n llyfn yn eu harferion dosbarth. Yn fwy na hynny, bu'r sesiwn yn fodd i'r myfyrwyr gael gwybodaeth hollbwysig allai fod yn hanfodol bwysig i'w gyrfaoedd academaidd yn y dyfodol. Pwysleisiwyd bod dau bwrpas i'r cyflwyniad, sef cyfoethogi profiadau dysgu ac addysgu.

**Newyddlenni**
Dosbarthwyd newyddlenni misol i Benaethiaid Saesneg ac Arweinwyr Llythrennedd. Mae pob newyddlen yn rhoi sylw i themâu penodol pob mis. Er enghraifft, roedd Newyddlen rhif 2 yn rhoi sylw i ddarllen, llythrennedd a TGAU Saesneg Iaith. Yn y newyddlenni ceir dyddiadau pwysig ar gyfer digwyddiadau DP sydd ar y gweill a dyddiadau eraill fyddai'n ddefnyddiol i ymarferwyr. Ar ben hynny, maent yn arwain athrawon at adnoddau a gwefannau perthnasol i gyfoethogi eu darpariaeth. Cafwyd sylwadau calonogol am y newyddlenni, gyda'r athrawon yn eu gweld nhw'n fuddiol i rwydweithiau Penaethiaid Saesneg a llythrennedd.

**GWEITHIO TRAWSGYFNOD**
**Cwblhawyd y rhaglen llafaredd ar draws y cwricwlwm, Oracy Voice 21, yn Chwarter 1.**
Roedd ysgolion cynradd ac uwchradd, cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn bresennol. Mewn adborth ar ddiwrnod 5, rhannodd bron bob aelod eu gweithgaredd gwella a'u canfyddiadau â'u cyd-aelodau. O ganlyniad, mae amryw o gyflwyniadau ac adnoddau defnyddiol yn y dosbarth Google i'w rhannu a'u defnyddio ymysg y garfan. Gofynnodd bron pob un bod cefnogaeth a gweithgareddau pellach yn parhau yn y flwyddyn academaidd newydd, ac mae cynlluniau wedi'u drafftio ar gyfer carfan 2, yn seiliedig ar ganfyddiadau carfan 1. Bydd carfan 1 yn parhau gyda'u gwaith mewn cyfarfodydd rhwydwaith/gweithdai tymhorol ac ati. Yn ôl bron pob ysgol, cafwyd effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, yr addysgeg ac ymgysylltiad disgyblion, gyda'u hadolygiadau cychwynnol. Mewn adborth ar ddiwrnod 5, rhannodd bron bob aelod eu gweithgaredd gwella a'u canfyddiadau â'u cyd-aelodau. O ganlyniad, mae amryw o gyflwyniadau ac adnoddau defnyddiol yn y dosbarth Google i'w rhannu a'u defnyddio ymysg y garfan.

**CARIAD@DDARLLEN**
**Cariad@ddarllen / Reading for Pleasure (RfP)** – Rhwydwaith parhaus yn sgil diwrnod 3 Rhaglen Cariad@Ddarllen, Gwanwyn 2023. Digwyddiad dychwelyd cyntaf: ar 5/12/2023 hanner diwrnod cyfarfod rhwydwaith Cariad@Ddarllen; ail ddigwyddiad dychwelyd 13/03/2024. Roedd ysgolion cynradd ac uwchradd, cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn bresennol, gan roi amgylchedd cost effeithiol a chalonogol i bontio a chydweithio ar draws ystod eang o leoliadau ysgol a chael cymorth gan amrywiaeth fawr o arbenigwyr.

Cafwyd amrywiaeth o siaradwyr gwadd uchel eu parch, gan gynnwys yr Athro Manon Jones a Dr Sarah Olive, a rannodd eu gwaith ymchwil ar gefnogi darllenwyr sydd â chyflyrau niwrowahanol a dewis testunau llenyddiaeth gwahanol. Cafodd ysgolion gyfle hefyd i rannu eu profiadau wrth geisio meithrin diwylliant o gariad at ddarllen ar draws yr ysgol gyfan. Yn ddiweddar, yn dilyn cwrs gan y National Literacy Trust,

cynhaliwyd sesiwn i edrych ar botensial defnyddio llwyfannau digidol i lansio ymgyrch i hybu cariad at ddarllen. Llwyddodd y rhaglen i ddenu niferoedd iach o ysgolion cynradd ac uwchradd. Cafwyd sylwadau hynod galonogol yn dangos bod y sesiynau wedi'u croesawu ac hefyd wedi ysbrydoli addysgwyr i weithredu dulliau newydd yn eu hysgolion eu hunain.

**Cyfuno Sgiliau Llythrennedd a Digidol**

Cwrs 3-diwrnod i ysbrydoli addysgwyr i gyfuno sgiliau digidol a llythrennedd yn effeithiol er mwyn cyflawni gwelliant cyffredinol. Roedd y diwrnod cyntaf yn canolbwyntio ar ddefnyddio podlediadau i wella sgiliau llafaredd. Ar yr ail ddiwrnod, canolbwyntiwyd ar gyfuno gwybodaeth a chreu gwefannau, gan drafod strategaethau darllen effeithiol i hybu arferion darllen iach. Ar y trydydd diwrnod, edrychwyd ar blethu'r sgiliau a ddysgwyd i gynhyrchu fideos perswadiol, gan atgyfnerthu galluoedd siarad, darllen ac ysgrifennu. Roedd y cyrsiau hyn yn addas i addysgwyr cynradd ac uwchradd. Yn ôl yr adborth o'r tri diwrnod, roedd yr aelodau yn gweld gwerth y sesiynau ac maent bellach yn teimlo'n hyderus ac yn awyddus i ddefnyddio sgiliau digidol i gyfoethogi galluoedd llythrennedd.

## Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD

**Arweinyddiaeth**

Yn dilyn cyfarfodydd rhwydwaith rhanbarthol e.e. Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg GwE a Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg YCS GwE y cyfarfodydd rhwydwaith uchod, trefnwyd i arweinwyr gyfarfod fesul Cynghrair yn ystod Chwarter 4 gyda ffocws y cyfarfodydd hyn yn nwylo'r arweinwyr (mewn ymgynghoriad ag YCG Y Gymraeg) a'r pwyslais ar ddatblygu'r ddeialog broffesiynol rhwng Arweinwyr y Gymraeg ar draws y rhanbarth er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd. Gweler hefyd Rhwydweithiau Arweinwyr Y Gymraeg - Uwchradd - Dal effaith 2023-24.docx a Rhwydweithiau Arweinwyr Y Gymraeg YCS - Uwchradd - Dal effaith 2023-24.docx

Bu adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn cefnogi ei gilydd trwy Rwydwaith Ysgolion Cefnogol yn ogystal â sefydlu rhwydweithiau ar lwyfannau digidol er mwyn rhannu adnoddau a chynnig cefnogaeth ymarferol e.e. adnoddau i gefnogi gweinyddu asesiadau llafar TGAU yn ymarferol

Defnyddiwyd llwyfannau digidol Teams a Google Classroom 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd' a 'GwE - Y Gymraeg YCS - Uwchradd YCS' er mwyn rhannu adnoddau a pharhau i atgoffa arweinwyr o'r prif negeseuon yn dilyn y cyfarfodydd rhanbarthol uchod, (gydag arweinwyr yn cyfrannu'n achlysurol at y llwyfannau hyn yn ogystal).

Defnyddiwyd cylchlythyr digidol 'O'r Stordy', sef cylchlythyr y Gymraeg, er mwyn rhannu gwybodaeth a negeseuon yn dilyn y cyfarfodydd uchod yn ogystal â hysbysu penaethiaid ac arweinwyr o ddigwyddiadau arfaethedig. Rhannwyd dau fersiwn o'r cylchlythyr 'O'r Stordy', un ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith ac un arall â'r cynnwys wedi'i addasu ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, a hwnnw'n ddwyieithog

**Gwireddu Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol**

Cyflwynwyd sesiynau'n rhan o'r cyfarfodydd rhwydwaith rhanbarthol uchod yn cynnig cefnogaeth ymarferol i arweinwyr ymateb i'r heriau penodol a nodwyd yn y Cynllun Busnes. Bu i gyfarfodydd cynghreiriau dilynol ystyried a thrafod yn fanylach y modd y modd y caiff yr heriau hyn eu targedu'n fwy'n lleol gan ysgolion ac adrannau unigol.

Cydweithiwyd ag arweinydd y Gymraeg ar sesiynau ar gyfer digwyddiad cenedlaethol traws-rhanbarthol yn rhannu arferion llwyddiannus wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno'r sgil trawsieithyddol cyfryngu ac

egwyddorion cynnydd yn y Gymraeg o fewn MDaPh ILlaCh. Rhannwyd y sesiynau a'r adnoddau yn adran Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru, gwefan Consortia Addysg Cymru .

Cydweithiwyd ag arweinwyr y Gymraeg dwy o ysgolion y rhanbarth ar drosglwyddo egwyddorion hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando rhaglen 'Ein Llais Ni' wrth baratoi dysgwyr ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Uned 3 (Llunyddiaeth). Cafwyd cyflwyniadau gan yr arweinwyr yn ystod cyfarfod rhwydwaith rhanbarthol a rhannwyd yr adnoddau trwy greu'r wefan 'Ein Llais Ni - Dewch i ni drafod - Llunyddiaeth'.

Rhannwyd yr adnoddau uchod yn draws-rhanbarthol mewn gwefan o adnoddau gwreiddiol a grëwyd gan ysgolion ar draws Cymru er mwyn cefnogi addysgu'r newidiadau i fanyleb TGAU Llenyddiaeth Uned 3 (Llunyddiaeth). Rhannwyd a threialwyd adnoddau'r wefan draws-rhanbarthol hon ag arweinwyr y Gymraeg yn ystod Chwarter 4.

Cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer ysgolion arweiniol Gwedd 2 prosiect 'Ein Llais Ni' ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg gan gydweithio â'r ysgolion uwchradd sy'n rhan o Wedd 2 ar lunio astudiaethau achos ac addasu adnoddau gwefan 'Ein Llais Ni' yn benodol ar gyfer hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando yn y Gymraeg o fewn haen disgrifiadau dysgu 'Y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg' DHSB MDaPh ILlaCh

Cydweithiwyd â Swyddogion Prosiect 'Ein Llais Ni' i gynnal hyfforddiant ar gyfer clwstwr o ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn annog y ddeialog broffesiynol ar draws sectorau a meithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd mewn sgiliau siarad a gwrando ar hyd y continwwm.

Gwahoddwyd arweinwyr y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwy iaith a chyfrwng Saesneg) i fynychu sesiwn hyfforddiant Shirley Clarke ar asesu ffurfiannol a drefnwyd ar gyfer arweinwyr Saesneg y rhanbarth. Bu i adrannau y Gymraeg pedair ysgol uwchradd (cyfrwng Cymraeg, dwy iaith a chyfrwng Saesneg) a fu'n rhan o'r prosiect 'Dylunio ar gyfer ieithoedd CiG' llynedd (prosiect a drefnwyd ar y cyd â'r YCG Ieithoedd Rhyngwladol) barhau i gydweithio â YCG IRh ac YCG Y Gymraeg er mwyn mireinio ffrwyth eu llafur o ddylunio cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg o fewn MDaPh ILlaCh i'w rannu'n rhanbarthol a chenedlaethol maes o law.

Bu i adrannau y Gymraeg tair ysgol uwchradd (cyfrwng Cymraeg, dwy iaith a chyfrwng Saesneg) gydweithio â Gyrfa Cymru er mwyn llunio adnoddau gwreiddiol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a sgiliau dwyieithrwydd mewn Ffair Yrfaoedd yn eu hysgolion yn dilyn y prosiect 'Llythrennedd y Gweithle' gan blethu'r thema drawsgwricwlaidd 'Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith' i ddyluniad eu cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg o fewn MDaPh ILlaCh.

**Llythrennedd trawsgwricwlaidd**

Cyflwynwyd sesiynau'n rhan o Gyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd GwE (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith) yn cynnig cefnogaeth ymarferol i'r cydlynwyr ymateb i'r heriau penodol a nodwyd yn y Cynllun Busnes a chefnogaeth ddilynol benodol i ysgolion unigol. Bu i gyfarfodydd cynghreiriau dilynol ystyried a thrafod yn fanylach y modd y modd y caiff yr heriau hyn eu targedu'n fwy'n lleol gan ysgolion ac adrannau unigol. Gweler hefyd Rhwydweithiau Cydlynwyr Llythrennedd - Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwy iaith - Dal effaith 2023-24.docx

Cyfarfu gweithgor y Gydlynwyr Llythrennedd sy'n rhan o'r prosiect 'Cau'r Blwch Darllen' er mwyn rhannu arferion llwyddiannus yn eu hysgolion, yn ogystal â'r hyfforddiant a roddwyd ganddynt yn dilyn mynychu cwrs Alex Quigley 'Closing the Reading Gap'.

Cydweithiwyd â thri o gydlynwyr ar gynnwys cyfres o weithdai digidol yn hyrwyddo uwch sgiliau darllen yn drawsgwricwlaidd a rhennir cynnwys y gweithdai hyn ar lwyfan digidol rhanbarthol maes o law.

Adeiladwyd a phoblogwyd ochr Gymraeg y wefan 'Strategaeth 6 Cham - Llythrennedd' er mwyn ei chreu yn wefan ddwyieithog gydag adnoddau gwreiddiol er mwyn cynorthwyo arweinwyr i ddatblygu'r 'Strategaeth 6 Cham' (GwE) yn llwyddiannus o safbwynt y Gymraeg yn eu hysgolion.

Crëwyd a threialwyd adnodd digidol rhyngweithiol er mwyn cynorthwyo Cydlynwyr Llythrennedd i fapio'r ddarpariaeth er mwyn targedu sgiliau Llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Trefnwyd diwrnodau hyfforddiant 'Cyfuno Sgiliau Digidol a Llythrennedd' - cydweithiwyd gydag YCG Cymhwysedd Digidol a Saesneg ar gyfres o ddiwrnodau o hyfforddiant i ymarferwyr roi sylw i gynnydd mewn sgiliau llythrennedd wrth gynllunio gweithgaredd yn hyrwyddo sgiliau digidol.Rhoddwyd sylw i hyrwyddo sgiliau llythrennedd y Gymraeg ochr yn ochr â chynnydd mewn sgiliau digidol yn ystod y tri diwrnod o hyfforddiant.

**Datblygu'r Gymraeg**
Llwyddwyd i achredu Gwobr Efydd Siarter Iaith Cymraeg Campus i ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn y rhanbarth eleni, sef yr ysgol uwchradd gyntaf yn y rhanbarth i dderbyn y wobr hon.
Cydweithiwyd â thair ysgol uwchradd (cyfrwng Saesneg a dwy iaith) ar draws y rhanbarth ar strategaeth er mwyn datblygu'r Gymraeg yn eu hysgolion ochr yn ochr â'r Adnodd i gefnogi hunan-werthusiad o'r Gymraeg (Hwb) sy'n rhan o'r 'Adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella'. Cyfeiriwyd at yr 'enghreifftiau cryfach' o'r cydweithio hwn yn Adroddiad Arolygiad Estyn.

Mynychwyd cyfarfodydd 'Fforwm Gweithgareddau'r Siarter Iaith' er mwyn bod 'yn sŵn' y trafodaethau cenedlaethol ynghylch y modd y caiff gwobrau 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus' eu hachredu yn y dyfodol gan barhau'r cydweithio ag ysgolion arweiniol er mwyn enghreifftio arferion llwyddiannus o ddatblygu'r Gymraeg yn llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ochr yn ochr â'r datblygiadau cenedlaethol.

## IEITHOEDD RHYNGWLADOL (IRH) / ITM

**Gofalu bod pob ysgol ac UCD yn cefnogi dysgwyr a chynllun gweithredu Dyfodol Byd-eang (DB-e) trwy fyfyrio ar bwysigrwydd Ieithoedd Rhyngwladol (IRh) yn y Cwricwlwm i Gymru fel rhan o'u cynnig i bob dysgwr.**
Mae holl ysgolion y rhanbarth wedi cael cyfle i fanteisio ar y gwahanol gynigion i godi proffil ieithoedd: Creu ar draws ieithoedd, cystadlaethau a mentrau EDL, Pencampwyr Iaith Fusnes, Disgyblion sy'n Llysgenhadon Iaith, Myfyrwyr sy'n Llysgenhadon Iaith.

Rhannwyd yr arferion da o'r ysgolion yn 'Arferion sy'n dod i'r amlwg mewn IRh DB-e GwE' ar wefan CiG Google a lansiwyd yn Hydref 2023.

Cysylltodd GwE â Business Language Champions i gytuno ar fanylion cynnig dyddiau iaith i ddysgwyr Blwyddyn ar 12 a 13 Rhagfyr, 2023. Maent yn ymarferol ac yn gysylltiedig â byd gwaith, a'r gobaith yw y byddant yn codi cymhelliant a'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd yng nghyfnodau allweddol 4 a 5. Cymerodd 16 ysgol ran yn y tri digwyddiad ym mis Rhagfyr a Chwefror: 91 o ddisgyblion Blwyddyn 9 o 8 ysgol uwchradd a 80 o ddisgyblion Blwyddyn 10 o 7 ysgol. Bu'r tri diwrnod yn llwyddiannus iawn a gwelwyd o adborth y dysgwyr, yr athrawon a'r rhieni bod profiadau dysgu fel hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiad myfyrwyr o ieithoedd a'u defnydd yn y byd go iawn. Roedd cyfran uwch o'r disgyblion a gymerodd ran yn ystyried dewis iaith ar lefel TGAU neu Safon Uwch yn dilyn y digwyddiad. Gall ysgolion gael mwy o fanylion am y digwyddiadau a dadansoddiad o'r arolwg am fwy o wybodaeth ar y dudalen Dylunio Ieithoedd i godi niferoedd ar wefan Dyfodol Byd-eang GwE: GwE IRh-IL - Dylunio ieithoedd i godi niferoedd-*Designing Languages to raise uptake (google.com)*

Cyflwynodd YCG GwE wybodaeth allweddol am dîm DB-e GwE, cysylltiadau, y cynnig, negeseuon allweddol am IRh yn y cynradd a dolenni at adnoddau defnyddiol. Yn dilyn y cyflwyniadau, cysylltodd fwy o ysgolion â thîm DB-e a gwelwyd ysgolion yn manteisio ar rywfaint o'r cynnig.

Adolygiad Cyflym Cynradd (Awdit 1): Cafwyd 50 ymateb yn yr hanner tymor cyntaf. Dengys yr ymateb cychwynnol hwn agwedd gadarnhaol at gyflwyno IRh gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn croesawu'r diwygio. Mae mwyafrif yr ysgolion yn dal yn gynnar iawn yn eu taith ac mae angen mwy o gymorth arnynt i ddatblygu'r agwedd hon ymhellach. Tynna lawer sylw at yr effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Mae'r darlun hwn yn dangos y sgyrsiau a gawn efo athrawon ac ysgolion. Drwy gael mwy o ymateb, gellid cael darlun manylach ar draws y rhanbarth. Anfonir arolwg i ysgolion eto yn nhymor yr Haf oherwydd efallai bydd ysgolion yn teimlo'n fwy hyderus gyda'u darpariaeth.

Yn sgil cydweithio ag YCG GwE yn 2022-23, addaswyd AGA CaBan i gynnwys elfennau o ddysgu ac addysgu IRh yn eu rhaglenni BA a TAR o fis Medi 2024. Trafodwyd yr arfer yn y dystiolaeth ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg ac arolygiad Estyn efo CaBan. Mae'r cydweithio cadarnhaol yn parhau. Gofynnwyd i YCG GwE wneud cyflwyniad i'r Athrawon Cysylltiol ILlCh Uwchradd ar y tasgau Asesu AATT (Articulated Assessment Transfer Task) a wnaethpwyd gan rai ysgolion. Yn dilyn y cyflwyniad, gwnaed rhywfaint o waith ymarferol ar ddylunio gan ddilyn egwyddorion y model a'u cysondeb â'r CiG.

Mae dolenni at wefannau ac adnoddau defnyddiol yn nodwedd gyson yn Newyddlenni DB-e GwE, a cheir cysylltiadau a dolenni defnyddiol. Anfonir y newyddlen at bob ysgol pob hanner tymor ac maent hefyd ar gael ar wefan GwE.

"Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd": Lluosieithrwydd, a chydweithio ar draws Saesneg, Cymraeg ac IRh." Oherwydd amgylchiadau anffodus, bu'n rhaid canslo'r digwyddiad ym mis Hydref. Er mwyn rhoi cymorth yn y cyfamser, cynhyrchodd tri ymchwilydd fideos byrion sydd yn rhoi diffiniad cyfoes o'r termau a chyflwyniad byr ar eu gwaith. Rhennir y fideos ar draws y rhanbarth yn yr Haf.

Cyflwynodd dîm ILlCh GwE eu gwaith ar "Mae ieithoedd yn ein cysylltu ni" i'r rhanbarth ym mis Gorffennaf 2023 ac yn draws-ranbarthol ym mis Tachwedd 2023. Gwelwyd llawer o enghreifftiau o sut mae ysgolion wedi elwa ar Gynnig DB-e GwE a'r cymorth i ddatblygu IRh yn eu lleoliadau a datblygu eu dulliau ILlCh ymhellach, a chafodd y rhain dderbyniad da gan y gwahanol gynulleidfaoedd.

Mae Tîm DB-e GwE wedi trefnu ac arwain y digwyddiadau hyd yma yn llwyddiannus ar draws y sectorau, ac yn unol â'r cynllun busnes sydd wedi'i gytuno a'i adolygu.

Mae pob arweinydd yn parhau i gefnogi ysgolion ac/neu glystyrau, fel y bo angen. Cynhaliwyd trafodaethau cyson ymysg y tîm a sicrhawyd bod y camau gweithredu yn y cynllun busnes yn cael eu monitro, eu hadolygu a'u gweithredu'n effeithlon ac yn briodol.

Trefnwyd a chynhaliwyd cyfarfodydd rhwydwaith ym mis Tachwedd, fesul hwb a sector a chafwyd sesiwn hyfforddiant am ddiwrnod cyfan ar Ddysgu ac Addysgu Ieithoedd Rhyngwladol ym mis Ionawr.

**Cyfarfodydd rhwydwaith a sesiynau hyfforddiant**: 22-28 ysgol uwchradd; 16-28 ysgol gynradd gyda phresenoldeb yn dibynnu ar allu ysgolion i ryddhau staff. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan yr aelodau yn ystod y cyfarfodydd. Roedd athrawon yn teimlo bod cefnogaeth iddynt ac fe'u gwelwyd yn cyfrannu at drafodaethau i lywio agenda cyfarfodydd pellach. Dymuna bob aelod gael rhagor o gyfarfodydd. Roedd presenoldeb da o'r ddau sector yn y sesiwn hyfforddiant ym mis Ionawr gyda siaradwr gwadd. Roedd yr adborth yn hynod o gadarnhaol gan y ddau sector ac mae galw am ragor o sesiynau tebyg.

Mae gwefan Google IRh Dyfodol Byd-eang GwE wedi bod ar gael i bob ysgol ers mis Hydref 2023. Cafwyd sylwadau calonogol iawn gan ysgolion yn nodi bod y wefan yn gymorth mawr i ddatblygu gwaith cynllunio yn eu lleoliadau. Bu'n ddefnyddiol cyfeirio at y wefan hefyd am gymorth ac enghreifftiau o'r arferion cyfredol mewn ysgolion.

**Cyflwyniad Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol a Thraws Ranbarthol:** ILlCh "Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd": Cyflwynwyd gwaith yn ystod cynhadledd GwE yn Llandudno ym mis Mehefin 2023, ac roedd llawer o enghreifftiau IRh ar gael ac yn draws-ranbarthol ym mis Tachwedd 2023.

Prosiect Tasgau Asesu AATT (Articulated Assessment Transfer Tasks) ar y cyd â'r Athro Jennifer Eddy (Athro Cyswllt a Chyfarwyddwr y Rhaglen World Language Education ym Mhrifysgol Efrog Newydd, UDA). Mae naratif a deunyddiau wrthi'n cael eu hysgrifennu er mwyn eu cyhoeddi. Mae pob ysgol sydd am rannu'u gwaith wedi cyfrannu at y naratif ac wedi cytuno i'w gwaith gael ei rannu. Mae eu dealltwriaeth o'r model wedi gwella ac mae'r broses wedi bod yn fodd iddynt newid eu meddylfryd wrth gynllunio, rhywbeth a oedd ei angen yn fawr yn ôl pawb. Maent wedi croesawu a rhannu'r effaith ar eu gwaith a'u cynlluniau dysgu; caiff hyn ei gynnwys yn cyhoeddiad.

**Peilot *Sanako Connect***: Mae'r 15 ysgol beilot wedi cwblhau'r cynllun peilot i arbrofi gyda'r dechnoleg ac adrodd ar yr effaith. Mae'r ddau adolygiad cyflym ac adroddiad llawn yn rhoi adborth cadarnhaol ar botensial y feddalwedd fel adnodd i wella sgiliau llafaredd a phrofiad dysgwyr o ddysgu iaith. Byddai'r rhan fwyaf o ysgolion yn croesawu cael parhau i ddefnyddio'r dechnoleg. Mae DB-e GwE wedi adnewyddu'r contract trwyddedau fel bod ysgolion yn cael mwy o amser i wreiddio os dymunant.

**Creu ar draws Ieithoedd:** Bu ymarferwyr mewn gweithdai ysgrifennu creadigol a chynhaliwyd gweithdai i ddisgyblion fel dilyniant yn Haf 2023. Cafodd y rhain effaith uniongyrchol ar feddylfryd athrawon a datblygiad sgiliau creadigol disgyblion.

Bu tîm Dyfodol Byd-eang GwE mewn ystod o ddiwrnodau Dysgu Proffesiynol dros y flwyddyn a fu'n werthfawr iawn o ran helpu i arwain a datblygu cymorth a'r cynllun busnes. Bu'r Tîm DB-e hefyd yn cyfrannu at rai o'r digwyddiadau, fel rhannu arferion yng nghynhadledd Ieithoedd y Byd ym mis Mawrth 2024. Tystia hyn i effaith y cyfryw gyfleoedd i fynd i ddigwyddiadau fel hyn arnom ni yn y Gogledd: cysylltiadau rhwydweithio eang, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, ar draws y DU ac yn rhyngwladol.
Mae ein cynnig yn esblygu drwy'r adeg i gyd-fynd â'r ymchwil diweddaraf a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac anghenion ysgolion o ran IRh ac ieithoedd yn gyffredinol.

Mae 153 o ysgolion cynradd yn elwa o'r tanysgrifiad a ariennir i lwyfan Power Language ac maent yn defnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol mewn ffordd addas i'w lleoliad a'u cyd-destun. Mae'r adnoddau creadigol a chrefftus a'r nodiadau i athrawon yn rhoi mwy o hyder i staff i fynd ati i ddysgu ac addysgu IRh. Teimlant fod deunyddiau amrywiol a safonol yn eu cefnogi y gall athrawon anarbenigol eu defnyddio'n hawdd i wreiddio IRh yng ngweddill y cwricwlwm, a helpu gyda gwaith cynllunio a pherthnasedd i ddysgwyr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer IRh yn yr ysgolion hyn yn datblygu'n dda a gofynnir am gymorth fel y bo angen.

Llwyddwyd i ddarparu'r Cynnig DP ar gyfer 23-24 ac fe gafodd ei groesawu'n fawr.

- Mae 63 o athrawon wedi cofrestru ac yn manteisio ar gyrsiau uwch-sgilio ar-lein Power Language i ddechreuwyr mewn Sbaeneg/Ffrangeg. Mae'r diddordeb a nifer y ceisiadau yn dal i dyfu. Bu 18 o athrawon yn y sesiynau "Meet the trainer" dewisol byw ym mis Tachwedd a mis Ionawr. Teimlodd yr aelodau fod y sesiynau yn fuddiol ac yn rhoi cymhelliant.
- Roedd 14 o athrawon cynradd yn bresennol yn yr hyfforddiant Cerdd Iaith ar-lein - sef cwrs cynradd ar gyfer dysgu Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg ynghyd â'r Gymraeg, Saesneg, Cerdd a Drama. Roedd yr adborth yn hynod o gadarnhaol ac mae ysgolion bellach yn edrych ar y dulliau newydd hyn ac yn eu datblygu.

- ·Bu 18 o athrawon Ieithoedd Rhyngwladol elwa o'r bore gyda Shirley Clarke: Strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu i fonitro a chefnogi cynnydd dysgwyr. Croesawodd athrawon y negeseuon pwysig ac am gael eu hatgoffa o AagD cadarnhaol ac effeithiol er mwyn gwneud mwy o gynnydd. Trafodwyd y syniadau allweddol yn y cyfarfodydd Rhwydwaith IRh hyn:
- Bu 56 o athrawon (cynradd ac uwchradd) yn y sesiwn hyfforddiant efo'r siaradwr gwadd, Jennifer Wozniak - *Rush on Planning in International Languages for CFW for effective quality Teaching and Learning*. Canmolwyd y sesiwn yn unfrydol efo athrawon o'r ddau sector yn teimlo'n fwy hyderus o lawer i ddatblygu IRh ymhellach yn eu lleoliad. Gofynnwyd am ragor o ddyddiau tebyg i barhau i ddatblygu arbenigedd, hyder a chysoni dulliau er mwyn sicrhau pontio llyfn ar draws sectorau.

**Cwrs Hyfforddiant Trochi, wedi'i ariannu, yn Ffrainc neu Sbaen:** gyda chais grant llwyddiannus Taith, mae'r tîm DB-e wedi gallu trefnu hyfforddiant trochi ieithyddol a diwylliannol am wythnos yn Ffrainc neu Sbaen i 29 o athrawon o'r ddau sector: 16 Sbaen / 13 Ffrainc. Cadarnhawyd cysylltiadau â'n partneriaid dramor a gweithgareddau gydag athrawon ac ysgolion yn y dwy wlad. Mae'r holl athrawon wedi mynychu neu wedi gweld y recordiad a'r nodiadau, ble rhannwyd yr holl wybodaeth, gan gynnwys disgwyliadau a chamau gweithredu i'w cwblhau gan athrawon cyn y cwrs, yn ystod y cwrs ac wedi'r cwrs, er mwyn bodloni gofynion cais Taith ac adroddiad cynnydd.

Datblygwyd digwyddiadau a chyfleoedd pwrpasol neu ranbarthol hefyd trwy gydweithio â phartneriaid a sefydliadau sy'n hyrwyddo ieithoedd: h.y. Ymwybyddiaeth amgylcheddol drwy ddysgu iaith a chreadigedd: gweithdai gyda'r arlunydd graffig o fri, Anne Defréville. Roedd y gweithdai yn llawn drwy gydol yr wythnos gydag ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cofrestru ar gyfer pob lefel.

**Partneriaeth Cymru-Llydaw:** Bu Power Language yn rhan o gyflwyno'r hyfforddiant trochi ym mis Mai 2024. Gyda'n gwaith parhaus â'n partneriaid, bu'r cysylltiadau â'r Arweinydd cysylltiadau yn academi Llydaw yn Ffrainc fodd i DB-e GwE feithrin cyswllt a phartneriaeth gref rhwng ysgolion yng Ngogledd Cymru a Llydaw. Mae 27 ysgol o'r ddau sector bellach yn rhan lawn o'r bartneriaeth. Parwyd ag ysgolion yn Ffrainc ac mae prosiectau yn dechrau datblygu. Cytunwyd ar arweiniad a chyfeiriad gan y ddwy wlad am brosiectau i'w datblygu ac er mwyn i bartneriaethau flodeuo yn y tymor hir.

**TELT**: Athrawon yn dysgu i addysgu ieithoedd, Y Brifysgol Agored: Mae'r 6 o athrawon cynradd bellach wedi cwblhau ail dymor cwrs uwch sgilio y Brifysgol Agored. Ers 2018, mae 66 o athrawon yn ysgolion Gogledd Cymru wedi elwa o'r rhaglen a ariennir yn llawn.

**Mentora ITM:** Mae 21 ysgol wedi bod yn ymwneud â gwahanol agweddau ar y cynllun ers mis Medi. Mae'r adborth gan athrawon a disgyblion yn galonogol iawn ac mae disgyblion wedi mwynhau cynnwys y sesiynau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu canfyddiad o ieithoedd, eu pwysigrwydd a mantais dysgu iaith. Darperir cymorth i fyfyrio ar dueddiadau cyfredol a llywio polisïau i'r dyfodol.

## MATHEMATEG A RHIFEDD

**Cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder**
Mae'r YCG Mathemateg a Rhifedd Cynradd ac Uwchradd wedi darparu cymorth unigryw i ysgolion y rhanbarth, o'u hadnabod o gynlluniau cymorth YCG ysgolion. Mae hyn wedi arwain at gynllunio'n well ar gyfer dysgu ac addysgu Mathemateg a Rhifedd, a dealltwriaeth well o sut mae rhifedd yn cefnogi'r dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob ysgol sy'n destun pryder yn gwneud cynnydd cyson yn erbyn y camau gweithredu a gytunwyd, gyda staff a rhanddeiliaid yn uwchsgilio yn ystod y broses.

Cynhaliwyd ymweliadau/cyfarfodydd rheolaidd ag ysgolion i:

- Gynnal sesiynau datblygiad proffesiynol unigryw sydd wedi arwain at wella gwybodaeth a hyder staff mewn meysydd penodol e.e. datblygu Strategaeth Rifedd (h.y. chwe cham), Rhifedd ar draws y Cwricwlwm, defnydd ffurfiannol o'r asesiadau personol, codi safonau, cwestiynu effeithiol, strategaethau adolygu, cymorth i athrawon anarbenigol/ar gychwyn eu gyrfa.
- Cymorth i gydweithio ar gynllunio ac asesu cynnydd dysgwyr, sydd wedi gwella dealltwriaeth o sut i olrhain cynnydd a defnyddio data yn effeithiol.
- Cefnogaeth efo datblygu Rhifedd ar draws y cwricwlwm trwy gydweithio ag adrannau/athrawon allweddol eraill i gynllunio gweithgareddau rhifedd gwreiddiol, effeithiol a phriodol yn eu pynciau.
- Cydweithio ag Arweinwyr Rhifedd a Phenaethiaid Mathemateg gyda gweithdrefnau sicrhau ansawdd i adnabod cryfderau a meysydd penodol ar gyfer gwelliant, sydd wedi gwella'u hyder a'u dealltwriaeth o brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant effeithiol. Mae hyn wedi arwain at ddadansoddi ac adnabod anghenion a meysydd i'w gwella penodol yn fwy cywir.
- Rhannu adnoddau a datblygiad proffesiynol sydd yn berthnasol i anghenion yr ysgol/dysgwyr yn y lleoliad wrth iddynt gynllunio a chyflwyno'r MDaPh Mathemateg a Rhifedd, sydd wedi arwain at wella dulliau addysgegol a dealltwriaeth o'r cwricwlwm.
- Rhoddwyd cymorth unigryw dilynol yn sgil gweithdai rhanbarthol.

**DARPARU CYMORTH I ARWEINWYR MATHEMATEG A RHIFEDD, FEL BOD MODD IDDYNT YRRU EU TAITH WELLIANT EU HUNAIN.**

**Cyfarfodydd rhwydwaith i Benaethiaid Mathemateg**

Roedd bron pob Pennaeth Mathemateg yn bresennol yn y cyfarfodydd rhwydwaith, a gwelwyd cynnydd yn nealltwriaeth a hyder arweinwyr mathemateg o'r hyn mae'n ei olygu i ddadansoddi canlyniadau TGAU yn effeithiol a defnyddio hyn i gynllunio. Cryfhawyd eu dealltwriaeth o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant effeithiol, a'u dealltwriaeth o gynnydd ac asesu o fewn y CiG. Roedd cyfleoedd yn y cyfarfodydd hefyd i arweinwyr Mathemateg rannu syniadau ac arferion da/cynnar mewn perthynas â'u datblygiadau CiG. Nododd 100% o'r aelodau fod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn ar y ffurflen werthuso.

Mae YCG Mathemateg a Rhifedd wedi parhau i gydweithio â Rhaglen Gymorth Mathemateg Cymru a'r rheiny yn cyfrannu'n bositif at gyfarfodydd rhwydwaith lleol penaethiaid mathemateg drwy rannu adnoddau dysgu ac addysgu a deunyddiau adolygu.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd rhwydwaith lleol, cynhaliwyd cyfarfod rhanbarthol i Benaethiaid Mathemateg ym mis Mehefin 2023 ac roedd 48 yn bresennol. Canlyniad hyn yw bod arweinwyr mathemateg yn cael gwell dealltwriaeth o ddisgwyliadau ESTYN gyda 100% o'r rhai a oedd yn bresennol yn nodi ar y ffurflen werthuso bod y sesiwn yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Darparwyd gweithdy hefyd ar ddatblygu prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar y diwrnod hwn, a gafodd effaith gadarnhaol, gyda 75% o'r rhai a oedd yn bresennol yn nodi ar y ffurflen werthuso bod y sesiwn yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Bu penaethiaid mathemateg yn cydweithio i adnabod cryfderau, rhannu arferion da a'r camau nesaf ar gyfer eu hadrannau.

**Cyfarfodydd rhwydwaith Arweinwyr Rhifedd (Uwchradd)**

Roedd bron i bob Arweinydd Rhifedd yn bresennol yn y cyfarfodydd rhwydwaith, ac o ganlyniad daethant i ddeall yn well sut i ddefnyddio'r asesiadau personol yn effeithiol a chryfhau eu dealltwriaeth o gynllunio'n strategol ar gyfer Rhifedd. Rhannodd Arweinwyr Rhifedd eu cynnydd o ran cynllunio'n strategol a chawsant fwy o syniadau a chymorth ar gyfer eu camau nesaf. Nododd 100% o'r aelodau fod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn ar y ffurflen werthuso.

**Cymorth i glystyrau a chynghreiriau**
Cafwyd ceisiadau gan glystyrau am gymorth penodol i ddatblygu pontio effeithiol mewn mathemateg, sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r continwwm, cynnydd a dysgu ac addysgu effeithiol o fewn y MDaPh Mathemateg a Rhifedd. Dan arweiniad yr YCG Mathemateg a Rhifedd (cynradd ac/neu uwchradd), mae clystyrau unigol ar draws y rhanbarth wedi bod yn gweithio ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd mewn sgiliau mathemateg a rhifedd ar draws y continwwm, gan greu mapiau cynnydd i'w defnyddio yn eu hysgolion/clwstwr sy'n rhoi sylw i egwyddorion craidd y MDaPh Mathemateg a Rhifedd.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn o'r holl sesiynau hyn, gyda chlystyrau yn trefnu cyfarfodydd pellach i gydweithio a pharhau â'r Ddeialog Broffesiynol ar gynnydd mewn Mathemateg a Rhifedd.

Mae'r YCG Mathemateg Uwchradd wedi rhoi cefnogaeth i godi safonau Mathemateg o fewn cynghrair. Canolbwyntiodd y cyfarfodydd ar; godi safonau TGAU, datblygu cynlluniau gwaith effeithiol a chydlynol a strategaethau i sicrhau bod disgyblion yn caffael sgiliau mathemategol cadarn a fydd yn arwain at godi safonau yn yr hirdymor. Mae arweinwyr mathemateg wedi ymroi'n bositif i'r gwaith cynghrair a chafwyd adborth da o'r sesiynau hyn.

**Asesiadau Personol**
Mae YCG wedi parhau i gefnogi ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig y rhanbarth ar ddefnyddio'r Asesiadau Personol Ar-lein yn effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant pwrpasol a chlwstwr a rhannu canllawiau Llywodraeth Cymru yn ogystal â chreu a rhannu pecyn cymorth perthnasol. Mae hyn wedi sicrhau bod gan ysgolion yr wybodaeth ddiweddaraf o ran canllawiau ac arferion effeithiol.  Mae hyn hefyd wedi arwain at adnabod ysgolion i rannu eu harferion effeithiol yn genedlaethol.

**GWELLA A CHYFOETHOGI DYSGU AC ADDYSGU MATHEMATEG**
**Gweithdy Mathemateg Cynradd/Uwchradd**
Yn dilyn llwyddiant y gweithdy Cynradd/Uwchradd ar y cyd y llynedd dan arweiniad Craig Barton, aeth 21 ysgol uwchradd ati i greu adnoddau ar sail y strategaethau a gyflwynwyd yn y gweithdy, sydd bellach wedi'u rhannu ar draws y rhanbarth. Yn ddilyniant i weithdy y llynedd, cynhaliwyd gweithdy Mathemateg Cynradd/Uwchradd rhanbarthol arall ym mis Chwefror 2024 (eto dan arweiniad Craig Barton) yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol ar gyfer Mathemateg ar draws y continwwm dysgu. Yno edrychwyd yn benodol ar strategaethau ymarferol ar gyfer asesu gwybodaeth flaenorol, sut i egluro a modelu syniadau newydd, a strategaethau AagD effeithiol. Rhoddodd 100% o'r aelodau sgôr o 3 neu 4 allan o 4 am ei ddefnyddioldeb, a barnodd 79% ei fod yn 4/4.

**Rhaglen Mathematics Education Innovation (MEI)**
Cynhaliwyd rhaglen ranbarthol i gefnogi athrawon Mathemateg anarbenigol a'r rheiny yn eu gyrfa gynnar. Cynhaliwyd Diwrnod 1 y rhaglen MEI ym mis Medi 2023, gyda 29 yn mynychu o'r rhanbarth. Cynhaliwyd Diwrnod 2 y rhaglen a'r 3 sesiwn ar-lein yn Chwarter 3. Amcanion y rhaglen oedd datblygu hyder a medrau athrawon yn y pwnc hyd at, ac yn cynnwys, haen ganolradd TGAU, dysgu mwy am egwyddorion addysgeg effeithiol wrth addysgu mathemateg, defnyddio'r egwyddorion hyn yn y dosbarth ynghyd â strategaethau ac adnoddau ymarferol, darparu cyfleoedd i fyfyrio ar greu amgylchedd effeithiol ac atyniadol ar gyfer dysgu mathemateg. Pan ofynnwyd ar y ffurflen werthuso pa mor werthfawr fu'r rhaglen, barnodd 100% o'r aelodau fod y dyddiau 'wyneb yn wyneb' yn 4 neu'n 5 allan o 5, a barnodd 68% fod y dyddiau yn 5 allan o 5. Ni farnwyd bod y sesiynau ar-lein wedi bod yr un mor effeithiol - nododd 60% o'r aelodau fod y rhain yn 4/5 neu'n 5/5, a barnodd 40% fod y sesiynau yn 3/5. Nodwyd anhawster trafod a chydweithio ar lwyfan ar-lein fel rheswm pam nad oedd y sesiynau mor effeithiol. Cynhaliwyd sesiwn ddilynol i fyfyrio ar effaith y rhaglen yn ei chyfanrwydd a rhannu profiadau hyd yma ym mis Chwefror 2014 a nododd 100% o'r aelodau fod y sesiwn hon wedi bod yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Yn y sesiwn hon, rhannodd yr holl aelodau eu

profiadau hyd yma a'r hyn maent wedi'i ddysgu o'r sesiynau. Cafwyd trafodaethau dilynol ag arweinwyr Mathemateg yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith lleol ac yn ystod ymweliadau cefnogol â rhai ysgolion unigol. Nododd bawb eu bod wedi gweld datblygiad cadarnhaol o ran hyder a dulliau addysgegol yr athrawon a gymerodd ran yn y rhaglen.

**Defnyddio trinolion yn effeithiol - 8-11**
Cynhaliwyd gweithdy rhanbarthol ar 'Ddefnyddio trinolion a chynrychioliadau yn effeithiol i gefnogi dealltwriaeth gysyniadol dysgwyr' ym mis Mawrth 2024. Roedd yr adborth o'r sesiwn yn gadarnhaol iawn, gyda'r rhan fwyaf o athrawon yn nodi bod y Dysgu Proffesiynol yn werthfawr i ddatblygu eu harferion dosbarth eu hunain.

**Rhaglen defnyddio trinolion yn effeithiol i athrawon uwchradd**
Cynhaliwyd rhaglen ranbarthol dros dri diwrnod i ddatblygu 'Defnydd effeithiol o drinolion' ar draws chwarter 2 a 3. Rhoddwyd hyfforddiant i ymarferwyr ar sut i ddefnyddio teils algebra yn effeithiol ar ddiwrnod 1 a gofynnwyd iddynt gwblhau ymchwil weithredu yn ôl yn eu cyfadran/ysgol/clwstwr/cynghrair a rhannu adborth/effaith ar ddiwrnod 3. Ar ddiwrnod 3 cafwyd hyfforddiant pellach ar ddefnyddio trinolion eraill yn effeithiol. Cymerodd 44 ysgol ran yn y rhaglen a barnodd 100% o'r aelodau fod y rhaglen yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

**Her Fathemateg MATh Uwchradd**
Trefnodd YCG Mathemateg a Rhifedd Uwchradd GwE Her Fathemateg MAT GwE i ddysgwyr Blwyddyn 9 yn nhymor yr Hydref 2023, gyda'r tri tîm gorau o'r rowndiau cychwynnol ar draws y rhanbarth yn cael eu gwahodd. Mae pob ysgol wedi mynegi eu bod wedi gwerthfawrogi'r Her Fathemateg a rhannwyd yr adnoddau â phob ysgol. Mae 44 tîm o ysgolion uwchradd ar draws y rhanbarth wedi cofrestru i gymryd rhan ar gyfer cystadleuaeth MAT 2024 a gynhelir mis Ebrill 2024.

**Gweithdai Safon Uwch**
Cynhaliwyd tri gweithdy Safon Uwch ym mis Ionawr/Chwefror yn edrych ar gefnogi athrawon Mathemateg i ddatblygu eu hyder a'u haddysgeg wrth gyflwyno Mathemateg Safon Uwch, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r strategaethau ymarferol, penodol a'r adnoddau sydd ar gael. Gwelwyd yr aelodau yn dod yn fwy hyderus ac yn gwella'u dealltwriaeth o strategaethau effeithiol ar gyfer addysgu elfennau craidd, mecaneg ac ystadegol y cwrs Mathemateg SU. Nododd 100% o'r aelodau fod y gweithdai yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

**GWELLA A CHYFOETHOGI DYSGU AC ADDYSGU RHIFEDD AR DRAWS Y CWRICWLWM (FEL SGIL DRAWSGWRICWLAIDD).**
**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
Cyflwynwyd dau ddiwrnod y rhaglen dri diwrnod i athrawon (8-11), gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Yn ôl y gwerthusiadau o ddiwrnod cyntaf y rhaglen, barnodd 98% o'r aelodau fod y rhaglen yn werthfawr i gefnogi datblygiad y MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r sgiliau trawsgwricwlaidd yn eu dosbarth/lleoliadau eu hunain. Oherwydd y galw am y rhaglen hon ar draws y rhanbarth, dechreuodd ail garfan ddilyn y rhaglen o'r Gwanwyn 2024 ymlaen. (cyfrwng Cymraeg a Saesneg).

**Y Dyniaethau**
Bwriad yr YCG Mathemateg a Rhifedd Cynradd oedd cyflwyno rhaglen ddeuddydd i athrawon yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rhifedd yn effeithiol ym MDaPh y Dyniaethau. Bydd hyn yn bwydo i Gynnig Dysgu Proffesiynol 2024-25.

**Iechyd a Lles**
Bwriadwyd cyflwyno 'Datblygu dull ysgol gyfan ar gyfer Addysg Ariannol' yn rhanbarthol mewn cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr Rhifedd. Bydd hyn yn bwydo i Gynnig Dysgu Proffesiynol 2024-25.

**CABAN/Prifysgol Bangor**
Cyflwynodd yr YCG Mathemateg a Rhifedd Cynradd ddarlith (sef cyflwyniad i Rifedd ar draws y cwricwlwm) i fyfyrwyr TAR cyfrwng Cymraeg (tua 25 o fyfyrwyr). Roedd y sesiynau hyn yn gymorth i ymarferwyr newydd gael dealltwriaeth well o rifedd a chynllunio ar gyfer cynnydd yn eu MDaPh.

## GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

### GWYDDONIAETH

**Cyfarfodydd Rhwydwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
Darperir cyfarfodydd rhwydwaith a hyfforddiant rhanbarthol pob tymor i arweinwyr ac athrawon MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gydag arweiniad pendant ar:

- ddylunio cwricwlwm
- cynllunio
- siliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol
- themâu trawsbynciol
- asesu
- cynnydd

Yn Ch1, cynhaliwyd tri chyfarfod Rhwydwaith i Benaethiaid Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cynrychioli'r chwe awdurdod lleol, a chafwyd niferoedd da (74 o athrawon).

Yn Ch3, cynhaliwyd dau gyfarfod Rhwydwaith i Benaethiaid Gwyddoniaeth ym mis Tachwedd 2023, ble roedd arweinwyr o 36 ysgol yn bresennol.

Yn y cyfarfodydd, adolygwyd enghreifftiau o arferion sy'n dod i'r amlwg mewn ysgolion a chanolbwyntiwyd ar:

1. Ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth, gan gynnwys hunanarfarnu effeithiol, cynllunio ar gyfer gwelliant, a chynllunio cwricwlwm
2. Datblygu dealltwriaeth o gynnydd o fewn y cwricwlwm Gwyddoniaeth
3. Datblygu dealltwriaeth o gynllunio ar gyfer cynnydd mewn sgiliau trawsgwricwlaidd mewn gwyddoniaeth (ffocws ar rifedd)
4. Hwyluso cyfleoedd am ddeialog broffesiynol ar gynnydd rhwng arweinwyr gwahanol ysgolion.
5. Datblygu Sgiliau Cyfannol wrth ddysgu trwy brosiectau
6. Cyd-lunio cyd-destun/dull prosiect mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg
7. Arweinwyr yn cydweithio i adnabod cyd-destunau dysgu dilys mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg
8. Cefnogi athrawon i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn effeithiol i gyfoethogi'r ddarpariaeth.
9. Datblygu Codio ar draws y MDaPh.

Cafwyd adborth cadarnhaol ar y ffurflenni gwerthuso ac mae sawl ysgol wedi mynd ati i brynu'r citiau crumble neu'n defnyddio'r citiau microbit yn dilyn yr hyfforddiant, ac yn gwreiddio technoleg ddigidol yn eu cwricwlwm ac ati.

Ym mis Mawrth 2024, cynhaliwyd digwyddiad dysgu proffesiynol i Athrawon Technoleg. Roedd 29 o athrawon o 25 ysgol yn bresennol. Dyma'r agenda ar gyfer y digwyddiad:

1. Pwysigrwydd a pherthnasedd dysgu ac addysgu Technoleg/DaTh o fewn y CiG.
2. Esblygiad a datblygiad arferion addysgu Technoleg/DaTh i gefnogi anghenion a chynnydd dysgwyr.
3. Sut i ddefnyddio'r Datganiadau o'r hyn sy'n Bwysig ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg i greu cwricwlwm pwrpasol.
4. Edrych ar ffyrdd i weithio ochr yn ochr â (neu gyda) gwyddoniaeth a gwyddoniaeth gyfrifiadurol sydd yn cefnogi cynnydd yn yr un modd ar draws pob disgyblaeth.
5. Edrych ar adnoddau a fydd yn gymorth i greu cwricwlwm ysgol ar gyfer technoleg/gwyddoniaeth a thechnoleg.

Bu'r adborth yn dilyn y digwyddiad yn hynod gadarnhaol gyda sgôr gyfartalog o 4.8 allan o 5 ac, yn ôl yr athrawon, bu'r hyfforddiant yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth gan roi amryfal syniadau i roi cynnig arnynt.

**Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru - Dyddiaduron Fideo**
Gofynnwyd i ysgolion rannu arferion CiG sy'n dod i'r amlwg:

- Cafwyd ceisiadau am **brosiect gwyddoniaeth** gan bedair ysgol.
- Cafwyd ceisiadau am **brosiect technoleg** gan bedair ysgol.
- Cafwyd ceisiadau am **brosiect cyfrifiadureg** gan dair ysgol.

Pan fydd yr ysgolion hyn wedi cwblhau eu prosiectau arfaethedig, byddant yn cynhyrchu astudiaethau achos ar ffurf dyddiaduron fideo i'w rhannu ag ysgolion ar draws y rhanbarth (Gorffennaf 2024).

**Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru - Sgiliau Cyfannol ac Effeithiolrwydd Dysgwyr - Dysgu drwy brosiect.**
Parhau mae'r gwaith i ymchwilio i bwysigrwydd dysgu drwy brosiect a dulliau ymholi wrth ddatblygu sgiliau cyfannol ac effeithiolrwydd dysgwyr, a datblygu hyn. Bu YCG GwE ar ddiwrnod dysgu proffesiynol yn Ysgol XP East yn Doncaster. Ar y diwrnod DP hwn, cafwyd hyfforddiant/arweiniad pellach ar:

- Rôl 'Crew' - pwysigrwydd bod gan ddisgyblion ymdeimlad o berthyn ac atebolrwydd ar y cyd am eu hymddygiad, eu gweithredoedd a'u cynnydd, o fewn y broses ddysgu.
- Teithiau dysgu - sut maent yn strwythuro eu cwricwlwm i ddarparu dysgu holistaidd.
- Strwythuro, gwerthuso a chreu pob uned waith (Deddf Jeff)
- Pwysigrwydd gwaith cain - cyflwyno dysgu, myfyrwyr yn arwain cynadleddau, perfformio i gynulleidfa (atebolrwydd torfol a chyhoeddus)
- Rôl arbenigwyr a phrofiadau i gyfoethogi'r cwricwlwm.
- Anwytho staff - sut maent yn cael staff i brynu i mewn i'r dysgu proffesiynol a ddarparant.

Bydd yr wybodaeth a gafwyd yn bwydo i'r DP a ddarperir gan y tîm Gwyddoniaeth ac yn llywio ymweliadau cefnogi ysgolion.

**Datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
Mae cydweithio wedi cychwyn ag YCG Llythrennedd a Rhifedd GwE er mwyn sicrhau bod datblygiad sgiliau yn briodol ar gyfer pob cam cynnydd.

Cynhaliwyd gweithdai codio yn y cyfarfodydd rhwydwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn Ch1, 2 a 3 gan ddefnyddio Crumble a Microbit, gyda chymorth ychwanegol gan Technocamps. Bydd ffocws parhaus ar hyn yn 2024. Croesawyd y cyfarfodydd, a dywedodd rai athrawon eu bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio rheolyddion Crumble a Microbit yn y dosbarth. Mae rhai ysgolion wedi prynu rheolyddion Crumble yn ddiweddar.

**Dysgu Ar-lein - TANIO**
Mae adnoddau i fyfyrwyr ac athrawon yn dal i gael eu datblygu a'u diweddaru ar wefan TANIO.
- Mae cyflwyniadau ppt, tudalennau we a chardiau fflach ar gyfer y gwyddorau unigol wedi'u datblygu a'u huwchlwytho i wefan TANIO
- Gellir gweld yr adnoddau ar ddyfeisiau symudol.
- Mae defnydd o'r adnoddau yn cael ei fonitro gyda chwcis a chyfrif ymweliadau â thudalennau - Dadansoddi gan Google
- Mae gwaith wedi parhau i ddatblygu adnoddau i gefnogi'r unedau Gwyddoniaeth Unigol.

Darparu dysgu proffesiynol a yrrir gan ymchwil i athrawon Gwyddoniaeth a Thechnoleg: i gynnwys dysgu ac addysgu effeithiol o fewn gwyddoniaeth a thechnoleg, gyda phwyslais cryf ar addysgeg, her, gwahaniaethu, addysgu effeithiol ac ymchwil weithredu.

Yn Ch3, bu YCG pwnc Gwyddoniaeth GwE yn gweithio gyda chonsortia addysg Cymru i ddarparu canllawiau dysgu proffesiynol ar-lein ar ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru.

Defnyddiwyd yr arweiniad hwn i lywio rhan o gynnwys cyfarfodydd rhwydwaith mis Tachwedd 2023.

Oherwydd bod angen darparu cymorth i athrawon/arweinwyr Technoleg, cynhaliwyd digwyddiad ym mis Mawrth 2024 i gefnogi a darparu dysgu proffesiynol i athrawon technoleg. Roedd hwn ar agor i bob ysgol uwchradd ac ysgolion pob oed ac roedd ffocws ar:
- Bwysigrwydd a pherthnasedd dysgu ac addysgu Technoleg/DaTh o fewn y CiG
- Esblygiad a datblygiad arferion addysgu Technoleg/DaTh i gefnogi anghenion a chynnydd dysgwyr.
- Edrych ar ffyrdd i weithio ochr yn ochr â (neu gyda) gwyddoniaeth a gwyddoniaeth gyfrifiadurol sydd yn cefnogi cynnydd yn yr un modd ar draws pob disgyblaeth.
- Sut i ddefnyddio'r Datganiadau o'r hyn sy'n Bwysig ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg i greu cwricwlwm pwrpasol.
- Edrych ar adnoddau a fydd yn gymorth i greu cwricwlwm ysgol ar gyfer technoleg/gwyddoniaeth a thechnoleg.

**Datblygu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n gysylltiedig â Byd Gwaith (CWRE) o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.**
Mae gwaith ar y gweill efo'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, Adran Addysg Môn a Gyrfa Cymru ar brosiect "Llwybrau" cychwynnol ar Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith. Hyderir y bydd hyn yn dempled i awdurdodau eraill yn rhanbarth GwE.

O ganlyniad i'r cymorth, dylai athrawon:
- Wybod sut i gysylltu â'u Cynghorydd Cyswllt Busnes Gyrfa Cymru
- Gwybod sut i gynllunio ymweliadau â chyflogwyr - ac ymweliadau gan gyflogwyr lle bo'n briodol yn y cwricwlwm.
- Gwybod sut i drefnu llysgenhadon STEM i ddod i siarad â myfyrwyr am eu gwaith
- Cynllunio ar gyfer cynnwys 'Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n gysylltiedig â Byd Gwaith' wrth ddatblygu'r cwricwlwm a chynlluniau gwaith
- Datblygu eu Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Lluniwyd arweiniad i ymarferwyr, sydd wrthi'n cael ei gyfieithu.

**Dysgu Proffesiynol, Hyfforddiant a Chymorth**
Hysbysebwyd cyfleoedd hyfforddiant yn y cynnig proffesiynol ac yn y newyddlen wyddoniaeth. Gweithredwyd yn fewnol ar bob cais gan ysgolion/YCG Cyswllt gan dîm GwE, heb fod angen comisiynu cymorth allanol.

**Prosiect Ymchwil Weithredu Gwyddoniaeth i ymarferwyr ystod oedran 3-8**
Cafwyd cydweithio a dysgu proffesiynol dan arweiniad Kathy Schofield (cymrawd PSTT) a Thîm 3-8 GwE ar 26.09.23 i ymarferwyr ystod oedran 3-8. Daeth 21 ysgol o'r 24 a wahoddwyd. Trefnwyd sesiwn dilynol i'r ysgolion hynny nad oeddent yn gallu mynychu oherwydd arolygiadau ESTYN.

Mae Kathy Schofield wedi dechrau ymweld ag ysgolion a wahoddwyd ar draws y rhanbarth i roi cefnogaeth gyda gwella darpariaeth ac enghreifftiau o astudiaethau achos. Mae 24 ysgol ar draws y rhanbarth wedi creu cyflwyniadau a phecynnau addysgu o safon uchel gan ddilyn y strategaeth Chwarae, Arsylwi, Gofyn a ddatblygwyd dan PSTT gyda chefnogaeth Kathy Schofield ac ysgolion a thîm 3-8 GwE yn cydweithio. Rhennir y Cyflwyniadau a'r Pecynnau Addysgu ar draws y rhanbarth yn nhymor yr Haf 2024 a'u rhannu ar-lein.

**Prosiect Ymchwil Weithredu mewn Gwyddoniaeth i ymarferwyr ystod oedran8-11 (Cefnogi 12 ysgol beilot i ddefnyddio Ymchwil yn effeithiol)**
Cafodd 11 ysgol ddau ddiwrnod o gymorth gan dîm Llythrennedd, Rhifedd a Digidol 8-11 GwE, asiantaethau allanol e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, PSTT. Cynhaliwyd sesiynau cynllunio ar y cyd gyda Thîm 8-11 GwE, grŵp prosiect o ysgolion a chyfarfodydd cynhaliol/cynllunio mewn ysgolion ac ar-lein. Bydd Pecynnau Addysgu yn cael eu cyflwyno ar draws y rhanbarth a'u rhannu ar-lein yn ystod tymor yr haf/hydref 2024.

**DIGIDOL**

Yn ystod 2023 – 2024 lansiwyd cyfres o adnoddau sy’n helpu ysgolion wrth gynllunio ar gyfer cynnydd yn sgiliau digidol eu dysgwyr. Roedd hyn mewn ymateb i ymweliadau ag ysgolion, argymhellion arolygon Estyn a sgyrsiau cyson gydag arweinwyr ysgolion. Gall yr adnoddau hyn gael eu defnyddio er mwyn cynllunio ar gyfer cynnydd mewn gwersi unigol, cynllunio cynnydd fel ysgol gyfan neu fel fframwaith ar gyfer adolygu, gwerthuso a monitro darpariaeth yr ysgol ar gyfer gwella sgiliau’r dysgwyr. Mae pob map cynnydd yn dadansoddi’r sgiliau sydd angen i ddysgwyr eu datblygu ym mhob cam cynnydd yn ogystal â chynnig awgrymiadau am weithgareddau y gall ymarferwyr eu defnyddio i ddatblygu’r sgil. Mae 14 map cynnydd wedi cael eu cynhyrchu eleni ar y cyd â’r rhanbarthau eraill. Mae’r ymateb wedi bod yn hynod o gadarnhaol gyda dros 27,000 o ymweliadau i’r safle. Roedd pob sesiwn dysgu proffesiynol oedd yn datblygu sgiliau digidol yn defnyddio un o’r mapiau cynnydd fel sylfaen i’r hyfforddiant, gan gyfeirio’n gyson at yr adnoddau er mwyn sicrhau fod cynnydd mewn sgiliau yn ganolog i’n darpariaeth.

Roedd ein rhaglen dysgu proffesiynol yn llwyddiannus yn ystod 2023-24, gyda 1350 o ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant ar ddysgu digidol unai drwy gofrestru i ddod ar hyfforddiant o’r cynnig cyffredinol, hyfforddiant mewn sesiwn HMS neu drwy rwydwaith. Cynhaliwyd rhaglenni hyfforddiant yn ystod y flwyddyn oedd yn cael eu cynnal dros 2 neu 3 diwrnod. Arweiniodd hyn at fwy o ddyfnder yn y dysgu proffesiynol oedd yn cael ei gynnig ac roedd effaith ein hyfforddiant i’w weld yn fwy amlwg gan fod ymarferwyr yn cwblhau tasgau gyda’i dysgwyr rhwng y dyddiau. Enghraifft o hyn oedd y rhaglen oedd yn datblygu’r defnydd o’r sgiliau trawsgwricwlaidd mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Roedd hwn yn rhaglen tri diwrnod ble roedd yr ymarferwyr yn cwblhau ymholiadau gwyddonol rhwng y dyddiau cyswllt er mwyn cymhwyso’r technegau a’r sgiliau a gyflwynwyd iddynt cyn dod yn ôl i gyflwyno eu gwaith a thrafod eu profiadau gydag ymarferwyr eraill.

Roedd y rhaglen hwyluswyr digidol ar waith eto yn ystod 2023-24 gyda 88% o glystyrau’r rhanbarth yn ymgysylltu â’r rhaglen. Daeth aeddfedrwydd yn y ffordd roedd rhai clystyrau yn cydweithio ar y gwaith i’r amlwg yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd ffair ddigidol ble roedd dysgwyr yn rhoi arweiniad i rieni ar sut i ddefnyddio gwasanaethau digidol. Gwelwyd nifer o glystyrau yn datblygu trefniadau o fonitro ar y cyd, ble roedd arweinydd digidol pob ysgol yn dod at ei gilydd gyda samplau o waith o fewn agwedd penodol o’r

maes er mwyn adolygu a gwerthuso’r gwaith. Roedd hwn yn arferiad newydd mewn llawer o glystyrau felly’n ddatblygiad adeiladol i’r clwstwr a’r arweinwyr digidol o fewn y clwstwr. Cynhaliwyd nifer o deithiau dysgu mewn ysgolion yn ystod y flwyddyn er mwyn adolygu a gwerthuso effaith ein gwaith ar yr ysgolion hyn. Roedd defnydd yr ysgolion o’r mapiau cynnydd er mwyn cynllunio profiadau a datblygu darpariaeth yr ysgol yn amlwg i’w weld yn y mwyafrif o ysgolion. Er enghraifft, mewn taith ddysgu mewn ysgol benodol, gwelwyd y mapiau cynnydd yn cael eu defnyddio er mwyn cynllunio gweithgareddau trin data drwy’r ysgol ac roedd hyn yn sicrhau fod sgiliau dysgwyr yn cael eu datblygu yn gynyddol. Roedd ysgol arall yn defnyddio’r mapiau cynnydd er mwyn sicrhau fod dysgwyr ym mhob dosbarth yn cael eu herio i ddatblygu eu sgiliau, yn hytrach na dim ond ymarfer defnyddio’r un sgiliau drosodd a drosodd. Yn gyffredinol, mae’r rhaglen hwn wedi arwain at drafodaethau strategol ar lefel clwstwr ar sut i ddatblygu darpariaeth yr ysgolion er mwyn arwain at safonau uwch. Mae’r rhaglen hefyd wedi cryfhau rôl yr arweinydd digidol o fewn yr ysgolion gan sicrhau eu bod yn cael eu datblygu er mwyn gallu ymgymryd â’r dyletswyddau strategol a rheolaethol sy’n rhan o’r rôl.

## CONTINIWM ADDYSG 3 i 16

## PONTIO

**Cefnogi ysgolion, UCD, clystyrau a chynghreiriau ar draws ycontinwwm 3-16, a thu hwnt, i wella pontio trwy wella darpariaeth gwricwlwm, cydweithio a safonau mewn cynnydd;gwella pontio i ddysgwyr bregus; mynd i'r afael â dylunio a gweithredu cwricwlwm, gan gynnwys datblygu a gwreiddio cynnydd mewn dysgu.**

Uwch sgiliwyd tîm YCG GwE o ran y gofynion yng nghyd-destun cynllunio pontio a chynnwys statudol cynlluniau pontio. Rhannwyd adnoddau perthnasol ag YCG ac ysgolion, gan gynnwys gwybodaeth am ofynion cynlluniau pontio. Mae ysgolion wedi rhannu cynlluniau perthnasol.Cafwyd diweddariad arall er mwyn sicrhau cysondeb mewn cynlluniau pontio a bod yr holl gynlluniau yn bodloni gofynion LlC.

Mae gan bob clwstwr gynllun pontio; fodd bynnag, mae ar ambell glwstwr yn y rhanbarth angen cymorth pellach i ddiweddaru eu cynlluniau pontio yn sgil gofynion y Cwricwlwm i Gymru ac i sicrhau y rhoddir sylw llawn i'r gofynion hyn. Cefnogir y clystyrau hyn gan eu YCG ac mae dysgu proffesiynol pellach mewn lle. Lluniwyd cynllun pontio enghreifftiol sydd yn bodloni'r gofynion statudol o dan y Cwricwlwm i Gymru a'i anfon at bob YCG i glystyrau sydd angen hyn.O ganlyniad, mae rhai clystyrau wedi addasu a gwella eu cynlluniau pontio trwy weithio ochr yn ochr â'u YCG.

Mae dysgu proffesiynol cyffredin a phenodol wedi digwydd yn ystod tymor yr hydref 2023, yn cynnwys cydweithio a deialog broffesiynol rhwng clystyrau i sicrhau eglurder a chysondeb mewn hunanarfarnu, a helpu ysgolion a chlystyrau i wreiddio a datblygu ymhellach arferion llwyddiannus wrth sicrhau cynnydd 3-16. Dechreuodd hyn ar 20/10/23 a daeth i ben ar 20/11/23. Cynhaliwyd 4 sesiwn mewn gwahanol leoliadau yn y rhanbarth. Roedd y rhain yn cynnwys rhannu negeseuon allweddol, arweiniad mandadol diweddar a rhannu arferion llwyddiannus clystyrau lleol i enghreifftio negeseuon allweddol. O ganlyniad, mae clystyrau ar hyd a lled y rhanbarth wedi addasu eu cynlluniau pontio, er enghraifft, mae amryw bellach wedi trefnu sesiynau rheolaidd i rannu gwaith disgyblion ar draws y clwstwr.

Rhannodd dau glwstwr ac un ysgol arbennig 6-19 oed arferion llwyddiannus wrth ddatblygu trefniadau pontio 3-16 yn y digwyddiad Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol ym mis Mehefin 2023. Roedd negeseuon pwysig yn cynnwys pwysigrwydd canolbwyntio ar ddisgyblion a'u cynnydd a'u targedau, yr hyn y gall pob disgybl unigol ei gyflawni, a phwysigrwydd craidd cydweithio, cyd-atebolrwydd a chydberthnasau cadarnhaol er mwyn helpu'r dysgwyr hyn i gyflawni.

Mae clystyrau penodol yn dal i wneud cynnydd da yn y Prosiect Pontio Addysgeg. Rhannwyd arferion llwyddiannus ar draws y 12 clwstwr gan gynnwys aelodau staff ar amrywiol lefelau, sydd wedi hwyluso rhoi strategaethau pellach ar waith ar draws y rhanbarth yn yr ysgolion clwstwr. Bu rhannu pellach yn ystod tymor yr hydref 2023 a thymor y gwanwyn 2024. Mae cyfarfod i rannu effaith y clystyrau hyn ar y gweill ym mis Ebrill 2024.

Cyfarfu swyddogion GwE ag arolygwyr Estyn ym mis Ionawr 2024 i rannu arferion pontio effeithiol gan glystyrau ar draws y rhanbarth.

Mae gwybodaeth fandadol LlC, yn cynnwys canllawiau Ymlaen â'r Daith, yn amlygu lle canolog gwella pontio er mwyn cyflawni cynnydd 3-16. Mae dal angen i ysgolion a chlystyrau barhau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd er mwyn sicrhau cynnydd 3-16 llwyddiannus, yn enwedig sicrhau cysondeb mewn sgiliau, a bod adnoddau ar gael i barhau i gefnogi hyn.Mae dal angen datblygu system o gydweithio ar draws clystyrau unwaith bydd dealltwriaeth fewnol yn ddigon aeddfed.

**ASESU**

**Cynradd**
Darparwyd 12 diwrnod ar y Tri Diben Asesu ar draws y rhanbarth yn ystod y flwyddyn. Y prif ffocws oedd:
- Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- Nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion.

Cynhaliwyd sesiynau dilynol pellach mewn clystyrau ac ysgolion yn ôl yr angen. Er enghraifft, cynhaliwyd tri sesiwn clwstwr cyfan yn seiliedig ar gyflwyniadau a wnaed mewn sesiynau hyfforddiant blaenorol ar draws y rhanbarth.

Yn ôl adborth o'r sesiynau ar y Tri Diben Asesu a gynhaliwyd yn nhymor y gwanwyn 2024 roedd 85% o'r farn bod yr hyfforddiant yn hynod o werthfawr a 15% o'r farn bod yr hyfforddiant yn werthfawr.

Cyflwynwyd naw sesiwn hanner diwrnod ar draws y ranbarth ar Asesiadau wrth Dderbyn yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd cynhadledd adborth effeithiol Michael Chiles i ymarferwyr cynradd ac uwchradd yn Kinmel Manor, Abergele ym mis Chwefror 2024. Dyma oedd y prif amcanion:
- Gwybod a deall yn well sut i ddefnyddio adborth yn effeithiol i wella'r dysgu a'r addysgu
- Gwella ymwybyddiaeth o arferion effeithiol a sut i addasu a gweithredu yn eich lleoliadau

Yn ôl adborth o gynhadledd Michael Chiles roedd 80% o'r cynadleddwyr o'r farn bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol. Dyma rai sylwadau:

> *Rhai syniadau diddorol a gwerthfawr i roi cynnig arnynt yn yr ysgol. Fe wnaeth pawb sylweddoli ambell beth am sail resymegol rhai o'r strategaethau.*

> *Syniadau da a chyfoes sy'n hawdd eu rhoi ar waith heb ychwanegu at lwyth gwaith, ond a gaiff effaith fawr ar gynnydd.*

> Rhannodd Michael Chiles strategaethau gwerthfawr ac effeithiol iawn y gallaf eu defnyddio ar lawr y dosbarth a'u rhannu â'm cyd-weithwyr

> *Dull synhwyrol, clir ac ar sail ymchwil o roi adborth ac asesu ar waith. Hoffi'n fawr ei fod wedi cysylltu cwricwlwm, addysgu ac asesu â'i gilydd*

**Uwchradd**
Comisiynwyd 5 ysgol uwchradd i gwblhau prosiect ysgol ar raddfa fach i ddatblygu agwedd ar asesu, gyda phwyslais ar gynnydd. Detholwyd yr ysgolion yn dilyn proses ymgeisio. Maent wedi llunio cynllun tan mis Gorffennaf, pan fyddant yn arddangos eu taith mewn astudiaeth achos a gweminar. Rhennir eu gwaith yn eang ag ysgolion uwchradd y rhanbarth yn ystod tymor yr Haf. Mae'r prosiect wedi cyflawni ei fwriad o ddenu ceisiadau, creu prosiectau ysgol a chynllunio ar gyfer rhannu'n rhanbarthol ym mis Gorffennaf 2024.

Cynhaliwyd Cynhadledd Michael Chiles ar Asesu ym mis Chwefror 2024 (gweler uchod). Ac yntau'n brif siaradwr fe bwysleisiodd le canolog asesu o fewn y cwricwlwm newydd, a bydd ysgolion yn rhannu manylion eu llwyddiannau hyd yma ynghyd ag arferion sy'n dod i'r amlwg.

Cyflwynwyd dysgu proffesiynol penodol mewn nifer o ysgolion rhanbarthol i helpu gyda'u gwaith o ddatblygu asesu, cynllunio ar gyfer cynnydd ac arferion asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu yn y dosbarth.Cyflwynwyd nifer o gyflwyniadau/rhaglenni cymorth HMS ar wahân yn ymwneud ag agweddau ar gynllunio asesu, ac mae'r adnoddau ar gael i bob YCG eu defnyddio mewn ysgolion; mae'r rhain ar gael ym mhob awdurdod.

Mae adnodd dysgu proffesiynol a rhannu gwybodaeth wedi'i baratoi ar gyfer arweinwyr craidd uwchradd ac YCG. Rhannwyd hwn â hwy a'i egluro iddynt. Mae'n rhoi gwybod i benaethiaid ac uwch arweinwyr am y gofynion o ran adrodd i rieni. Mae hwn yng nghyd-destun y continwwm cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd, a'r ddeddfwriaeth ar gyfer adrodd.

Mae adnodd dysgu proffesiynol a rhannu gwybodaeth wedi'i baratoi er mwyn i Arweinwyr Craidd helpu penaethiaid ac uwch arweinwyr i gynllunio sgyrsiau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn yr ysgol, ac ar lefel clwstwr a chynghrair. Bydd hyn yn rhoi gwybod i ysgolion am y gofyniad cyfreithiol ac yn eu helpu i lunio eu cynlluniau.

## 5. DATBLYGU DYSGU AC ADDYSGU O SAFON UC

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**
Oherwydd y pwyslais cynyddol ar gymorth ac arweiniad i wella dysgu ac addysgu trwy rhwydweithiau i arweinwyr dysgu ac addysgu, rhwydweithiau pynciau craidd a gwaith 'tîm o amgylch yr ysgol' gydag ysgolion sy'n destun pryder:

- mae bron pob ysgol yn dangos gwelliannau mewn agweddau penodol ar addysgeg. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, mae angen rhoi sylw i gyflymder a graddau'r gwelliannau hyn.
- mae bron pob ysgol yn gweithredu'n briodol i gryfhau addysgeg ymhellach a chodi safonau.
- mae cymorth ar gyfer addysgeg mewn pynciau penodol, sydd wedi'i dargedu ac o ansawdd uchel, yn gwella safonau dysgu ac addysgu mewn sawl pwnc, Saesneg a mathemateg yn benodol, ac yn gwella dyfnder ac ehangder dealltwriaeth.
- mae gan bron pob ysgol ymyraethau llythrennedd a rhifedd priodol mewn lle, ac yn gallu dangos y cynnydd a wna grwpiau o ddisgyblion.

- Effaith cymorth a dysgu proffesiynol i ANG ar wella llesiant a sgiliau athrawon yn eu gyrfa gynnar ac ar gadw athrawon yn y proffesiwn.

**AMCAN 3 – DATBLYGU DYSGU AC ADDYSGU O SAFON UCHEL**

**Blaenoriaeth:**

**3.1 Gwella Addysgu**

**CYFRANIADAU GAN FDaPh A RHWYDWEITHIAU PWNC I WELLA ADDYSGU**

**GWELLA DYSGU AC ADDYSGU**
**Hwyluso cynnig dysgu proffesiynol cyffredin neu wedi'i gomisiynu a chymorth penodol wedi'i dargedu.**
Mewn gweithdy ar 29/06/23, ac wedi'i gomisiynu gan GwE, rhannodd Mark Burns, awdur 'Teaching Backwards', sut i ddylunio a chyflwyno gwersi effeithiol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr a'u hysbrydoli. Ffocws penodol y gweithdy oedd dilyniant gofalus yn y cwricwlwm i sicrhau cynnydd yn y dysgu.Mae gan syniad Mark o 'ddylunio tuag yn ôl' hanes llwyddiannus o gael effaith sylweddol ar gyflawniad a chymhelliant myfyrwyr dros y blynyddoedd. Ffocws y gweithdy oedd addysgu tuag yn ôl, gan ddechrau efo'r nod ar y diwedd. Roedd yr hyfforddiant yn cynnig dull ymarferol ac uniongyrchol i staff fireinio ymhellach eu hagweddau, eu sgiliau a'u harferion rhagoriaeth, yn ogystal â rhai eu dysgwyr. Mae trafodaethau efo Mark yn parhau gyda golwg ar weithdy dilynol yn canolbwyntio ar wahaniaethu a lefel her. Hwylusir cyfleoedd dysgu proffesiynol pellach yn ystod y flwyddyn i ddatblygu:
- cynllunio ar gyfer cynnydd
- gwahaniaethu (gwneud dysgu o fewn cyrraedd)
- cynyddu lefel yr her

Yn dilyn gweithdy'r haf, mae rhai ysgolion wedi trefnu dyddiau HMS gyda Mark Burns i gefnogi eu DP ymhellach.

**Sefydlu Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu i arweinwyr Dysgu ac Addysgu Uwchradd er mwyn gofalu bod yr arferion gorau yn cael eu datblygu a'u bod yn cefnogi ei gilydd i ddatblygu dull addysgegol cyson.**
Cynhaliwyd y cyfarfod Rhwydwaith cyntaf ar 21/09/2023, yn canolbwyntio ar Fetawybyddiaeth ac Arweinyddiaeth. Daeth 41 ysgol allan o 54 i'r cyfarfod. Ers y cyfarfod cyntaf cafwyd sawl cais gan Arweinwyr Dysgu ac Addysgu am ein hadnoddau hyfforddiant i'w defnyddio gyda staff yn eu hysgolion. Roedd adborth y cyfarfod yn gadarnhaol, ac mae Tîm Dysgu ac Addysgu wedi'i sefydlu i gyfleu negeseuon a chynnig cefnogaeth mewn sesiynau 'galw heibio' bob pythefnos. Mae'r newyddlen gyntaf wedi'i hanfon ar e-bost at bob Pennaeth, Arweinydd Dysgu ac Addysgu, YCG ac YCG Pwnc. Y flaenoriaeth ar gyfer y cyfarfod Rhwydwaith nesaf fydd sesiwn ar gwestiynu effeithiol. Roedd hon yn flaenoriaeth a adnabuwyd yn dilyn y cyfarfod Rhwydwaith cyntaf, ynghyd ag adborth effeithiol.

Cynhaliwyd ail gyfarfod Rhwydwaith ar 17/11/2023 yn edrych ar Adborth a Chwestiynu. Roedd 37 o 54 ysgol yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd adborth o'r cyfarfod yn gadarnhaol.

Cynhaliwyd trydydd cyfarfod rhwydwaith ar 21/02/24 yn canolbwyntio ar:
- Rhan 1: Rhannu arfer effeithiol a myfyrio ar effaith hyd yma
- Rhan 2: Rhannu negeseuon D&A pwysig gan ESTYN
- Rhan 3: Y berthynas rhwng darpariaeth ac effaith

Roedd bron yr holl adborth yn gadarnhaol.

Sefydlwyd Tîm Dysgu ac Addysgu i gyfleu negeseuon a chynnig cefnogaeth gyda'u blaenoriaethau ac i gynnal sesiynau 'galw heibio' bob pythefnos. Mae'r newyddlen gyntaf wedi'i hanfon ar e-bost at bob Pennaeth, Arweinydd Dysgu ac Addysgu, YCG ac YCG Pwnc.

Yn sgil cyswllt drwy'r YCG Cyswllt, ac fel yr amlinellir mewn Cynlluniau Cymorth, hwyluswyd cymorth pwrpasol i ysgolion penodol.

I baratoi at y cyfarfod Rhwydwaith nesaf, gofynnwyd i Arweinwyr Dysgu ac Addysgu rannu effaith y rhwydwaith hyd yma.

## YMCHWIL AC ARFARNU (Ymchwil ac ymholi)

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - Cam 3 (Prosiectau 1 a 2)**
Darperir cyllid Cam 2 RILL gan Lywodraeth Cymru dros ddwy flynedd fel a ganlyn: Mai 2022 tan fis Mai 2023; a Mai 2023 tan fis Mai 2024. Yn 2022-23, amcan Prosiect 1 y cam hwn oedd ymestyn RILL i ddarparu rhaglen iaith a llythrennedd yn y Gymraeg dros bymtheg wythnos i blant difreintiedig gan ddefnyddio technoleg(h.y. cartref di-Gymraeg, SES a gallu isel) a phrofi pa mor effeithiol ydyw o ran gwella sgiliau iaith a darllen Cymraeg.

Yn ystod tymor yr hydref 2022 roedd y ffocws ar ddatblygu 30 gwers Gymraeg a Saesneg newydd a chynnig hyfforddiant mewn person i ysgolion weithredu'r rhaglen. Crëwyd gwefan newydd sydd â gwybodaeth a deunyddiau cefnogol i ysgolion, athrawon a rhieni: https://sites.google.com/view/rillcymraeg/am-rill

Cafodd 28 ysgol a 39 athro eu recriwtio ym mis Hydref 2022 i gael hyfforddiant RILL Cymraeg, a chafodd 60 ysgol arall ar hyd a lled Cymru hyfforddiant RILL yn nhymor y gwanwyn a'r haf 2023.
Rydym hefyd wedi datblygu batri o asesiadau ar-lein i gofnodi data effaith RILL. Mae dros 250 o blant a gofrestrodd ar y RILL Cymraeg bellach wedi cael profion. Mae hanner y dysgwyr hyn bellach yn cael gwersi RILL ddwywaith yr wythnos gyda'u hathro neu eu cymhorthydd dysgu, a chawsant eu profi eto yn ystod tymor yr haf 2023. Bydd gweddill y dysgwyr hyn yn dechrau gwersi RILL ym mis Medi 2023. Cafodd 60 ysgol arall eu recriwtio ar hyd a lled Cymru i gael hyfforddiant RILL yn nhymor y gwanwyn a'r haf 2023.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2023, rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi ysgolion sydd yn rhan o broses werthuso RILL ac addasu'r gwersi i ymateb i'r sylwadau gan yr ysgolion hyn. Rydym hefyd wedi dechrau creu deunyddiau dosbarth cyfan i gyd-fynd â gwersi parod RILL. Yn ystod tymor yr haf trefnwyd gweithdy llunio ar y cyd, ble roedd Penaethiaid, athrawon a chymorthyddion dysgu yn adrodd yn ôl ar y deunyddiau drafft dosbarth cyfan ac yn cynnig eu syniadau eu hunain am weithgareddau newydd. Byddwn yn awr yn cyfuno'r wybodaeth hon i greu deunyddiau dosbarth cyfan dros fisoedd yr haf.Roedd yr addysgwyr hyn hefyd yn rhan o grŵp ffocws yn myfyrio ar eu profiad ar y prosiect.

Erbyn mis Hydref 2023, mae 92 ysgol wedi cael hyfforddiant RILL Cymraeg ym Mhrosiect 1: 47 yng ngogledd Cymru a 45 mewn rhanbarthau eraill fel rhan o'n cytundeb efo Llywodraeth Cymru i gyflwyno hyfforddiant ym mhob rhanbarth. Trefnwyd sesiynau hyfforddiant yn ystod tymor yr haf 2023 ym Mangor, yn ogystal â Wrecsam, Powys, Sir Benfro a de-ddwyrain Cymru. Ffocws Prosiect 2 fydd ymestyn RILL i'r lefel dosbarth cyfan a rhoi prawf ar effaith cyfarwyddyd ategol, dosbarth cyfan ar sgiliau llythrennedd pob dysgwr. Ym mis Medi 2023 cafodd 10 ysgol (20 athro) eu recriwtio i gael hyfforddiant yn fersiwn Saesneg RILL.

Erbyn mis Ionawr 2024, rydym wedi cwblhau'r 'deunyddiau dosbarth cyfan' (Prosiect 2). Mae cyfieithydd wrthi'n eu prawfddarllen cyn iddynt gael eu peilota mewn 5 ysgol gynradd sydd eisoes yn cymryd rhan yn y prosiect. Mae dadansoddiad cynnar o ddata Prosiect 1 yn dangos y gwnaeth disgyblion sy'n cwblhau RILL gynnydd addysgol sylweddol o ran eu gwybodaeth o eirfa Gymraeg, a rhwyddineb darllen mewn Cymraeg a Saesneg. Roedd y cynnydd mewn geirfa Gymraeg yn arbennig o fawr. Mae 13 ysgol bellach yn cwblhau fersiwn Saesneg RILL a 6 arall ar fin cychwyn erbyn diwedd mis Chwefror. Cyhoeddwyd gwerthusiad o raglen gyntaf RILL mewn Darllen ac Ysgrifennu, a ddarparwyd o bell drwy gyfrwng y Saesneg yn ystod y pandemig: https://doi.org/10.1007/s11145-023-10502-7

Erbyn mis Ebrill 2024, mae 'deunyddiau dosbarth cyfan' (Prosiect 2) yn cael eu cyflwyno i ysgolion.Fel atodiad i'r prosiect hwn, rydym yn treialu'r fersiwn Gymraeg o ReadingScreen (a ddatblygwyd gan OxEd & Assessment). Mae'r deunyddiau ar gyfer 'Dysgu Gartref' (Prosiect 3) yn cael eu cwblhau. Mae 15 ysgol bellach yng ngogledd Cymru (allan o 27) yn cwblhau fersiwn Saesneg RILL.

**Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar (i-FOR)**
Er 2018, bu GwE yn gweithio ar y cyd ag ymchwilwyr o'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor i greu cyfres o ymyraethau rhuglder darllen yn seiliedig ar dystiolaeth: Darllen Ailadroddol (RR), a Geiriau Amlder Uchel (HFW). Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gyflwyno ein deunyddiau ymyrraeth RR Cymraeg a Saesneg mwyaf diweddar i ysgolion. Y bwriad yw gweithio gydag ysgolion i werthuso effaith yr ymyrraeth RR ddiweddar yn sgil cyfnod ymyrraeth 8 wythnos yn nhymor y gwanwyn 2024.

- Caiff pob ysgol hyfforddiant ac adnoddau ymyrraeth RR yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd y tîm ymchwil yn gweithio gyda staff i adnabod dysgwyr targed a chynllunio ar gyfer yr ymyrraeth yn nhymor y Gwanwyn 2024.
- Bydd y tîm ymchwil yn helpu ysgolion i gasglu data am gynnydd disgyblion a gwerthuso effaith yr ymyrraeth RR.

Cafodd 10 ysgol eu recriwtio ar gyfer y prosiect, ac rydym wrthi'n casglu data ar ôl cyfnod ymyrraeth 8 wythnos. Rhoddwyd mynediad at hyfforddiant ac adnoddau ymyrraeth Darllen Ailadroddol (RR) drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i bob ysgol ym mis Rhagfyr 2023. Gwahoddwyd ysgolion hefyd i sesiwn hyfforddiant/Holi ac Ateb ar 10/01/2024. Dechreuwyd gweithredu Darllen Ailadroddol (RR) ddiwedd mis Ionawr/dechrau mis Chwefror. Yn ystod y cyfnod gweithredu 8 wythnos, cynigiwyd tri ymweliad cymorth i bob ysgol sy'n cymryd rhan ble bu swyddog ymchwil cymwys yn cefnogi'r athro arweiniol i weithredu'r ymyrraeth yn llwyddiannus. Hwylusodd pob ysgol 2, o leiaf, o'r ymweliadau hyn, a hwylusodd y mwyafrif y 3 ymweliad. Yn ystod un o'r ymweliadau, o leiaf, roedd y swyddog ymchwil yn arsylwi sesiwn Darllen Ailadroddol rhwng yr athro a'r dysgwr ac yn adrodd yn ôl i'r athro.

Cesglir data profion a'i ddadansoddi yn ystod tymor yr haf er mwyn gallu rhannu canfyddiadau cychwynnol ddiwedd tymor yr Haf.

**Addysgu Cynhwysol mewn Rhifedd Cynnar (i-TEN) mewn ysgolion cynradd prif lif.**
Mae'r rhaglen i-TEN yn addasiad o raglen Mathematics Recovery (MR). Mae MR yn rhaglen gynhwysfawr sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer dysgu rhifedd i ddysgwyr iau sy'n cael anhawster efo sgiliau mathemateg cynnar. Yn y prosiect hwn, rydym yn anelu at weithio gydag ysgolion i werthuso i-TEN gyda phlant difreintiedig mewn lleoliadau prif lif i roi dull cynhwysol o ddysgu ac addysgu rhifedd cynnar. Mae'n brosiect ar y cyd rhwng GwE a Phrifysgol Warwick, ac mae hefyd yn cynnwys elfen gref o DPP rhifedd i athrawon fel a ganlyn:

Cynhaliwyd cyfweliadau ar 18/07/2023 a phenodwyd myfyriwr PhD.

- Ar y cam cyntaf byddwn yn hyfforddi staff yn yr ysgolion sydd â diddordeb i ddefnyddio a gwerthuso effaith y tri cham datblygiad cyntaf i ddysgwyr mewn dosbarthiadau Dysgu Sylfaen.
- Yn ystod tymor yr hydref 2023, bu ymchwilwyr o Brifysgol Warwick yn datblygu cynlluniau gwersi ar gyfer pedwerydd a phumed cam datblygu MR. Ers y cynlluniau MR gwreiddiol, mae'r prif addasiadau yn cynnwys: rhannu'r camau addysgu gwreiddiol yn gamau llai eto, sicrhau bod y cyfarwyddiadau llafar i fyfyrwyr yn glir, yn gryno ac yn ddealladwy; a rhoi rhagor o syniadau ar gyfer cyfleoedd i gyffredinoli a chefnogi dysgwyr sy'n cael trafferth. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfod yn gyson â datblygwyr y cynlluniau ar gyfer y tri cham datblygu cyntaf i sicrhau cysondeb ar draws y cynlluniau. Er mwyn cefnogi'r addasiadau hyn, bu'r myfyriwr ymchwil PhD (Prifysgol Warwick) ar gyrsiau gan gynnwys sesiwn Dysgu Proffesiynol Trawsranbarthol MDaPh Mathemateg a Rhifedd ym mis Rhagfyr yn edrych ar y Cwricwlwm i Gymru, a dosbarth meistr MR.
- Rhannwyd y cynlluniau hyn yn ystod mis Ionawr-Chwefror 2024 â grŵp o athrawon i gael adborth cychwynnol a chorffori hyn yn y cynlluniau cyn gweithredu yn yr ysgol. Cyflwynwyd cais moeseg ym mis Ionawr 2024 a chymeradwywyd astudiaeth dichonoldeb i beilota defnyddio'r cynlluniau hyn mewn ysgol gynradd yng ngogledd Cymru gyda 10-20 o blant CA2 yn nhymor yr haf, 2024.
- Bydd yr astudiaeth yn golygu sesiwn hyfforddiant gychwynnol i staff un ysgol gynradd benodol ym mis Ebrill 2024, a sesiynau cymorth rheolaidd i gyfrannu at eu DPP rhifedd parhaus a'u galluogi i gyflwyno'r ymyrraeth fel y bwriadwyd.
- Yn yr ail gam (o 2025), mae gennym ddiddordeb mewn gweithio gydag ysgolion i gyd-ddatblygu'r cynlluniau gwersi ar gyfer pedwerydd a phumed cam datblygiad MR mewn lleoliadau CA2.
- Byddwn hefyd yn gweithio gyda lleoliadau cyfrwng Cymraeg i helpu'r tîm ymchwil i greu deunyddiau rhaglen MR dwyieithog.

**Datblygu a Gwerthuso Dysgu Sillafu mewn Dosbarthiadau Prif Lif (DEMSI).**

Mae'r dull Gwyddor Darllen (The Science of Reading) yn disgrifio sgiliau darllen allweddol a sgiliau cysylltiedig sy'n allweddol i ddarllenwyr o bob gallu. Yn y prosiect hwn, bwriadwn werthuso sut gellir defnyddio'r dull Gwyddor Darllen i ddysgu sillafu mewn dosbarthiadau prif lif. Bwriadwn gynnal astudiaeth mewn dau gam i ddatblygu a gwerthuso dysgu sillafu mewn dosbarthiadau prif lif i ysgrifenwyr cynnar. Yn gyntaf, mae'r prosiect DEMSI hwn yn ceisio deall yr arferion dysgu sillafu presennol ar gyfer ysgrifenwyr cynnar (plant 7 oed) yng ngogledd Cymru trwy gynnal arolwg rhanbarthol. Yn ail, bwriadwn dreialu model i helpu i hyfforddi athrawon i addasu a gwella eu darpariaeth sillafu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r dull Gwyddor Darllen. Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng GwE a Phrifysgol Leeds Trinity.

- Rydym yn ceisio edrych ar ddichonoldeb ac effeithiolrwydd gweithdai cyd-greu i weithredu cwricwlwm sillafu Gwyddor Darllen yng ngogledd Cymru.
- Byddwn yn gwerthuso a all athrawon dosbarth weithredu yn llwyddiannus gwricwlwm sillafu sydd wedi'i greu ar y cyd a'i addasu yn erbyn Gwyddor Darllen? Ac, a yw cwricwlwm sillafu sydd wedi'i greu ar y cyd a'i addasu yn erbyn Gwyddor Darllen yn gwella deilliannau dysgwyr?
- Bwriadwn ddatblygu cyfres o bedwar gweithdy undydd i athrawon Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3, ochr yn ochr ag athro profiadol sydd yn gyfarwydd â'r dull Gwyddor Darllen. Bydd y gweithdai yn edrych ar ymchwil cefndirol, cyd-ddatblygu'r cwricwlwm, ac asesu cynnydd mewn sillafu

Rydym wedi creu'r holiadur sillafu a'i rannu ym Mwletin GwE ym mis Gorffennaf 2023, fel rhan o Gam 1. Bydd yr holiadur yn cael ei hyrwyddo eto ym mis Medi 2023, ac rydym wedi recriwtio deg ysgol gynradd i gymryd rhan yng ngham cyntaf Cam 2. Ar ddiwedd Cam 2 (tymor yr haf 2023), bwriadwn wahodd deg ysgol gynradd o'r AauLl i gael adborth ar ddeilliannau'r prosiect.

Dechreuwyd ar yr ail gam erbyn mis Ionawr 2024 gan recriwtio 11 ysgol, ac maent wedi cwblhau gweinyddu ac asesu profion gwaelodlin (N ~ 400 disgybl). Cynhaliwyd gweithdy pedwar-diwrnod i bum o'r ysgolion (11 o athrawon). Ymwelir â phob ysgol yn unigol i drafod eu darpariaeth sillafu gyfredol a rhoi cymorth. Cynhelir sesiynau galw heibio misol.

Ar y gweill ar gyfer Cam 3 DEMSI oedd rhannu canfyddiadau mewn cynhadledd ranbarthol, ynghyd â rhoi gwahoddiad i ysgolion o AauLl eraill ddefnyddio'r cwricwlwm sillafu. Roedd hyn i ddigwydd yn 2024-25, nes y ceir gwybod beth yw canlyniad ad-drefnu Haen 2, sy'n mynd rhagddo.

Erbyn Ebrill 2024, mae sgorio gwaelodlin wedi'i gwblhau. Mae pob ysgol wedi cael un ymweliad. Mae dwy ysgol eisoes yn ystyried gweithredu dull ysgol gyfan. Mae sesiynau galw heibio misol yn parhau. Rydym ar fin ailddosbarthu'r holiadur.

## ADDYSGEG A DYLUNIO DYSGU

**Tuag at 2024**
Mae gwaith yn parhau ar y cyd ag athrawon ystod oedran 8-11 i gryfhau a chefnogi ymhellach hunanarfarnu a gwella ysgolion tuag at gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru, a hynny trwy arfarnu a datblygu dulliau Cwricwlwm i Gymru presennol, Addysgeg a Chynnydd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd â Phenaethiaid ym mis Tachwedd 2023 ynghyd â digwyddiadau Dysgu Proffesiynol ar 'Ddatblygu dysgu ac addysgu o safon uchel'. Cynhelir diwrnod adolygu ar 18 Mawrth 2024. Mae'r holl adnoddau ar gael yn ddwyieithog a bydd llawlyfr ar gael yn y digwyddiad ym mis Mawrth 2024. Mae'r cynnwys yn edrych ar adolygu camau gweithredu, Egwyddorion Cynnydd - Effeithiolrwydd Dysgwyr a'r cylch effaith newydd.

Yn ôl ffurflenni gwerthuso mae gan athrawon well dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng addysgeg, cwricwlwm lle mae ffocws ar broses, asesu a chynnydd er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol yn erbyn y Pedwar Diben. Bu hyn yn fodd iddynt fynd yn ôl i'r ysgol i wneud astudiaeth achos ar raddfa fach yn eu dosbarthiadau yn seiliedig ar ddata ansoddol ac/neu feintiol i werthuso effaith.

Roedd y dysgu proffesiynol yn cynnwys beth yw cwricwlwm lle mae ffocws ar broses, a fydd yn cynnig man cychwyn cadarn i ysgolion gyda dysgu proffesiynol cenedlaethol Camau i'r dyfodol. Roedd hefyd yn cynnwys dulliau gweithredu ar sail ymchwil. Roedd adborth gan athrawon yn dangos bod hyn wedi cynnig man cychwyn da iddynt wrth ddylunio dysgu. Cafwyd adborth cyffredinol cadarnhaol iawn, a bydd yr effaith yn amlwg yn eu hysgolion. Roedd ysgolion yn gallu rhwydweithio gyda'i gilydd ar ôl y digwyddiad trwy Teams.

**Cynllunio'r Cwricwlwm i Gymru**
Cynhaliwyd cyfarfodydd ag Arweinwyr Rhanbarthol i drafod y Prosiect Cynllunio Dysgu ar gyfer eleni. Bydd hyn yn cefnogi'r Prosiect Rhaglen Partneriaeth Ysgolion. Adnabuwyd ysgolion i gymryd rhan yn y prosiect pum diwrnod.

Daeth yr ysgolion i'r diwrnod lansio ar 23/01/2024 i gefnogi'r rhaglen a mynd â strategaethau yn ôl gyda hwy i'w defnyddio ar draws yr ysgol. Roedd dau Bennaeth yn bresennol. Penderfynodd pob ysgol ganolbwyntio ar y cyfrwng digidol yn cefnogi efo darllen. Defnyddiodd athrawon un ysgol y cyfrwng digidol i gefnogi efo darllen drwy recordio llyfrau ffoneg y gellir eu dadgodio a'u hanfon gartref i'r rhieni atgyfnerthu'r ffoneg a ddysgwyd. Yn ôl adborth gan rieni yn y nosweithiau rhieni yn ddiweddar bu hyn yn llwyddiant, ac mae'n cyflymu sgiliau darllen disgyblion. Fe wnaeth un ysgol ganolbwyntio ar ddisgyblion hŷn yn helpu disgyblion iau i ddarllen trwy ddefnyddio apiau Google classroom. Cafwyd adborth cadarnhaol am agweddau at ddarllen, ac fe wnaeth y disgyblion hŷn yn enwedig elwa ar feithrin perthynas gyda'r disgyblion iau. Roedd y ddarlith ar y diwrnod lansio yn effeithiol iawn, gan iddi wneud i'r Penaethiaid feddwl eto am eu dull o ddefnyddio'r cyfrwng digidol i gefnogi addysgeg yn hytrach na'i ddefnyddio fel rhywbeth ar wahân. Bydd ysgolion yn dod at ei gilydd eto ym mis Mehefin 2024 i rannu effaith y prosiect a ffyrdd o'i rannu ymhellach.

**Prosiect Ymchwil Trafod Addysgeg (2023-26) – Blwyddyn 1 (2023-24)**
Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu, ac ariannu, y prosiect hwn am dair blynedd o 2023. Cynhaliwyd cyfweliadau yn ystod tymor y gwanwyn 2023 i benodi myfyriwr ymchwil PhD i gwblhau'r gwaith, a phenodwyd athro uwchradd. Cychwynnodd y myfyriwr PhD newydd ar y gwaith ar 1 Medi. Yn 2023-24 mae'r myfyriwr yn canolbwyntio ar ddau gwestiwn ymchwil allweddol (yn cael eu llywio gan Lywodraeth Cymru), fel a ganlyn:

1. Sut defnyddir y term 'addysgeg' mewn cyhoeddiadau addysg yng Nghymru? Mae'r myfyriwr wedi gorffen dadansoddi cynnwys cyhoeddiadau allweddol gan y Llywodraeth, y consortia, Estyn a rhanddeiliaid eraill ac wrthi'n gwerthuso'r data i gael canfyddiadau cynnar. Rhannwyd y canlyniadau cychwynnol â Llywodraeth Cymru.
2. Sut gallwn ni ddiffinio yn gliriach rhywfaint o'r derminoleg a'r ieithwedd allweddol sydd ynghlwm wrth y Cwricwlwm i Gymru? Mae'r myfyriwr wedi dechrau'r broses o lunio astudiaeth Delphi i ddefnyddio rhanddeiliaid allweddol ac arbenigwyr i helpu i adnabod a gwella'r diffiniadau a'r ddealltwriaeth o derminoleg sy'n fwy cynhennus.

Cwblhawyd cwestiwn ymchwil 1, ac adroddwyd am ganfyddiadau dros dro i grŵp Haen Ganol Trafod Addysgeg Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror a Mawrth 2024. Mae hyn bellach yn cael ei gofnodi ar gyfer cyhoeddiad academaidd, a bydd yn llywio dulliau cenedlaethol o gefnogi diwygio cwricwlwm ac addysgeg mewn ysgolion. Mae cwestiwn ymchwil 2 ar y gweill, yn seiliedig ar ddyluniad astudiaeth Delphi (lle defnyddir arbenigwyr i weithio tuag at ddiffiniad cyffredin o derminoleg cynhennus yng nghyd-destun y CiG). Mae grŵp peilot o arbenigwyr o GwE a Phrifysgol Bangor wrthi'n treialu'r dull Delphi ar hyn o bryd, gyda'r grŵp rhanddeiliaid Delphi mwyaf yn mynd i gychwyn y gwaith yn nhymor yr haf 2024.

## CYFLAWNI POTENSIAL – HER I BAWB (MATh)

Mae cynrychiolwyr GwE wedi llunio a chyflwyno dwy o'r pedair gweminar Cyflawni Potensial ar 'Ddatblygu Strategaeth MATh' a 'Metawybyddiaeth'. Mae'r rhain ar gael fel recordiadau i ysgolion rhanbarthol eu defnyddio, gan amlinellu strategaethau ymarferol i ddatblygu darpariaeth ac arweinyddiaeth i gefnogi efo Cyflawni Potensial: Her i Bawb. Effaith y rhain yw rhoi gwybodaeth well i arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr am y cymorth sydd ar gael i helpu efo agenda CP/MATh, a chynnwys ymarferwyr yn well mewn Ymchwil a gwaith treialu dulliau penodol o wella safonau megis strategaethau metawybyddiaeth a dulliau dysgu. Bydd staff GwE yn diweddaru gwefan Cyflawni Potensial y Consortia Rhanbarthol.

Rhannwyd dolenni i gynnig dysgu proffesiynol ac adnoddau Cyflawni Potensial ag ysgolion y rhanbarth ym Mwletin GwE, i'w helpu gyda'u gwaith yn y maes hwn.

Mae prosiect Cyflawni Potensial trawsranbarthol wedi cychwyn gyda phum ysgol gynradd. Bydd hwn yn eu helpu i ddatblygu eu gwaith cynllunio, asesu a'r ddarpariaeth er mwyn bodloni anghenion pob dysgwr. Bydd ysgolion yn rhannu arferion da, a gall ysgolion rhanbarthol eraill fanteisio ar hyn o dymor yr hydref 2024. Rhoddwyd cynnig i ysgolion wneud cais am gyllid i gefnogi prosiect ar raddfa fach yn canolbwyntio ar un agwedd ar yr agenda Cyflawni Potensial.

Mae adnoddau a ddatblygwyd i helpu ysgolion ar gael ar wefan y Consortia Rhanbarthol:

- 10.11.2023 - Consortia MAT Strategy Meeting (youtube.com)
  Welsh Education Consortia - Challenge for All Professional Learning (google.com)
  Consortia Addysg Cymru - Her i Bawb Dysgu Proffesiynol (google.com)

Gweminarau a chyflwyniadau Cyflawni Potensial:

[10.11.2023 - Consortia MAT Strategy Meeting (youtube.com)](#)
[21.02.2024 - Differentiation (youtube.com)](#)
[21.03.2024 - Metacognition - YouTube](#)



**ADDYSG 3-8**

Darparwyd cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder ar draws y rhanbarth. Yn gyffredinol, mae bron pob ysgol sy'n destun pryder yn gwneud cynnydd cyson neu dda yn erbyn y camau gweithredu a gytunwyd, ac mae pob aelod staff a rhanddeiliad yn uwchsgilio yn ystod y broses. Mae'r cymorth yn datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o gynnydd ar draws llwybrau datblygu Galluogi Dysgu at ddiwedd CC2 ym mhob MDaPh, yn ogystal â'r sgiliau trawsgwricwlaidd a'r sgiliau cyfannol. Mae'r cymorth hefyd yn gwella'u dealltwriaeth o egwyddorion ac addysgeg Dysgu Sylfaen ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar gynnydd dysgwyr.

Cynhaliwyd rhwydweithiau 3-8 rhanbarthol ar gyfer ymarferwyr ac YCG, gan rannu arweiniad ar 'Sgiliau cyn darllen, Sgiliau darllen cynnar ac Uwch sgiliau darllen, 'Dysgu yn yr awyr agored' a 'Datblygu sgiliau digidol'. Mae hyn wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymarferwyr e.e. mapiau cynnydd digidol, a darparu cyfle i gydweithio a rhoi strategaethau ar waith yn eu cynllunio a'u haddysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a'r dysgu.

Mae ysgolion o bob ALl wedi bod yn rhan o brosiectau ymchwil GwE ar y dull 'Chwarae, Arsylwi, Gofyn' o ddatblygu archwilio gwyddonol a sgiliau ymholi. Bu ymarferwyr yn trafod sut yr aethant ati i fyfyrio ac adolygu eu dull o gynllunio ac addysgu cysyniadau gwyddonol a sgiliau ymholi mewn cwricwlwm priodol yn ddatblygiadol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddiddordeb a chymhelliant disgyblion a'r cynnydd yn eu dysgu. Rhennir cyflwyniadau ac astudiaethau achos yn rhwydwaith 3-8 rhanbarthol tymor yr haf 2024, a'u hwchlwytho i Ganolfan Cefnogaeth GwE fel bod modd i bob ysgol yn y rhanbarth fynd atynt.

Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol i athrawon a chymorthyddion dysgu sy'n newydd i'r grŵp oedran 3-8, yn canolbwyntio ar egwyddorion Galluogi Dysgu, MDaPh ac addysgeg effeithiol yn y grŵp oedran hwn. Mae gan y rheiny sydd wedi bod yn bresennol adnabyddiaeth a dealltwriaeth gadarn o'r tri galluogwr dysgu o fewn Galluogi Dysgu, a'r addysgeg a'r cwricwlwm i'w trosglwyddo yn arferion dosbarth.

Cynhaliwyd gweithdy digidol rhanbarthol ar y cyd ar ddatblygu sgiliau o fewn y grŵp oedran 3-8 (gweler adroddiad monitro Cynllun Busnes Digidol).

Cynhaliwyd gweithdai Celfyddydau Mynegiannol a Dyniaethau rhanbarthol i athrawon a chymorthyddion dysgu. Mae pob ymarferydd wedi'i uwchsgilio, a'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth o Feysydd Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol a'r Dyniaethau, y Llwybrau Dysgu, y sgiliau trawsgwricwlaidd a'r sgiliau cyfannol wedi'u dyfnhau. Yn dilyn y gweithdai, mae ymarferwyr yn fwy hyderus wrth gynllunio datblygiad mewn MDaPh a'r sgiliau trawsgwricwlaidd, o'r Llwybrau Datblygu i'r MDaPh, a hynny o fewn addysgeg ddatblygiadol addas.

Cyflwynwyd sesiynau rhanbarthol ar ddatblygu strategaethau darllen effeithiol i hybu darllenwyr gydol oes. Mae llawer o ymarferwyr wedi myfyrio ar eu darpariaeth ac wedi gwneud newidiadau er mwyn gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion glywed a datblygu eu sgiliau darllen a'u sgiliau darllen a deall, yn ogystal â gwella ymgysylltiad rhieni.

Cyflwynwyd sesiynau rhanbarthol ar ganllawiau 'Asesiadau wrth Dderbyn' LlC i UDA ac ymarferwyr yn ystod tymor yr haf a mis Medi 2023. O ganlyniad mae gan ymarferwyr well gwybodaeth a dealltwriaeth o'r

canllawiau ac o bwysigrwydd arsylwadau a threfniadau pontio.

Darparwyd cymorth pwrpasol i ysgolion unigol a chlystyrau ar agweddau penodol ar y Cwricwlwm e.e. darllen cynnar ac uwch sgiliau darllen, dysgu gwreiddiol a phwrpasol, rôl yr oedolyn, rhifedd, cynllunio a dysgu yn yr awyr agored. Mae hyn wedi uwchsgilio staff ar y continwwm 3-11 yng nghyd-destun ymestyn a dyfnhau sgiliau o fewn profiadau dysgu ac amgylchedd sydd yn briodol i ddatblygiad.

## ÔL-16

**Cefnogi ysgolion i fonitro cynnydd myfyrwyr ôl-16**
Bu rhaglen feddalwedd ALPs yn adnodd defnyddiol iawn wrth fonitro cynnydd dysgwyr ôl-16. Mae pob ysgol yn y rhanbarth sydd â chweched dosbarth yn defnyddio'r meddalwedd. Mae canlyniadau dadansoddi arholiadau a safonau ar draws y rhanbarth wedi llywio camau gweithredu yng nghyd-destun:

<u>Dadansoddi arddulliau cwestiwn AS ac A2 a newidiadau i fanylebau pynciau penodol</u>
Bu gostyngiad cyffredinol mewn perfformiad yn 2022/23, fel y dengys sgorau Safonol a mesurau Dangosydd Ansawdd. Mae'n debygol bod hyn yn nodi dychwelyd at ddeilliannau cyn-pandemig; fodd bynnag, mae'r proffil yn llai cadarnhaol na 2018. Wrth ddadansoddi cwestiynau datgelir newid sylweddol tuag at gwestiynu yn arddull PISA, ac mae disgwyliadau uwch o ran uwch sgiliau meddwl yn amlwg yn y manylebau Safon Uwch. Rhannwyd hyn â thîm Cynnydd ac Asesu GwE, mae wedi'i gynnwys ar eitemau agenda Penaethiaid Chweched a'i gyfleu mewn rhwydweithiau pwnc.

<u>Strategaethau i sicrhau ffocws parhaus ar ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd ôl-16.</u>
Mae'r proffil ALPs rhanbarthol yn dangos darlun cymysg o ddeilliannau ar gyfer pynciau sydd â gofynion llythrennedd uchel. Mae angen darpariaeth lythrennedd 11-16 o safon uchel i wneud cynnydd mewn pynciau ôl-16 sydd â gofynion llythrennedd uchel; rhannwyd y negeseuon hyn a'u trafod yn y cylch diweddaraf o gyfarfodydd Penaethiaid Chweched. Yn ogystal, negeseuon yn ymwneud â sicrhau bod blaenoriaethau ysgol yn rhoi sylw i ddatblygu sgiliau ôl-16, yn ogystal â chyn-16.

<u>Cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau pwnc yn y pynciau hynny ble mae perfformiad yn fwy amrywiol.</u>
Mae pynciau ALPs 'glas' yn cynnwys Mathemateg, Troseddeg, Seicoleg, AC, Hanes, CBC, Daearyddiaeth a Llenyddiaeth Saesneg. Fel ymateb i hyn, rydym wedi sefydlu rhwydweithiau penodol ar gyfer Troseddeg, Seicoleg, CBC ac Astudiaethau Busnes.

<u>Trafodaethau gyda Phenaethiaid Chweched am faterion ehangach sy'n cael effaith ar berfformiad, cynnydd a safonau yn y Chweched Dosbarth.</u>
Negeseuon yn ymwneud â phroffil sy'n newid o'r dysgwr Chweched Dosbarth - trafodwyd effaith y pandemig a'r materion lles a gwytnwch cysylltiedig mewn cyfarfodydd Penaethiaid Chweched ar draws y rhanbarth. Gwahoddwyd arweinwyr Chweched Dosbarth i gyfrannu syniadau ar gyfer digwyddiad i Benaethiaid Chweched Dosbarth yn nhymor yr haf. Mae'n debygol mai agweddau ar lesiant a rhwystrau i gynnydd fydd y ffocws

<u>Sicrhau bod ysgolion yn gosod blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar gau'r bwlch cyrhaeddiad ôl-16, yn ogystal â chyn-16.</u>
Yn ôl dadansoddiad ALPs gwnaeth dysgwyr hPYD lai o gynnydd na dysgwyr dim PYD yn 2023, cymaint â 0.25 gradd.

Yn 2023, gwnaeth dysgwyr hPYD lai o gynnydd na dysgwyr dim PYD ym mhob un o'r pynciau mwyaf poblogaidd yn ôl cofrestriadau (CBC, Mathemateg, Bioleg, Seicoleg, Hanes a Cemeg).

Er nad yw ysgolion yn cyflwyno PYD (fel rhywedd), mae'r bwlch cyrhaeddiad yn parhau i mewn i ddysgu ôl-16 - rhannwyd hyn a'i drafod yn y cylch diweddaraf o gyfarfodydd Penaethiaid, yn enwedig yng nghyd-destun gofalu bod blaenoriaethau ysgol yn rhoi sylw i'r bwlch cyrhaeddiad ôl-16, yn ogystal â chyn-16.

**Cefnogi arweinwyr ôl-16 i ddarparu cyfeiriad cadarn ac effeithiol ym mhob agwedd ar eu rôl.**
Mae'r tri Rhwydwaith cyd-Awdurdod Lleol wedi cyfarfod ar ddau achlysur. Cafwyd presenoldeb da. Mae pob arweinydd ôl-16 wedi cael cynnig bod yn rhan o raglen datblygu arweinyddiaeth ôl-16. Mae 9 o ysgolion GwE wedi cadw lle ar y rhaglen. Mae pob arweinydd a gofrestrodd ar y rhaglen hon bellach wedi cwblhau'r cwrs pedwar diwrnod. Cafwyd adborth rhagorol gan yr aelodau. Mae un aelod o ranbarth GwE wedi cael swydd fel Pennaeth Chweched. Mae pob arweinydd ôl-16 wedi cael cynnig mynychu Dysgu Proffesiynol trawsranbarthol ôl-16.

**Darparu rhwydweithiau o safon uchel**
Mae gwahanol ysgolion wedi cynnal amrywiol rwydweithiau ac mae rhannu adnoddau wedi digwydd. Mae gweithgarwch pellach ar y gweill. Mae'r rhwydweithiau hyn yn cynnwys Troseddeg, Astudiaethau Busnes a Seicoleg.

**Darparu cymorth i wella'r dysgu a'r addysgu yng nghyd-destun Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch mewn dosbarthiadau chweched dosbarth**
Cyfarfu rhwydwaith pwnc Bagloriaeth Cymru Uwch ar ddau achlysur; o ganlyniad, cymerodd dair ysgol yr awenau i rannu eu cynlluniau darparu a'u modelau ar gyfer y tasgau Her. Mae creu Teams hefyd wedi hwyluso'r gwaith o rannu adnoddau. Yn ôl y 15 aelod, roedd y cyfle hwn i rwydweithio yn hynod fuddiol. Mae sesiynau pellach ar y gweill yn nhymor yr haf.

**Cynnig ystod o ddulliau i ysgolion o gefnogi lles eu myfyrwyr.**
Mae trafodaethau a rhannu strategaethau lles wedi digwydd yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Chweched. Ymgynghorwyd â phob arweinydd Chweched ar lunio agenda ar gyfer cyfarfod rhwydwaith/cynhadledd yn nhymor yr haf, gyda ffocws ar lesiant a rhwystrau i gynnydd.

## Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

**DATBLYGU PECYN CYMORTH GYRFA GYNNAR CENEDLAETHOL I GEFNOGI ATHRAWON YN Y 4 BLYNEDD GYNTAF O ADDYSGU, AR Y CYD AG AGA, DARPARWYR CYRSIAU MEISTR A LLYWODRAETH CYMRU (LLC).**

**Cysoni ymhellach AGA ac addysgu ar gychwyn gyrfa.**
Cydweithio â Phrifysgol Bangor - mae YCG o GwE yn rhan o Fwrdd Llywio Rhaglen RILL ac yn hyrwyddo'r gwaith yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth gadarn iawn o'r datblygiadau. Mae trafodaethau buddiol yn digwydd gyda Phrifysgol Bangor ynghylch y ddarpariaeth i fyfyrwyr AGA. Gwahoddwyd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg i'r gynhadledd 'Ein Llais Ni'. Cafwyd niferoedd da o fyfyrwyr yno a derbyniad da ganddynt. Mewn adroddiad gan Estyn cydnabyddir rôl Mentor Iaith mewn ysgol a fu'n rhan o'r prosiect Ein Llais Ni gwreiddiol drwy'r bartneriaeth efo CaBan - https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cefnogir-gymraeg-yn-addysg-gychwynnol-athrawon-sut-mae-sefydliadau-addysg?_ga=2.206735766.440997772.1708337389-782401630.1707917677. Parheir i gydweithio ar y rhaglen Ein Llais Ni gyda'r Athro Enlli Thomas. Rhannwyd cytundeb gwaith cydweithredol ac mae angen cadarnhau'r dull cymorth.

Mae cynnydd yn parhau gydag achredu'r rhaglenni ADY AGA newydd.
Cyhoeddwyd meini prawf achredu newydd LlC, sy'n cynnwys cydnabyddiaeth o'r angen am lwybrau ADY oherwydd pwysau gan randdeiliaid o ranbarth GwE. Mae rhaglenni wrthi'n cael eu cyd-lunio gyda phartneriaid ysgolion arbennig ac ADY prif lif ar draws y rhanbarth. Mae ceisiadau am y llwybr newydd

bellach ar agor trwy UCAS, a hynny ar gyfer rhaglen beilot gyda niferoedd cyfyngedig, nes y ceir achrediad (rhaglenni i ddechrau ym mis Medi 2024, gan gynnwys llwybr blwyddyn ar sail cyflogaeth). Cynhelir cyfarfodydd grŵp llywio yn wythnosol; cynhelir cyfarfodydd grŵp i randdeiliaid ehangach yn dymhorol. Cynhelir y cyfarfodydd achredu gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar 23 a 24 Ebrill; hwn fydd llwybr ADY AGA cyntaf Cymru.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi bod yn monitro rhaglenni prif lif presennol (BA Cynradd, TAR Cynradd, TAR Uwchradd - ystod o bynciau) ym mis Rhagfyr 2023 yn ystod ymweliad 2 ddiwrnod â'r brifysgol ac ysgolion y rhanbarth. Roedd cydymffurfiaeth lawn a rhoddodd Cyngor y Gweithlu Addysg adborth cadarn a chalonogol. Roedd yr holl argymhellion a nodwyd yn rhan o gamau gweithredu a chynlluniau gwella cyfredol, ac mae sesiynau pellach ar y gweill i barhau i ddatblygu camau gweithredu yn erbyn y rhain. Roedd argymhellion yn cynnwys parhau i ddatblygu a chyd-sicrhau ansawdd rhwydweithiau penodol o ysgolion. Mae prosesau SACA cyffredin yn parhau. Mae cyfradd llwyddo myfyrwyr yn uchel eleni. Mae lefel boddhad myfyrwyr yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol. Cynllunnir pob maes gwelliant drwy'r hunanarfarnu, sydd yn eu tro yn bwydo'r Cynllun Gwella ar gyfer 2023-24. Recriwtwyd nifer sylweddol yn fwy o fyfyrwyr eleni o gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae gweithio partneriaeth parhaus yn cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer AGA, gan gynnwys dysgu proffesiynol cyffredin fel y digwyddiad Cwricwlwm i Gymru ar 22/06/23 a darlithoedd GwE CaBan cyson. Cafwyd ymweliad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 18/05/23 i lansio fideo recriwtio cenedlaethol ac ateb cwestiynau gan fyfyrwyr. Roedd siaradwyr yn cynnwys yr Is-Ganghellor, RhG GwE, Pennaeth yr Ysgol a'r Cyfarwyddwr AGA. Mae llunio rhaglen gyffredin yn cynnwys gwaith ar y Gymraeg yn gysylltiedig ag ymchwil, ac ieithoedd modern mewn lleoliadau cynradd.Mae staff GwE yn parhau i gyfrannu i sesiynau mewn rhaglenni a addysgir ar safle CaBan. Er enghraifft, ym mis Mai 2023, cyflwynodd staff GwE sesiwn ar y cyd i fyfyrwyr ar gyfrifoldebau cyfreithiol bod yn athro. Ym mis Hydref 2023, bu 3 aelod o dîm GwE yn arwain sesiynau i fyfyrwyr BA ar gynllunio cwricwlwm o fewn y Cwricwlwm i Gymru, ac ym mis Rhagfyr a mis Ionawr 2024 bu 2 YCG GwE yn cynnal sesiynau i fyfyrwyr pob rhaglen ar y Dyniaethau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn ôl prosesau SACA mae myfyrwyr yn gwneud cynnydd da yn gyffredinol yn eu rhaglenni. Cyfarfu aelod o dîm GwE â hwy fel rhan o'r drefn sefydlu yn ystod eu hwythnos gyntaf, ac mae sesiwn ar y gweill gyda mentor ANG GwE yn nhymor yr haf 2024.

Cefnogwyd ceisiadau ar gyfer Rhaglenni'r Brifysgol Agored 2023-25 - mae nifer yr ymgeiswyr yn y rhanbarth yn cynyddu. Mae nifer y ceisiadau cychwynnol ar gyfer TAR y BA ym mis Medi 2023 wedi cynyddu, ac mae GwE yn rhagweld y bydd 28 myfyriwr ar y rhaglen, o gymharu â 21 y llynedd. Mae hyn yn cynnwys 12 myfyriwr sydd wedi cael cynnig lle ar yr hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn bron i draean yr holl geisiadau ar draws Cymru.Rhagwelir y bydd recriwtio cyn gryfed ar gyfer mis Medi 2024, nawr fod ysgolion wedi'u recriwtio i bartneriaeth y Brifysgol Agored er mwyn cefnogi'r cynnydd hwn. Mae cefnogaeth GwE i'r Brifysgol Agored mewn ysgolion yn gryf iawn. Cytunwyd ar feysydd astudiaeth newydd gyda chymhorthdal ar gyfer ceisiadau, sydd ar agor ar hyn o bryd. Cafodd rhaglenni TAR y Brifysgol Agored eu hailachredu eleni, am bum mlynedd arall.

Rhennir gwybodaeth recriwtio am raglenni AGA rhanbarthol yn rheolaidd, er enghraifft ym Mwletin GwE, mewn cyfarfodydd recriwtio penodol ac yn y gynhadledd ranbarthol i Gymorthyddion Dysgu Lefel Uwch ym mis Mawrth 2024.

**ANG**
Mae cyfarfodydd rheolaidd y cynrychiolwyr ALl rhanbarthol yn effeithiol iawn. Ym mis Medi 2023 mae ANG bellach yn cael cymorth drwy'r rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol. Cwblhawyd modiwlau cychwynnol yn nhymor yr Hydref ac mae gan ANG rhanbarthol bellach fynediad at y cynnig lleol, sy'n cynnwys amryw o sesiynau perthnasol a diweddar i wella dysgu ac addysgu, ac i ANG rwydweithio a rhannu arferion a phrofiadau yn ystod eu blwyddyn gyntaf.

Ym mis Medi 2023, roedd 187 ANG llawn amser/rhan amser a 54 athro cyflenwi byrdymor newydd gymhwyso wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (241), ac o'r rheiny daeth 226 i sesiynau cenedlaethol 1 a 2. Agwedd gadarnhaol iawn ar y data hwn yw bod 91% o'r garfan yn bresennol yn yr hyfforddiant. Y ganran hon yw'r uchaf ers pum mlynedd. Rydym yn hynod o falch bod canran yr athrawon cyflenwi byrdymor newydd gymhwyso sydd wedi mynychu hyfforddiant wedi codi o 25% yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae gwaith i'w wneud o hyd, ond mae'n welliant sylweddol.

Mae ymwneud ANG â dysgu proffesiynol rhanbarthol, megis y ddarpariaeth gyffredinol ar wella ymddygiad ac ar asesu ffurfiannol, yn gadarn iawn. Erbyn 8/4/24, roedd 916 ymateb i'r 6 sesiwn ar gyfer ANG.

- 90.4% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rhaglen dysgu proffesiynol 'wedi gwella fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r pwnc/maes'.
- 91.1% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rhaglen dysgu proffesiynol 'yn addas i'm anghenion a'm lefel sgiliau'.
- 94.1% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rhaglen dysgu proffesiynol yn 'darparu cynnwys sy'n addas i'm rôl'.
- 89.8% o'r ymatebwyr yn dweud 'byddem yn argymell y dysgu proffesiynol i eraill'.

Cafwyd sgôr gyfartalog o 4.2/5 gan yr ANG a ymatebodd i'r cwestiwn 'I ba raddau ydych chi'n rhagweld y bydd y dysgu yn cael effaith gadarnhaol ar eich arferion?' Nododd yr ANG mai rhan fwyaf effeithiol y rhaglen oedd:

- *Llawer o wybodaeth, yr holl wybodaeth yn ddilys ac yn ddefnyddiol. Edrych ymlaen at gychwyn fy nhaith ANG*
- *A minnau'n dod o Loegr roedd yn ddefnyddiol iawn clywed sut mae system cefnogi ANG yng Nghymru yn gweithio. Hefyd, gan nad oeddwn wedi defnyddio pebble pad o'r blaen, roedd cael cyflwyniad yn rhoi tawelwch meddwl.*
- *Yr wybodaeth ynghylch beth mae sefydlu yn ei olygu, gan nad oedd llawer o wybodaeth am hyn yn y brifysgol.*
- *Roedd yr wybodaeth am lunio cofnod Profiadau Dysgu Proffesiynol yn ddefnyddiol iawn. Roedd yr arweiniad cam wrth gam yn ddefnyddiol iawn. Rwy'n teimlo'n hyderus rwan i lunio un.*
- *Rhagwelwyd ein cwestiynau i gyd, ac roedd yn glir iawn. Roedd yr enghreifftiau mor ddefnyddiol!Diolch yn fawr iawn am roi hwn at ei gilydd.*
- *Roedd yr ystafelloedd trafod yn ddefnyddiol iawn. Roedd rhannu arbenigedd o fudd mawr.*
- *Y ddolen Scenarios, a'r Fideo Awgrymiadau i ANG. Trafod cyfleoedd Arweinyddiaeth ac awgrymiadau ar gyfer cofnod Profiadau Dysgu Proffesiynol.*
- *Roedd y drafodaeth am Cynefin yn hynod o ddefnyddiol, gan fy mod wedi cael trafferth deall yr agwedd hon. Roedd hyn yn rhoi trosolwg manwl ond penodol.*

## 6. ARWEINYDDIAETH

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**

Mae sicrhau symud ymlaen i rôl Pennaeth, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, wedi bod, ac yn parhau i fod, yn heriol. Mae GwE yn darparu arlwy gyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ynghyd â chymorth pwrpasol ac wedi'i dargedu i ysgolion yn ôl yr angen, yn enwedig yr ysgolion hynny sy'n destun pryder. Ar ben hynny, mae trefniadau cadarnach ar waith ar draws y rhanbarth ble mae arweinwyr ysgolion yn cydweithio i gefnogi'r naill a'r llall mewn clystyrau ac/neu gynghreiriau ac yn cymryd perchenogaeth a chyfrifoldeb cynyddol am daith welliant ei gilydd.

Oherwydd y pwyslais ar gymorth ac arweiniad ar gyfer arweinyddiaeth:

- mae bron pob ysgol yn gweithredu er mwyn cryfhau arweinyddiaeth ymhellach yn eu hysgolion, gyda ffocws penodol ar fireinio a gwella ymhellach brosesau gwerthuso a chynllunio gwelliant ar bob lefel
- mae bron pob ysgol yn blaenoriaethu arweiniad a chymorth i ddatblygu ymhellach gapasiti uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i arwain, a gwerthuso, ansawdd y dysgu a'r addysgu yn effeithiol
- mae cynnydd yn nifer yr arweinwyr sydd yn ymuno â hyfforddiant o safon uchel a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| | **AMCAN 4 - ARWEINYDDIAETH** |
| | **Blaenoriaethau:** |
| **4.1** | **Gweithredu Rhaglenni Arweinyddiaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol** |

**RHAGLENNI ARWEINYDDIAETH**

Mae carfanau y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG) a'r Rhaglen Datblygu Uwch Arweinyddiaeth (RhDUA) wedi cwblhau'r rhaglen. Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn yn ystod y sesiynau cyflwyno gyda'r YCG a oedd yn cadeirio yn canmol ansawdd a safon yr aelodau a'u cyflwyniadau. Wrth gyflwyno wyneb yn wyneb, roedd y cyflwynwyr yn gallu darparu cymorth ac arweiniad fwy penodol i'r aelodau ar lefel unigol, yn ogystal â chyfleoedd i rwydweithio a rhannu arferion da. Bydd yr aelodau hynny a fethodd ddod i Fodiwl 5 yn cael cyfle i gyflwyno yn nhymor y Gwanwyn. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau.

Parheir i ddiweddaru cynnwys y RhDAG a'r RhDUA i sicrhau eu perthnasedd a'u bod yn cynnwys y newidiadau cyfredol mewn addysg ym mhob rhaglen. Er enghraifft, y Canllawiau Gwella Ysgolion.

Mae lleoliad y rhaglenni RhDAG a RhDUA yn cael ei gylchdroi er mwyn sicrhau tegwch o ran lleoliad daearyddol.

Ar gyfer pob rhaglen, anogwyd yr aelodau i ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac maent wedi cael arweiniad ar sut i'w ddefnyddio. Anogir yr aelodau i ddefnyddio'r adnodd i gofnodi a myfyrio ar eu cynnydd ar draws y llwybr arweinyddiaeth. Mae rhwydd hynt i'r aelodau ddefnyddio'r adnodd yn ôl eu hanghenion yn unol ag egwyddorion y rhaglen.

Mae dau ymgeisydd wedi cael eu hasesu ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP). Asesiad mis Mai fydd y cyfle olaf o dan y trefniadau presennol i ymgeiswyr ddangos eu bod yn barod ar gyfer prifathrawiaeth. Mae hyn yn cynnwys penaethiaid mewn gofal ar hyn o bryd, a enwebwyd gan yr Awdurdod Lleol.

Mae staff GwE yn rhan o weithgor sydd wrthi'n cyd-lunio'r rhaglen CPCP newydd yn barod i'w hail-lansio yn yr hydref, 2024.

Mewn ymateb i adborth gan garfan 2021-23, mae amseriad yr agwedd ranbarthol ar y Rhaglen i Benaethiaid Newydd a Phenaethiaid Mewn Gofal wedi'i addasu i annog gwell presenoldeb a chynnig cyfleoedd i arweinwyr ar draws pob awdurdod rwydweithio'n fwy effeithiol. O ganlyniad, mae modiwlau rhanbarthol wedi'u cyfuno i gael eu cyflwyno wyneb yn wyneb mewn diwrnod llawn yn hytrach na mewn sesiynau hanner diwrnod, gyda phresenoldeb yn gwella'n sylweddol.

Oedwyd y Rhaglen i Benaethiaid Profiadol tra bydd y rhaglen CPCP yn cael ei cyd-lunio.

Mae oedi yn y gwaith o gyd-lunio'r rhaglen datblygu Arweinyddiaeth System tra bod penderfyniadau ynglŷn â'r CPCP yn cael blaenoriaeth.

Mae ymarferwyr y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol a'r Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr ar gyfer 2023-24 wedi cael cefnogaeth gan rwydwaith effeithiol o hwyluswyr, mentoriaid ysgol (RhDAG), cymhellwyr arweinyddiaeth (RhDUA), arweinwyr ysgolion ac YCG. Hwyluswyd y cymorth hwn gan y tîm busnes rhanbarthol.

Mae'r rhaglenni wedi dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o'u rôl mewn system sy’n hunan wella, h.y., trwy gwblhau Tasg Profiad Arweinyddiaeth yn seiliedig ar y cylch gwella a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.

Anogwyd pob aelod o garfanau 23-24, ble mae'n briodol, i anelu at y lefel nesaf ar y llwybr arweinyddiaeth. Mae pob ymarferwr wedi cael gwell dealltwriaeth o'r safonau arweinyddiaeth, sut gall y safonau hynny gefnogi hunan fyfyrio a datblygiad proffesiynol fwy pwrpasol.

**CALU - LLDC**

**Cynnal datblygiad proffesiynol cymorthyddion dysgu**
Defnyddiwyd y ffurflenni gwerthuso cenedlaethol ar gyfer pob rhaglen yn seiliedig ar fodel Kirkpatrick. Mae’r dull hwn wedi hwyluso canfod effaith hyfforddiant a thrafodaethau adolygu cynnwys pob rhaglen yn genedlaethol.

Lansiwyd y rhaglen **Ymsefydlu** yn genedlaethol ar ei newydd wedd ar Tachwedd 6ed. Mae’r hyfforddiant yn cael ei hysbysebu yn y Bwletin, Dosbarth Google i Gymorthyddion ac yn Cynnig GwE. Gwahoddir cymorthyddion sydd wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen i ymuno am sesiwn hanner diwrnod yn dymhorol dros TEAMS er mwyn darparu cefnogaeth iddynt gwblhau pob modiwl – mynychodd 12 o gymorthyddion. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn i’r sesiynau hyn. Roedd pob un a gwblhaodd y modiwlau yn nodi bod y cynnwys yn briodol i'w hanghenion a'u lefel sgiliau a’u bod wedi ennill gwybodaeth a sgiliau newydd a fydd yn eu datblygu yn eu rôl. Nododd pob un hefyd y byddent yn argymell yr hyfforddiant i eraill.
Yn dilyn adolygu cynnwys a diwyg y rhaglen **Cymorthyddion Wrth Eu Gwaith** yn genedlaethol yn unol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, dechreuwyd ei defnyddio ar ei newydd wedd gyda chlystyrau o ysgolion. Eleni mae 8 clwstwr wedi cwblhau’r hyfforddiant, 2 glwstwr ar ganol yr hyfforddiant gan gwblhau yn ystod tymor yr haf. Nododd bron y cyfan eu bod wedi ennill gwybodaeth a sgiliau newydd a fydd yn eu datblygu yn eu rôl tra bod pob un yn nodi bod y cynnwys yn briodol i'w hanghenion a'u lefel sgiliau ac y byddent yn argymell yr hyfforddiant i eraill.

Cwblhaodd 25 cymhorthydd y rhaglen **Darpar CALU Cylch 6**, ac fe dderbyniodd 20 cymhorthydd eu statws CALU ym mis Rhagfyr 2023. Cwblhaodd 29 cymhorthydd y rhaglen **Darpar CALU Cylch 7** a byddant yn derbyn asesiad am statws CALU yn ystod tymor yr haf.

Dechreuodd 27 cymhorthydd rhaglen **Darpar CALU Cylch 8**, a byddent yn cwblhau y rhaglen yn ystod tymor yr haf 2024.

Cynhaliwyd sesiwn diweddaru gorfodol ar gyfer **aseswyr** cyn cynnal asesiadau Cylch 5 a 6, gan uwch-sgilio a grymuso CALU ac athrawon sy’n arwain ac yn cefnogi cydweithwyr yn eu lleoliadau. Cynhaliwyd asesiadau Cylch 5 ar gyfer ymgeiswyr gyda 34 yn bodloni y safonau cenedlaethol ar gyfer Statws CALU, sef 100% o’r ymgeiswyr. Cynhaliwyd asesiadau Cylch 6 ar gyfer ymgeiswyr gyda 20 yn bodloni y safonau cenedlaethol

ar gyfer Statws CALU, sef 100% o'r ymgeiswyr. Sicrhawyd ansawdd a phrosesau asesu cadarn drwy sesiynau cymedroli rhanbarthol a chenedlaethol trylwyr a nodwyd bod safon cyffredinol y myfyrdodau yn uwch na'r gorffennol oherwydd safon trafodaethau a rhyngweithio proffesiynol wyneb yn wyneb yn ystod y rhaglen. Mae adborth ffurflenni arfarnu cychwynnol ac yn dilyn y broses asesu yn gadarnhaol iawn gyda bron bob un ateb naill ai yn cytuno neu cytuno'n gryf gyda'r datganiadau.

Comisiynwyd Ysgol benodol i gynnal hyfforddiant OLEVI '**Cymhorthydd Addysgu Eithriadol**'. Cynhaliwyd 5 sesiwn yn yr ysgol gyda 10 cymhorthydd yn bresennol. Gwahoddwyd mentoriaid ysgol y cymorthyddion i sesiwn 5, er mwyn clywed y cymorthyddion yn cyflwyno eu gwaith. Nododd pob un a fynychodd yr hyfforddiant y byddai'r hyfforddiant yn cael effaith cymedrol neu sylweddol ar eu hymarfer yn y dyfodol a derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn ganddynt.

Comisiynwyd Canolfan Dyslecsia Miles, Prifysgol Bangor i ddarparu **hyfforddiant Dyslecsia** i 15 o gymorthyddion, fydd yn arwain at achrediad Statws Ymarferydd Dyslecsia. Cynhaliwyd yr hyfforddiant dros Tymor yr Hydref a Thymor y Gwanwyn. Cynhaliwyd 2 ddiwrnod cyfan a 12 sesiwn hanner diwrnod eisoes.

Comisiynwyd dwy ysgol arbennig i gynnal sesiynau rhannu arferion effeithiol gyda chymorthyddion prif lif. Roedd y sesiynau yn canolbwyntio ar Awtistiaeth, ymddygiad, a dulliau cyfathrebu a dysgu synhwyraidd. Cynhaliwyd sesiwn i 59 cymhorthydd mewn clwstwr lle bu i aelodau o staff un o'r ysgolion rannu arferion effeithiol o ran 'Derbyn Awtistiaeth' (Autism Acceptance) a 'Hunan-reoleiddio ac ymddygiad cadarnhaol' (Self-regulation & positive behaviour). Nododd bron bob un o'r cymorthyddion y byddai'r hyfforddiant yn cael effaith cymedrol neu sylweddol ar eu hymarfer. O ran hyfforddiant i'r dyfodol nododd y mwyafrif yr hoffent dderbyn mwy o hyfforddiant ar ADY ac Ymyraethau,gyda lleiafrif yn nodi yr hoffent dderbyn hyfforddiant ar ymddygiad.

**Rhwydwaith tymhorol i gymorthyddion ac uwch-gymorthyddion** – cynhaliwyd y sesiwn cyntaf dros TEAMS ar Tachwedd 7fed rhwng 3.30 a 4.00pm.. Rhoddwyd cyflwyniad am y Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu, ac fe ofynnwyd i'r cymorthyddion am yr hyn a fyddent yn dymuno ei gynnwys mewn rhwydweithiau yn y dyfodol. Cynhaliwyd ail sesiwn gydag aelod o dîm digidol GwE yn cyflwyno.

Cynhaliwyd **Diwrnod Datblygu CALU** blynyddol yn Venue Cymru ar 11/3/2024. Bu i 100 o uwch-gymorthyddion ar draws y rhanbarth fynychu'r diwrnod. Cafwyd amrywiaeth o stondinau gyda CALU yn rhannu eu harfer dda e.e. sesiynau Ysgol Goedwig gyda rhieni, TIS, Tyfu drwy'r Tymhorau, Ymyraethau ADY, Llysgennad Llyfrgell, hyfforddiant cychwynnol i athrawon, adnoddau digidol. Cafwyd sesiwn i wobrwyo CALU Cylch 5 a 6. Yn ystod y prynhawn cafwyd Lee Parkinson yn rhannu apiau defnyddiol. Dengys adborth i'r diwrnod cymaint y mae ein CALU yn gwerthfawrogi diwrnod i ryngweithio a dathlu eu datblygiad proffesiynol.

**Llyfryn Astudiaethau Achos CALU** – casglwyd astudiaethau achos am 9 CALU llwyddiannus o wahanol sectorau ar draws y rhanbarth. Comisiynwyd aseswyr CALU i ymweld a'r CALU er mwyn llunio'r astudiaethau achos. Fe gaiff y llyfrynnau eu rhannu gydag ysgolion y rhanbarth fel copi papur neu'n digidol er mwyn hyrwyddo llwybrau datblygiad proffesiynol amrywiol cymorthyddion wedi iddynt dderbyn eu statws CALU.

## CYMELL A MENTORA

**Parhau i ddatblygu a gwreiddio diwylliant o gymell a mentora ar draws system addysg Cymru, sy'n darparu pecyn cymorth i helpu i wella safonau addysg yng Nghymru.**
Cyflwynwyd Rhaglen Genedlaethol yn Gymraeg ac yn Saesneg i aelodau UDA, Cydlynwyr ADY a CALU.

Anfonwyd e-bost at bawb sydd wedi cael hyfforddiant yn rhanbarth GwE yn y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf yn gofyn iddynt gwblhau holiadur er mwyn casglu gwybodaeth am wir effaith yr hyfforddiant.

Rhannwyd gwybodaeth am y cymhwyster lefel 3 yn dilyn y sesiynau cenedlaethol, ynghyd â gwybodaeth am gymwysterau lefel 5 a lefel 7 ag ysgolion a staff GwE.

## CYMORTH I LYWODRAETHWYR

Darparwyd cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth o safon uchel i gyrff llywodraethu ar destunau megis hunanarfarnu, data a gwybodaeth, y Cwricwlwm i Gymru, cynllunio ar gyfer gwelliant, Y Gymraeg mewn Addysg, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ac arweiniad ar gyrff llywodraethu effeithiol.

Cefnogwyd cyrff llywodraethu ysgolion i benodi uwch arweinwyr da. Ar ben hynny, rhoddwyd cefnogaeth i gyrff llywodraethu gyda phrosesau rheoli perfformiad Penaethiaid.

Darparwyd cymorth i awdurdodau lleol sicrhau bod gan gyrff llywodraethu gymorth gyda hunanarfarnu a chynllunio datblygiad, gan gynnwys cymorth cyn-arolygiad i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn cyn ac yn ystod arolygiad. Yn ogystal, darparwyd cymorth penodol i gyrff llywodraethu ysgolion sy'n cael eu hadolygu gan Estyn ac ysgolion mewn categorïau statudol fel bo'n berthnasol.

Darparwyd cymorth i hwyluso cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng GwE, yr ALl a SCLl. Mae'r holl randdeiliaid yn elwa ar rannu gwybodaeth.

Roedd cynrychiolaeth o GwE yng nghyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol y Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr (SCLl).

Rhoddwyd cymorth i bob un o chwe ALl y rhanbarth i ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr ar wella ysgolion. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â 2022-23. Roedd cefnogaeth ac arweiniad i lywodraethwyr y chwe ALl yn cynnwys paratoi at gyflwyno'r Fframwaith Gwella Ysgolion ym mis Medi 2024 a fframwaith cymhwysedd llywodraethwyr LlC.

Gyda chefnogaeth GwE, cytunwyd ar raglenni cymorth 2023-2024 â SCLl y 6 ALl o flaen llaw, yn cynnwys darpariaeth benodol i bob ALl. Mae hyn yn welliant ar flynyddoedd blaenorol pan drafodwyd rhaglenni cymorth a chytuno arnynt wrth i'r flwyddyn ysgol fynd yn ei blaen. Mae gwell cynllunio wedi caniatáu i'r SCLl gyhoeddi eu rhaglenni o flaen llaw ac annog llywodraethwyr i fynychu. Mae nifer y llywodraethwyr sy'n mynychu hefyd wedi cynyddu er 2022-2023.

Cyflwynwyd sesiynau hyfforddiant ar-lein i lywodraethwyr mewn pump o'r chwe ALl. Cynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb yn ogystal. Cafwyd adborth cadarnhaol o'r sesiynau hyn, gyda llywodraethwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod â'i gilydd wyneb yn wyneb unwaith eto. Mae effaith gwell cynllunio yn amlwg yn 2023-2024, gyda chynnydd yn nifer y sesiynau a ddarparwyd ar draws yr AauLl a gwell presenoldeb.

## YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU

Bu GwE yn rhan o gyfarfodydd YSD trawsgonsortia gyda chynrychiolwyr LlC. Trafodir yn gyson â'r partneriaid hyn mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Strategaeth Genedlaethol YSD ac yn erbyn y nodau a ganlyn:

- Cynlluniau datblygu ysgolion a lleoliadau yn cael eu bwydo gan ddefnydd hunan feirniadol o hunan arfarnu, ymholi a'r arolwg YSD. Mae ysgolion yn herio eu hunain yn gyson i wella fel sefydliadau sy'n dysgu.
- Mae gan bob addysgwr proffesiynol fynediad at ddysgu proffesiynol sydd wedi'i gynllunio'n dda, sy'n cynnwys cyfuniad o ddulliau a chyfleoedd i fyfyrio, ymholi a chydweithio ar gyfer dysgu.

Er mwyn hyrwyddo'r model YSD ac annog cwblhau'r arolwg YSD, cyflwynodd aelod o dîm GwE y sesiwn dysgu proffesiynol gyntaf mewn cyfres ohonynt ar draws y rhanbarth i godi ymwybyddiaeth y gweithlu o YSD. Roedd hyn yn cynnwys;

- Sut mae'r YSD yn galluogi ysgolion i fodloni'r canllawiau gwella ysgolion
- Paratoi at Estyn yn arolygu'r dyfodol 24-30
- Llywodraethu a'r fframwaith atebolrwydd newydd
- Dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth wasgaredig
- Ymchwil academaidd ac yn seiliedig ar dystiolaeth i lywio'r addysgeg
- Diwylliant o ymddiriedaeth a meddwl gyda'n gilydd
- Defnyddio technoleg ac amser i lywio hunanarfarnu, datblygiad proffesiynol a gyrru gwelliant ysgol.
- Cyflwyno'r holiadur YSD a'i ddefnyddio i lywio strategaeth.
- Cyfle i edrych ar yr holiadur YSD a'i gwblhau

Trefnwyd cyflwyniadau a'u cyflwyno i Aelodau o Gyd-bwyllgor GwE er mwyn hyrwyddo YSD. Roedd y sesiynau hyn yn rhoi'r model YSD mewn cyd-destun yn erbyn y tirwedd addysgol presennol ac yn rhoi gwybodaeth i ystod ehangach o randdeiliaid gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth a niferoedd.

Mae data ymgysylltu â YSD wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd hyd at 04/03/2024. Mae'r data yn nodi fel a ganlyn:

- Ymgysylltiad Athrawon ers mis Medi.
  Medi - Hydref = 24
  Medi - Mawrth = 33

- Cynnydd yn nifer yr Ysgolion sy'n ymgysylltu
  Medi - Hydref = 8
  Medi - Rhagfyr = 10
  Medi - Mawrth = 12

- Cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n ymgysylltu o'r newydd
  Medi – Hydref = 4
  Medi – Mawrth = 7

- Nifer yr ysgolion a gwblhaodd yr arolwg yn 2022/23 ac sydd wedi ailadrodd yr holiadur yn 2023/24
  Medi - Rhagfyr = 4
  Medi – Mawrth = 5

- Non repeat schools 23/24
  Medi - Rhagfyr = 15
  Medi – Mawrth = 14

Mae'r YCG sydd yn gyfrifol am hyrwyddo YSD wedi gofyn i Benaethiaid gwblhau arolwg yn gwerthuso eu profiad o'r arolwg YSD a'i effaith ar arferion. Bydd y canfyddiadau yn cael eu cyfleu i LlC a'r Grŵp Trawsranbarthol er mwyn llywio diwygiadau posib i'r holiadur a'r adnoddau YSD ar HWB.

Trawsranbarthol er mwyn llywio diwygiadau posib i'r holiadur a'r adnoddau YSD ar HWB.

**RHAGLEN PARTNERIAETH YSGOLION**

Mae holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi.Hyfforddwyd 13 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gychwynnol yn ystod Hydref 2021 fel cyflwynwyr rhaglen, ac yn dilyn rhaglen o gysgodi hyfforddiant yn ystod Ebrill 2022 fe gyflwynwyd y rhaglen gyntaf o hyfforddiant RhPY wedi ei hwyluso yn llwyr gan staff GwE yn i gohort 3b yn ystod Mis Mai 2022. Erbyn diwedd Mis Mawrth 2024, mae 20 Ymgynghorwr Cefnogi Gwelliant ychwanegol wedi derbyn hyfforddiant fel cyflwynwyr rhaglen, golyga hyn fod trideg tri o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant bellach a’r gallu i gyflwyno’r rhaglen partneriaethau ysgolion yn llwyddiannus. Yn dilyn y cynnydd hwn mewn cynhwysedd i gyflwyno’r rhaglen fe ddarparwyd hyfforddiant cychwynnol i 90 o ysgolion yn cohort 3C gan y tîm o hwyluswyr GwE.

Erbyn diwedd Mis Mawrth 2024, mae 46 clwstwr/ cynghrair (255 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ac maent wedi mynd ati eisoes, neu’n paratoi, i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid. Mae 329 o benaethiaid / uwch arweinwyr wedi’u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 290 o uwch arweinwyr / arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi’u hyfforddi fel ‘hwyluswyr gwelliant’. Bu hyn yn fodd i’r arweinwyr a’r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon uchel a byddai’n cyfrannu tuag at wella’r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Bu i’r tair haen gyntaf o ysgolion sydd ynghlwm dderbyn hyfforddiant ymestynnol ar gyfer eu hwyluswyr gwelliant ac hyfforddiant i ddatblygu arweinyddiaeth cydweithredol erbyn Mis Mawrth 2024 gyda’r ffocws ar ddatblygu'r defnydd cynyddol ac effeithiol o ymchwil yn eu gweithdai gwelliant. Yn ogystal, darparwyd cyfleoedd ar draws y rhanbarth i ysgolion a phartneriaethau ehangu ar eu cynhwysiant i weithredu’r rhaglen drwy hyfforddi hwyluswyr gwelliant ychwanegol.

Mae’r rhaglen yn cyd-fynd â’r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso’u cynnydd wrth gyflawni’r daith ddiwygio. I’r perwyl yma mae cyfres o gwestiynau adlewyrchol gyda ffocws ar y daith diwygio wedi eu ffurfio i gyd fynd a’r broses gymheiriol, ac fe gyfeirir ysgolion sy’n derbyn yr hyfforddiant at yr ysgogiadau cwricwlwm sy’n rhan o’r Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwerthuso a Gwella.

Ym mis Ionawr 2023, estynnwyd gwahoddiad i ysgolion a chlystyrau nad oedd eisoes yn rhan o’r rhaglen fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion fel rhan o garfan 4. Cafwyd cyfanswm o 43 o ysgolion yn mynegi diddordeb. Golyga hyn erbyn diwedd Mis Mawrth 2024 felly, fod tu hwnt i hanner o ysgolion y rhanbarth wedi derbyn yr hyfforddiant cychwynnol a bellach yn neu wedi dechrau ar eu gwaith adolygu a chynllunio gwelliant gyda chymheiriaid.

Fel rhan o’n partneriaeth gyda’r “*Education Development Trust*” fe rannwyd holiaduron cychwynnol gyda’r holl ysgolion sydd yn rhan o’r Rhaglen Partneriaethau Ysgolion. Dengys dadansoddiad ymchwilydd EDT o’r ymatebion fod 77% o Benaethiaid yn datgan fod eu profiad o’r rhaglen yn dda neu’n wych tra bod 100% o athrawon yn datgan fod eu partneriaeth gydag ysgolion eraill yn gryf neu’n gryf iawn yn dilyn y rhaglen. Mae pedwar clwstwr / cynghrair o ysgolion wedi eu clustnodi i’w cynnwys mewn cyfweliadau cynhwysfawr gyda’r ymchwilydd fydd yn arwain at ddatblygu astudiaethau achos i graffu ymhellach ar effaith y rhaglen yn y flwyddyn 2023-24.

Erbyn diwedd Mis Rhagfyr 2023 mae cytundeb y rhanbarth gyda’r “Education Development trust” yn dirwyn i ben. Bydd y gwaith o werthuso effaith y Rhaglen yn parhau i gael ei gwblhau gan uwch ymchwilydd EDT. Yn unol a’r cytundeb gwreiddiol mae’r arweinydd rhanbarthol ar y rhaglen ynghyd a rhai o hwyluswyr

GwE wedi craffu ar yr hyfforddiant a'i addasu er mwyn ymateb yn uniongyrchol i ofynion Canllaw Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru. Bwriad y gwaith hwn ydoedd darparu ar gyfer ysgolion y rhanbarth sydd heb dderbyn hyfforddiant y RhPY hyd yn hyn yn cynnwys ar ei newydd wedd fel rhan o ddarpariaeth y rhanbarth ar gyfer y Canllaw yn 2024.
Erbyn diwedd Mis Rhagfyr 2023 mae cytundeb y rhanbarth gyda'r "Education Development trust" yn dirwyn i ben. Bydd y gwaith o werthuso effaith y Rhaglen yn parhau i gael ei gwblhau gan uwch ymchwilydd EDT. Yn unol a'r cytundeb gwreiddiol mae'r arweinydd rhanbarthol ar y rhaglen ynghyd a rhai o hwyluswyr GwE wedi craffu ar yr hyfforddiant a'i addasu er mwyn ymateb yn uniongyrchol i ofynion Canllaw Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru. Bwriad y gwaith hwn ydoedd darparu ar gyfer ysgolion y rhanbarth sydd heb dderbyn hyfforddiant y RhPY hyd yn hyn yn cynnwys ar ei newydd wedd fel rhan o ddarpariaeth y rhanbarth ar gyfer y Canllaw yn 2024.

Mae trafodaethau gydag un o'r awdurdodau wedi arwain at gynllunio i ddarparu hyfforddiant hwyluswyr gwelliant ar gyfer arweinyddion Anghenion Dysgu Ychwanegol ym mhob clwstwr.

Bellach, mae dros hanner ysgolion y rhanbarth wedi eu hyfforddi yn nulliau y RhPY ac gyda'r gallu felly i ddefnyddio medrau adolygu cymheiriaid a hwyluso gwelliant gyda hyder.

Canlyniadau arolwg o ysgolion yn arddangos fod canran uchel iawn yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant ac yn adrodd fod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu cydweithio gyda chymheiriaid.

## 7. PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**

- bron pob ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'r grantiau amrywiol ac mae'r rhan fwyaf wedi cyflogi neu ymestyn oriau athrawon neu gynorthwywyr er mwyn targedu grwpiau ac unigolion mewn llythrennedd, rhifedd a lles.
- nifer dda o ysgolion wedi cael mynediad at hyfforddiant penodol megis sesiynau llesiant Ysgolion syn wybodus o Drawma, ac ati.
- ystod o ganllawiau ac adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni.

**AMCAN 5 – PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB**

**Blaenoriaethau:**

**5.1 Cefnogi lles a gwytnwch staff**
**5.2 Cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio.**
**5.3 Cefnogi ysgolion i ddarparu tegwch i bawb trwy fynd i'r afael â difreintedd a chael perthynas gadarn efo rhieni/gofalwyr yn eu cymunedau.**

**PDG / LAC**

**Cefnogi'r gwaith o barhau i gyflwyno dysgu proffesiynol i gefnogi dysgwyr difreintiedig a bregus.**
Mae GwE yn parhau i ddarparu hyfforddiant Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (TIS) ar draws y rhanbarth i gefnogi dysgwyr difreintiedig a bregus. Daeth diploma TIS GwE 14 ac 15 i ben ar ddiwedd y chwarter ac mae GwE 16 ar-lein wedi dechrau sydd bellach yn hyfforddi 24 o ymarferwyr yn rhagor. Yn sgil yr

hyfforddiant bydd gan ysgolion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arferion sy'n ystyriol o drawma a sut gallant helpu dysgwyr bregus a difreintiedig. Mae 14 ymarferydd yn rhagor wedi dechrau'r hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein

Rhannwyd y canllawiau GDD/GDD-PMG newydd ag YCG er mwyn cefnogi eu gwaith mewn ysgolion a sgyrsiau am ddefnyddio grantiau GDD a GDD-PMG.Fel rhan o ymweliadau'r YCG mae mwy o bwyslais ar sut mae ysgolion yn cefnogi eu dysgwyr bregus, a sut mae'r ysgol yn monitro'r cynnydd a wna dysgwyr.

Mae aelod o dîm GwE yn mynychu cyfarfodydd tymhorol gyda Chydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, Cyfle Cynnar ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) ac arweinwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn gwybod beth mae'r naill a'r llall yn ei gynnig, ac yn helpu i atal dyblygu gwaith o ran cynigion Dysgu Proffesiynol. Bydd hyn hefyd yn helpu i fonitro effaith y gwaith a wneir ac effaith cynlluniau ysgolion ar gyfer eu gwariant GDD-PMG a sut mae hyn yn cael ei ddal. Trefnir cyfarfodydd gyda Chydlynwyr Plant mewn Gofal i adolygu gwariant GDD-PMG.

Mae'r model clwstwr o weithio efo GDD-PMG yn fodd i glystyrau fod yn fwy creadigol gyda sut defnyddir y grant i gefnogi disgyblion ar draws y dalgylch.

Mae Prifysgol Bangor yn cychwyn treialu'r strategaeth ar-lein i rieni, sef 'COping', sy'n gweithio gyda gofalwyr plant sy'n derbyn gofal ac ysgolion. Anfonwyd holiadur cychwynnol i ysgolion er mwyn i rieni ymateb iddo. Bydd hyn yn helpu rhieni i ddatblygu eu sgiliau magu plant mewn amrywiol ffyrdd.

**Parhau i weithredu rhaglen Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Ddifreintiedig (RADY) ar draws y rhanbarth**
Bwriad y rhaglen hirdymor hon yw cefnogi ysgolion i roi sylw i effaith difreintedd ar eu dysgwyr gan ddefnyddio'r dull 'tegwch nid cydraddoldeb'. Cynhaliwyd cyfarfod RADY cychwynnol ar-lein, ac mae'n rhan o ymrwymiad GwE i'r Flaenoriaeth Genedlaethol ar gyfer Iechyd, Lles a Thegwch.

Bydd egwyddorion a dulliau RADY yn addas i bob dysgwr. Mae egwyddorion RADY yn seiliedig ar 'wneud rhywbeth gwahanol' drwy::

- Godi Ymwybyddiaeth o Bobl Ifanc Difreintiedig
- Codi Dyheadau Dysgwyr Difreintiedig
- Codi Disgwyliadau Pobl Ifanc Difreintiedig

Mae rhoi rhaglen RADY ar waith yn dull gweithredu haenedig. Mae'r rhaglen hon yn ymrwymiad hirdymor ac ni ddylai ysgolion ddisgwyl gweld effaith ar ddeilliannau dysgwyr difreintiedig yn syth. Er hynny, buan iawn y gwêl ysgolion effaith ar ymddygiad dysgwyr a staff, gan ddod i ddeall canlyniadau difreintedd ar ddysgwyr, ac ar ganfyddiadau a pherthnasoedd. Bydd hyn yn cyfrannu maes o law at newid diwylliant mewn ysgolion a gaiff effaith ar ddeilliannau dysgwyr yn y pendraw.Mae 14 ysgol wedi cofrestru ar gyfer cyflwyno RADY am y tro cyntaf, gan weithio gydag Uwch Arweinwyr i wreiddio system o ddysgu ac addysgu a disgwyliadau o safon uchel. Mae'r ysgolion sydd yn cymryd rhan yn dechrau gweld arwyddion cynnar o welliant gyda dull gweithredu sy'n plethu disgyblion bregus drwy ddatblygiad a gwelliant ysgol. Yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, mae angen mesur effaith y cymorth ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar les disgyblion. Cesglir yr wybodaeth hon drwy ymweliadau ysgolion a chofnodir yr effaith yn adroddiadau monitro nesaf a therfynol y Cynllun Busnes Iechyd a Lles. Gwelir effaith y rhaglen hon yn y tymor hwy. Bydd asesiad effaith llawn yn cymryd amser, ac mae consortia eraill yn adrodd mai rhwng 3 a 5 mlynedd yw'r amserlen fwyaf tebygol ar gyfer gweld gwir effaith a chanlyniadau. Mae adnoddau RADY bellach wedi'u cyfieithu, a gellir eu cyflwyno yn awr ar draws y rhanbarth.

**Rhaglen Dysgu ac Addysgu i Gefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig (SVL) - datblygu gweithlu medrus gyda ffocws ar ddysgu ac addysgu o safon uchel i gefnogi dysgwyr bregus trwy lwyfan dysgu ar-lein Cenedlaethol.**
Mae Adnodd Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgwyr bregus wedi'i lansio. Mae'r rhaglen hon yn agored i staff o ysgolion ac Awdurdodau Lleol gogledd Cymru. Ffocws y rhaglen yw 'Sut ydych chi'n cyflawni tegwch yn y dosbarth i Ddysgwyr Bregus a Difreintiedig?' Wedi'i chomisiynu gan y Consortia, a'i darparu ar gyfer ysgolion a lleoliadau yng Nghymru yn unig, mae Cefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig trwy Ddysgu ac Addysgu Effeithiol yn rhaglen gymorth broffesiynol bwrpasol a chynhwysfawr sydd yn tynnu ynghyd strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn helpu ymarferwyr i gyfoethogi a gwreiddio arferion dosbarth effeithiol. Yn dilyn lansio'r deunyddiau ym mis Chwefror, cyflwynodd Mike Gershon dri sesiwn ym mis Mai 2023 gan dywys Uwch Arweinwyr drwy'r rhaglen.

Dyma fanteision y rhaglen:
- Cefnogi dysgwyr bregus a difreintiedig trwy ddatblygu a chyfoethogi dysgu ac addysgu
- Cadw dysgu ac addysgu ar frig yr agenda
- Ysbrydoli athrawon i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol am eu harferion
- Rhoi'r adnoddau i athrawon y gallant eu defnyddio i ddatblygu eu harferion
- Hwyluso a chynnal arferion arloesol o fewn dosbarthiadau

Ceir yr holl adnoddau yma www.supportingvulnerablelearners.cymru ac maent yn gwbl ddwyieithog. Crëwyd fideo i hyrwyddo'r adnodd sydd newydd gael ei lansio ac fe'i rennir ar draws Cymru ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol ac mewn bwletinau.

Mae 7 ysgol wrthi'n treialu'r adnodd hwn fel rhan o'u cynllun datblygu ysgol. Cawsant gyfle i drafod yr adnodd efo'r datblygwr, a roddodd arweiniad iddynt ar y dull mwyaf effeithiol o'i ddefnyddio. Bydd y 7 ysgol yn creu astudiaeth achos fideo i'w rhannu'n genedlaethol. Cwblhawyd 3 podlediad a bydd y gweddill wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Ebrill 2024. Crëwyd fideo i hyrwyddo'r Adnodd, ac fe'i rhannwyd ar draws Cymru.

## LLES Y GWEITHLU (GwE AC YSGOLION)

**Cefnogi efo llesiant staff ysgolion ar draws y rhanbarth.**
Mae lles ein plant a'n gweithlu yn parhau yn flaenoriaeth, ac rydym ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles ein staff mewn ysgolion a'n plant a'n pobl ifanc ar draws y rhanbarth. Mae Penaethiaid yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt o ran darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion a chlystyrau i ddatblygu eu darpariaeth. Nododd bron bob Pennaeth bod hwyluso cyfarfodydd clwstwr wedi bod yn eithriadol o bwysig er mwyn rhannu syniadau ac arferion da. Nodwyd hefyd bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

**Cefnogi efo llesiant uwch arweinwyr mewn ysgolion trwy ddarparu 'Lle i Fyfyrio', cyfarfodydd grŵp ac i unigolion, fel bo'r angen.**
Trefnwyd sesiynau 'Lle i Fyfyrio' ar gyfer ysgolion, ac mae hyn yn dal i gael effaith gadarnhaol ar draws y rhanbarth wrth i ni barhau i weld galw am y math hwn o gymorth. Hwylusir y sesiwn trwy gyfrwng ystafelloedd trafod a model myfyrio a gwrando penodol i ddilyn. Fel hyn, bydd strwythur i gyd-weithwyr ei ddilyn, a chyfle hefyd iddynt wrando a myfyrio gyda'u cymheiriaid.

| STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI / GOFALWYR |
|---|

**Gwella ymgysylltiad rhieni**
Mae'r Awdurdodau Lleol a GwE wedi darparu ystod o ganllawiau ac adnoddau o safon uchel i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, ac wedi gweithio hefyd â Mike Gershon i hwyluso mynediad rhieni at ddeunyddiau safonol fel eu bod hwythau'n gallu cefnogi eu plant. Mae ymateb cadarnhaol wedi bod i ddeunyddiau 'Helpu Eich Plentyn i Ddysgu', 'Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu' ac i'r adnodd 'Adolygu hefo Mike'. Mae'r ystod o strategaethau adolygu hefyd wedi dylanwadu ar arferion llawr dosbarth athrawon wrth iddynt baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau diwedd blwyddyn. Sefydlwyd grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth o GwE a phob un o'r AauLl i arwain, rheoli a chydlynu'r maes cefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysgu eu plant.

Mae grŵp bach o 5 Cymhorthydd Dysgu wedi creu adnoddau ymgysylltu â theuluoedd. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys 4 sesiwn 1-1.5 awr y gall cymorthyddion eu cyflwyno gyda rhieni a'u plant yn yr ysgol. Maent yn seiliedig ar adnoddau 'Helpu eich Plentyn i Ddysgu' Mike Gershon. Cynlluniwyd y pecynnau i'w defnyddio gydag ychydig iawn o waith paratoi. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer mis Tachwedd i ddatblygu astudiaeth achos gan yr ysgolion sydd wedi creu'r Adnodd. Gwahoddir yr ysgolion a ddatblygodd yr adnodd i rannu'r adnoddau a'u profiadau mewn cyfarfodydd Rhwydwaith. Mae'r Grŵp bellach yn ystyried sut i wneud y pecyn yn fwy hylaw i rieni. Maent yn gweithio ar set o ffeiliau sain efo cod QR i'w gwneud hyd yn oed yn fwy hwylus i bob rhiant. Rhannwyd pecynnau yn y gynhadledd CALU a chafwyd adborth da. Cwblheir astudiaeth achos o hyn i'w rhannu ag ysgolion eraill a'i defnyddio i hyrwyddo'r adnoddau. Gwahoddir yr ysgolion a ddatblygodd yr adnodd i rannu'r adnoddau a'u profiadau mewn cyfarfodydd Rhwydwaith.

Mae ysgol sydd wedi gwella ymgysylltu â theuluoedd trwy waith y swyddog ymgysylltu wedi llunio astudiaeth achos. Adnabuwyd arferion yr ysgol fel arferion rhagorol a bydd hyn yn cael ei hyrwyddo drwy GwE, ond bydd hefyd yn cael ei rannu â'r Grŵp Tegwch Cenedlaethol a TIS UK.

Mae rhwydwaith i gefnogi gweithwyr ymgysylltu â theuluoedd wrthi'n cael ei drefnu. Diben hwn fydd rhannu arfer da a hwyluso cyfleoedd i drafod unrhyw faterion cyffredin ac awgrymu hyfforddiant i'r dyfodol.

Mae Prifysgol Bangor yn cychwyn treialu'r strategaeth ar-lein i rieni 'COPING', sy'n gweithio gyda gofalwyr plant sy'n derbyn gofal ac ysgolion. Anfonwyd holiadur cychwynnol i rieni i ysgolion. Bydd hyn yn helpu rhieni i ddatblygu eu sgiliau magu plant mewn amrywiol ffyrdd.

Mae Buddsoddwyr mewn Teuluoedd yn cael ei hyrwyddo yn y rhanbarth fel adnodd i helpu i ddatblygu Ysgolion Bro a sut mae hyn yn cefnogi'r disgyblion mwyaf bregus. Mae cyfarfod ag arweinwyr CFS i bob ALl ar y gweill. Mae rhwydwaith o weithwyr ymgysylltu â theuluoedd wedi'i greu. Byddwn yn cyfarfod yn fuan i weld sut y gallwn eu cefnogi i hyrwyddo eu gwaith a datblygu Cymuned Dysgu Proffesiynol efo nhw.

Mae'r Grŵp Tegwch Cenedlaethol wrthi'n creu rhaglen Genedlaethol ar ddatblygu strategaeth dlodi, i'w chyflwyno i Uwch Arweinwyr ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys yr elfen ymgysylltu â rhieni.

## 8. MAE CYMRAEG YN PERTHYN I BAWB

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**

- Gwefan 'Ein Llais Ni' yn parhau i gael ei datblygu a bellach yn adnodd cenedlaethol ar gyfer hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith.
- Cyfarfodydd rhwydwaith yn arwain at rwydweithio rhwng ysgolion unigol, o fewn eu cynghrair ac ar draws y rhanbarth
- Gweithgorau traws-ranbarthol - Mae partneriaethau cyd-weithio cadarn iawn yn eu lle a chyfeiriad clir a phwrpasol wedi'w gosod i gael darpariaeth gytûn ledled Cymru.

**AMCAN 6 – MAE CYMRAEG YN PERTHYN I BAWB**

**Blaenoriaethau:**

6.1 Helpu ysgolion i gynllunio'r fwriadus er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru.
6.2 Hyrwyddo dysgu Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu.
6.3 Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'

**Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

**Cynorthwyo ysgolion i gynllunio'n fwriadus er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru.**
Cyflwynwyd rhaglen ar gyfer arweinwyr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg am achrediad mewn cyfarfod â phanel o'r AGAA (NAEL) a derbyniwyd cymeradwyaeth yr Academi i'r ddarpariaeth. Mae'r rhaglen hefyd yn berthnasol i ysgolion Trosiannol 2 sy'n cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i fod yn ysgolion dwy iaith. Mae un sesiwn wedi ei gynnal yn genedlaethol gyda adborth i'r hyfforddiant yn hynod gadarnhaol. Yn dilyn y sesiwn, cynhaliwyd sesiwn rhithiol i Swyddogion yr Awdurdodau er mwyn tynnu sylw pellach at y rhaglen a'i gynnwys. Mae angen cytundeb cenedlaethol ar y dull o ddarparu'r rhaglen yma yn ystod y flwyddyn 2024-25 ac i'r dyfodol gan fod rhaglen gyffelyb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwy iaith wedi'u ddatblygu yn ogystal ag ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

Yn ogystal â'r rhaglenni cenedlaethol ar gyfer arweinwyr mewn ysgolion, mae Arweinwyr Strategol y Gymraeg yn genedlaethol wedi datblygu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer Llywodraethwyr ac ar gyfer Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant – mae YCG GwE wedi cynnal dwy sesiwn rithiol ar gyfer Llywodraethwyr y gogledd, yn ystod tymor y gwanwyn a'r adborth wedi bod yn ganmoladwy. Dyma ychydig o'r sylwadau rannwyd:

- *Braf iawn oedd cael cysylltu â llywodraethwyr eraill a hwyluswyr yr hyfforddiant ar-lein, cael rhagor o wybodaeth a dealltwriaeth o ba adnoddau sydd ar gael i hybu'r Gymraeg yn ein hysgolion ac i gael golwg ar arferion presennol.*
- *Rwyf wedi cael f'atgoffa bod llawer o waith da yn digwydd ar hyn o bryd a bod dysgwyr at ei gilydd yn agored iawn i ddysgu ieithoedd ac yn frwdfrydig am y mwynhad sydd i'w gael o ddysgu ieithoedd, a'i bod yn bwysig deall iaith a diwylliant y wlad lle'r ydym ni'n byw. Rwyf yn fwy ymwybodol o'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i mi fel llywodraethwr.*

<u>**Cynnig DP Y Gymraeg**</u>
- Mae'r cynnig wedi ei lunio ac ar gael i ysgolion (2023-24).
- ·Cynhaliwyd Cynhadledd 'Ein Llais Ni' ar gyfer dros 100 o ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion ar draws y rhanbarth. Gwahoddwyd ymarferwyr sy'n dilyn cwrs Sabothol Cymraeg mewn Blwyddyn a 46 o fyfyrwyr AGA cyfrwng Cymraeg a Saesneg Prifysgol Bangor hefyd.
- Rhwydwaith i Arweinwyr y Gymraeg uwchradd a Rhwydweithiau cydlynwyr llythrennedd uwchradd ac arweinwyr y Gymraeg yn cael eu cynnal yn dymhorol.

- Mae Rhwydwaith cariad@ddarllen tymhorol wedi ei gynnal ac adborth gwerthfawr yn dilyn y sesiwn. Mae YCG y Gymraeg a Llythrennedd wedi cael gwahoddiad i gefnogi ysgolion er mwyn gallu rhoi arweiniad ar gynnwys rhieni yn y broses o hybu darllen ac arferion llwyddiannus yn cael eu rhannu.

**Gweithgorau traws-ranbarthol**
Mae partneriaethau cyd-weithio cadarn iawn yn eu lle a chyfeiriad clir a phwrpasol wedi'w gosod i gael darpariaeth gytûn ledled Cymru. Mae'r wefan traws-ranbarthol wedi'i phoblogi ar gyfer rhan gyntaf y gwaith gan y gweithgorau gyda'r bwriad o rhannu'r cynnwys yn fyw ar wefan y Rhanbarthau yn nhymor yr haf. Gan fod cryn ansicrwydd ynglŷn a'r cyfeiriad nesaf o ran cefnogaeth i ysgolion, nid yw'n bosib cynllunio ymlaen ar gyfer datblygu ymhellach ar hyn o bryd.

Mae 'Ein Llais Ni' yn rhan o adnoddau gwefan traws-rhanbarthol 'Llunyddiaeth' (Ionawr 2024) sef gwefan genedlaethol o adnoddau i gefnogi trafod y ffilmiau newydd a gyflwynwyd ar fanyleb TGAU Llenyddiaeth Gymraeg (Uned 3 – Arholiad llafar).

**Rhannu arferion llwyddiannus**
Mae rhannu arferion llwyddiannus yn cynnwys :
- bore agored mewn ysgolion yn rhannu gweledigaeth penaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Y Gymraeg yn y Bwletin – adran benodol yn y Bwletin yn hyrwyddo cefnogaeth, gwybodaeth a darpariaeth ar gyfer holl agweddau'r maes yn cael ei boblogi yn barhaus. Mae hyn yn arwain at gynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Mae darpariaeth genedlaethol yn cael ei hyrwyddo yn ogystal.
- Cyd-weithio gyda Phrifysgol Bangor – YCG GwE yn rhan o Fwrdd Llywio'r rhaglen RILL ac yn hyrwyddo'r gwaith yn rhanbarthol a chenedlaethol. Ymwybyddiaeth gadarn iawn o'r datblygiadau.

**Hyrwyddo dysgu Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu**
Mae Rhestr Chwarae dwyieithog CYNLLUNIO DATBLYGIAD IAITH GYMRAEG I YMARFERWYR wedi ei rannu drwy Bwletin GwE er mwyn cefnogi arweinwyr ysgolion i adrodd yn gywir ar sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr yn erbyn y Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg wrth gwblhau Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) ac i gynllunio dysgu proffesiynol addas i ddatblygu cymhwysedd iaith pob ymarferydd yn strategol.

Mae gwybodaeth i ymarferwyr gryfhau eu sgiliau ieithyddol Cymraeg neu'n gyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg yn eitem barhaus yn y Bwletin. Mae 14 (uchafswm nifer) yn dilyn y Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn ar gyfer 2023-24. Parheir i hysbysebu ac hyrwyddo yn y flwyddyn newydd drwy amrywiol ffynonellau.

Mae'r Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn wedi'i hyrwyddo ar gyfer 2024-25 a ffigwr anhygoel o uchel 38 wedi ymgeisio ar gyfer 14 lle. Yr Awdurdodau Lleol sy'n yn gyfrifol am flaenoriaethu'r ceisiadau o'u awdurdod a'r broses gyfweld yn digwydd yn ystod Ebrill 2024.

**Datblygu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter iaith' a 'Siarter Iaith Cymraeg Campus'**
Mae Ysgol Uwchradd wedi derbyn achrediad Gwobr Efydd Siarter Iaith Cymraeg Campus Uwchradd (GwE), yr ysgol uwchradd gyntaf yn y rhanbarth i dderbyn y wobr hon. Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn yr ysgol a chafwyd taith o amgylch yr ysgol yn amlygu'r holl waith clodwiw tuag at dderbyn yr achrediad. Yn dilyn hyrwyddo'r digwyddiad, mae ysgolion uwchradd yn mynegi diddordeb ar gyfer dechrau eu taith Siarter Iaith. Mae diwrnod agored pellach wedi ei gynllunio ar gyfer tymor yr haf. Ceir cyfarfodydd cenedlaethol rheolaidd dan arweiniad Llywodraeth Cymru er mwyn llunio canllawiau gweithredu cenedlaethol.

## EIN LLAIS NI

Pwrpas Ein Llais Ni yw amlygu pwysigrwydd llafaredd yn y cwricwlwm yng nghyd-destun y Gymraeg (ar draws yr ystod oedran cyfan) a chynnig syniadau am strategaethau y gall ysgolion/athrawon eu datblygu i annog a hybu sgiliau siarad a gwrando dysgwyr. Datblygwyd y gwaith ar y cyd ag ysgolion ar draws rhanbarth gogledd Cymru a Phrifysgol Bangor, gyda'r Athro Enlli Thomas, sy'n arbenigwr rhyngwladol ar hybu sgiliau llafaredd a strategaethau addysgu dwyieithog, yn arwain y gwaith ymchwil ymarferol. Mae gwefan Ein Llais ni yn wefan gyhoeddus.

Mae Swyddogion Prosiect yn parhau i gysylltu ac ymweld ag ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd ac uwchradd gan gynnwys parhau i gynnal rhwydwaith a chefnogi clystyrau. O ganlyniad, mae'r gefnogaeth yn cael ei mireinio ac ansawdd y sesiynau Dysgu Proffesiynol yn derbyn adborth llwyddiannus ac yn cyd-fynd â'r hyn y mae ysgolion yn dymuno ei ddatblygu.

Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer gweithdai cenedlaethol sydd i'w cynnal yn y 4 rhanbarth arall yn nhymor yr haf yn mynd rhagddo yn effeithiol.

Parheir i hyrwyddo'r gefnogaeth, y wefan a dulliau addysgu llafaredd llwyddiannus mewn amrywiol fforymau e.e. cyfarfod cydlynwyr iaith, sesiynau HMS clwstwr. Mae gweithdai ar draws y rhanbarth wedi'w cynnig er mwyn hyrwyddo ymhellach. Mae gwaith cynllunio yn mynd rhagddo i arwain athrawon ar draws Cymru i wneud defnydd effeithiol o'r wefan gan gynnwys tynnu sylw at y map safle a'r adrannau sy'n berthnasol i wahanol gynulleidfaoedd e.e. ymarferwyr ac arweinwyr

Mae cytundeb cenedlaethol drwy raglen cyd-weithio Arweinwyr Strategol y Gymraeg i ddynodi Ein Llais Ni fel yr adnodd i'w gynnwys ar y wefan cefnogi ysgolion yn genedlaethol ac ar gael i ysgolion cynradd a'r uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwy iaith.

Parheir i ddarparu hyfforddiant ar amrywiol agweddau o ddatblygu medrau llafar ar gais YCG i glystyrau neu drwy Gynnig Dysgu Proffesiynol GwE. Mae'r adborth yn dilyn y sesiynau yma yn gadarnhaol iawn gyda phob ymarferydd yn nodi fod yr hyfforddiant wedi bod yn fuddiol neu'n fuddiol iawn.

Rhoddir cefnogaeth gwahaniaethol i athrawon pynciol/cynradd ac uwchradd/athrawon anarbenigol fel rhan o'r ddarpariaeth i gefnogi athrawon drwy:

- cynllunio a chynnal HMS i athrawon pynciau STEM ar bwysigrwydd datblygu llafaredd disgyblion mewn pynciau tu hwnt i'r Gymraeg a chyflwyno strategaethau Ein Llais Ni ar gyfer tasgau STEM penodol.
- cyfarfod athrawon er mwyn edrych ar gynlluniau gwaith ag adnabod cyfleoedd i ymgorffori tasgau llafaredd er mwyn cyfoethogi pwnc STEM dan sylw.
- cyflwyno syniadau ar sut i ddatblygu strategaethau Ein Llais Ni ar draws ysgol gyfan a sut i'w addasu i weithio o fewn pynciau STEM yn ystod rhwydwaith

Ceir adborth cadarnhaol o'r rhwydweithiau/sesiynau HMS/ymweliadau gydag ysgolion neu glystyrau:

- Pob mynychwyr wedi gweld yr hyfforddiant yn werthfawr neu werthfawr iawn
- Roedd y mynychwyr yn gwerthgawrogi'r cyfle i edrych ar strategaethau, trafod eu defnydd, perthnasu strategaethau i'w cynlluniau a chael cyfle i ymarfer rhai strategaethau yn ystod yr hyfforddiant.
- Roedd pob mynychwr yn ystyried y wefan yn adnodd gwerthfawr neu werthfawr iawn
- Fel camau nesaf yn dilyn yr hyfforddiant, nodwyd y bwriad i dreialu strategaethau yn eu dosbarth, gwneud defnydd pellach o wefan Ein Llais Ni, cyflwyno egwyddorion Ein Llais Ni ar draws yr ysgol a chynllunio i gynnwys strategaethau o fewn eu cynlluniau.

Mae cynlluniau yn eu lle ar gyfer cyhoeddi adroddiad academaidd ar ddiwedd y prosiect. Mae holiadur wedi'i lunio ac yn y broses o gael ei wirio ar gyfer rhannu yn ystod tymor yr haf 2024.

Mae'r Bwrdd Llywio yn parhau i gyfarfod yn chwarterol ac wedi addasu aelodaeth y Bwrdd er mwyn adlewyrchu'r cyfeiriad ar gyfer rhan nesaf y prosiect.

**Îs-brosiect 1: ymestyn y gefnogaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith**
Cynhaliwyd ail sesiwn rhwydwaith i barhau â'r gefnogaeth i ysgolion ar 22/01/24. Canolbwyntiwyd ar ddatblygu technegau myfyrio dysgwyr ac athro gan ddefnyddio adnodd newydd Llafaredd Llwyddiannus. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gyda phob athro yn gweld gwerth i ddatblygu llafaredd.

Mae'r Swyddogion Prosiect yn parhau i gefnogi'r athrawon arweiniol wrth iddynt baratoi a rhannu effaith eu gwaith er mwyn modelu arfer llwyddiannus. Maen nhw wedi ymweld ag ysgolion i gynnig cefnogaeth i'r athrawon arweiniol a gosod dyddiadau er mwyn derbyn enghreifftiau o arferion da. Bydd yr enghreifftiau hyn yn ymddangos ar y wefan i boblogi adran Enghreifftiau o Ysgolion.

Mae 3 dyddiad wedi eu cynllunio i gyflwyno Ein Llais Ni yn Genedlaethol yn Mehefin/Gorffennaf. 24/06/24 - CCD a EAS. 08/07/24 - Partneriaeth. 09/07/24 - Ceredigion a Powys. Mae llyfryn sy'n ganllaw i weithredu'r rhaglen wedi'w lunio er mwyn cefnogi ymhellach.

Mae'r Swyddogion Prosiect wedi mapio'r ysgolion sydd wedi blaenoriaethu'r Gymraeg neu llafaredd y Gymraeg yn 2023-24 er mwyn hyrwyddo'r gwaith ymhellach. Cysylltwyd gyda nifer o'r ysgolion i drefnu cefnogaeth a chydweithio pellach. Mae 18 sesiwn datblygiad proffesiynol Ein Llais Ni wedi cael eu cynnig ers dechrau Ionawr. Cafodd 17 ysgol ychwanegol gefnogaeth unigol a tri chlwstwr o ysgolion cynradd-uwchradd. Cafodd myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Bangor (4) gyflwyniad i Ein Llais Ni a chyfle i greu tasgau llafar. Mae clwstwr penodol yn gweithio ar greu llyfryn o eirfa Haen 2 ar draws yr holl gamau cynnydd a myfyrwraig TAR sydd yno ar hyn o bryd yn enghreifftio Ein Llais Ni mewn gwersi Iechyd a Lles. Dewiswyd Ein Llais Ni fel trywydd ymholi ar gyfer ei hastudiaeth TAR.

Mae gweithdai yn hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu rhaglen Ein Llais Ni mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi eu cynnig er mwyn rhoi'r cyfle i rannu gwybodaeth am y wefan, adnoddau cefnogol a strategaethau ymarferol.

Mae Ein Llais Ni yn bennawd o fewn Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE ar gyfer holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwy iaith - cefnogaeth ar gael drwy fynychu cynhadledd, rhwydwaith, clwstwr ac i ysgolion unigol (lefel arwain a lefel ymarferwyr).

Mae seminar a stondin wedi'u trefnu ar gyfer y Sioe Addysg Genedlaethol er mwyn hyrwyddo'r gwaith ymhellach. Yn ystod y diwrnod bydd cyfle i'r mynychwyr fynchu seminar gan y Swyddogion Prosiect ar gyfer derbyn cyflwyniad i'r adnodd ac fe fyddwn yn gallu cyrraedd cynulleidfa ehangach drwy'r stondin.

Mae'r wefan yn cynnwys Dysgu Proffesiynol ac adnoddau cefnogol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd e.e. arweinwyr, athrawon, dysgwyr. Mae adnoddau Dysgu Proffesiynol canlynol bellach ar y wefan ac wedi cael eu cyflwyno i ddau glwstwr o ysgolion. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r adnoddau ac mae rhai ysgolion eisoes yn eu defnyddio gyda dysgwyr:

- Arweiniad ar gyflwyno strategaethau
- Datblygu llafaredd o fewn gwersi Gwyddoniaeth
- Cwestiynu Effeithiol
- Datblygu Geirfa Dysgwyr
- Datblygu technegau myfyrio: Dysgwyr ac Athro

Mae Dogfen yn rhoi canllaw i arweinwyr ac ymarferwyr o'r broses strategol ar gyfer rhoi rhaglen Ein Llais Ni ar waith a'i gwreiddio yn effeithiol yn rhan o'r adnoddau cefnogol ar gael drwy'r wefan yn ogystal.

Mae Llyfryn Ein Llais Ni yn cael ei ddatblygu er mwyn rhoi gwybodaeth gryno a chefnogol i roi'r rhaglen ar waith yn effeithiol. Mae'n cynnwys trosolwg o'r wefan a'r camau gweithredu i wreiddio Ein Llais Ni yn yr ysgol. Byddwn yn rhannu copiau o'r llyfryn yn y Sioe Addysg Genedlaethol a'r Gweithdai Cenedlaethol.

**Îs-brosiect 2: cefnogaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.**
Addaswyd y graffeg trosolwg i gynnwys yr elfen '7. Cynnydd ieithyddol' ar gyfer rhaglen ELlN YCS gan ychwanegu'r elfen hon at ddogfennau cefnogol e.e. 'Ein Llais Ni YCS – Camau gweithredu enghreifftiol DRAFFT0324'.Bwriad cynnwys yr elfen yma yn rhan o gyflwyno'r rhaglen â'r ysgolion cyfrwng Saesneg yw rhoi'r pwyslais ar bwysigrwydd adeiladu ar wybodaeth ynghylch cynnydd dysgwyr yn eu sgiliau siarad a gwrando wrth iddynt symud ar hyd y continwwm o fewn ysgolion, ac yn arbennig wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd. Trafodwyd arwyddocâd cynnwys yr elfen uchod â'r ysgolion arweiniol (Chwefror 2024) gan ddod i gytundeb â hwy ynglŷn â'r camau gweithredu enghreifftiol er mwyn cefnogi ysgolion i werthuso'r elfen. Bydd yr elfen hon yn rhan greiddiol o gyfraniad yr ysgolion arweiniol wrth symud ymlaen a'u canfyddiadau a thystiolaeth o'r cynnydd yn cael ei adlewyrchu yn astudiaethau achos terfynol yr ysgolion maes o law.

Bu ysgolion arweiniol unigol yn treialu strategaethau penodol gyda'u dysgwyr gan eu haddasu ar gyfer eu dysgwyr hwy.Casglwyd rhestr o'r strategaethau hyn ('Yr 20 Ucha') yn dilyn cyflwyniadau'r ysgolion arweiniol o'u hastudiaethau achos gwaelodlin.

Bydd yr ysgolion yn dod i gytundeb ynglŷn â pha rai o'r strategaethau uchod (Yr 20 Ucha') i'w targedu er mwyn gwerthuso'u heffaith ar draws sectorau. Bydd treialu'r un strategaeth yn y cynradd a'r uwchradd yn fodd i'r ysgolion feithrin cyd-ddealltwriaeth o gynnydd yn ogystal â thrafod y dilyniant ieithyddol a'r modd y bydd strategaethau'n datblygu wrth i hyder dysgwyr a'u sgiliau ieithyddol gynyddu

Bu'r ysgolion uwchradd arweiniol yn treialu strategaethau penodol wrth baratoi dosbarthiadau arholiad TGAU ar gyfer asesiadau llafar Cyfres Haf 2023-24 (Chwefror / Mawrth 2024).

Addaswyd a chyfieithwyd nifer o adnoddau cefnogol y wefan bresennol gan roi pwyslais ar hyrwyddo sgiliau a siarad a gwrando yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Hyrwyddwyd gwaith y prosiect yn ystod cyfarfodydd rhwydweithiau arweinwyr y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg e.e. Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg YCS GwE - 161123. Trafodwyd gwaith y prosiect yng nghyd-destun meithrin cyd-dealltwriaeth o gynnydd wrth gynllunio tasgau'n hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando gan annog yr arweinwyr i bori trwy'r adnoddau dysgu proffesiynol a geir ar y wefan ar hyn o bryd. Rhannwyd enghreifftiau o adnoddau'r wefan bresennol a addaswyd ar gyfer hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg gan egluro bod y gwaith o addasu a chyfieithu adnoddau'r wefan bresennol ar waith

Mawrth 2024 - rhoddwyd cyflwyniad i Weithgor Traws-rhanbarthol y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Saesneg) ar y datblygiadau diweddaraf o ganlyniad i gynnwys 'Cynnydd ieithyddol' yn un o elfennau creiddiol rhaglen 'Ein Llais Ni' ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg gan rannu adnoddau cefnogol i'r gweithgor traws-rhanbarthol hwn eu gwerthuso.

**Îs-brosiect 3: cydweithio efo Prifysgol Bangor/ Caban i gryfhau'r cyswllt efo AGA**
Cyd-lunio'r bwriadau â Phrifysgol Bangor er mwyn cefnogi'r athrawon cyswllt. Mae'r Swyddog Prosiect wedi cael cyfarfod efo'r Brifysgol i drefnu hyfforddiant 'Ein Llais Ni' i athrawon cyswllt cyfrwng Cymraeg. Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar 18/1/2024. Gwerthuso Adborth Prifysgol Bangor.

## 9. BUSNES

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, yr ymgysylltu a'r effaith**
Oherwydd y fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn GwE:

- mae'r model cynllunio a rheoli perfformiad yn mynegi gweledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth yn glir.
- mae ffocws cryf ar atebolrwydd, adolygu parhaus, a phwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- mae gwerth am arian, gwerthuso a dal effaith yn cael eu hymgorffori'n gryf drwy holl waith GwE.
- mae dadansoddiad ariannol cadarn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun busnes.

### AMCAN 7 – BUSNES

**7.1** Adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol er mwyn gofalu bod gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol strwythur addas i gyflawni blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd**
Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae'r Fframwaith Cynllunio Busnes sydd ar waith, gyda cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio, yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol. Mae cynlluniau wedi'u costio'n llawn, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni amcanion.

Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau bob chwarter, gan arfarnu cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb am welliant parhaus ac atebolrwydd. Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.Adroddir am y cynnydd yn erbyn y cynllun busnes rhanbarthol bob chwarter, i'r Cyd-bwyllgor.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro bob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

Bydd y Bwrdd Rheoli yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethiant yn barhaus ac mae gan GwE weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y

broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol. Lluniwyd cyfres o adroddiadau a'u rhannu â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys barn ysgolion, staff ac awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion rhanbarthol. Ym mhob adroddiad, disgrifir ansawdd y ddarpariaeth a nodir y meysydd i'w gwella er mwyn gyrru'r agenda dysgu yn ei blaen.

**Gwerth am Arian**
Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy'r broses hunan arfarnu, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

**Cofrestr Risg**
Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor wybod amdanynt. Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

## 10. AMCANION STRATEGOL A BLAENORIAETHAU AR GYFER 2024-25

Ar 18 Rhagfyr,2023, daeth Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, â'r Adolygiad Haen Ganol i ben, gan dderbyn bod y canfyddiadau interim yn derfynol. Ar 19 Rhagfyr,,2023, ad-drefnodd Llywodraeth Cymru y grantiau addysg cyn-16 a ddyrannwyd i'r Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol yn Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Ar 31 Ionawr,st, 2024, cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig: *Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru*. Roedd y datganiad hwn yn amlinellu'r newidiadau yn y trefniant gwella ysgolion yng Nghymru gyda model partneriaeth rhwng dau Awdurdod Lleol, neu fwy, yn disodli model y consortia rhanbarthol o 1 Ebrill, 2025.

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfuno'r prif grantiau addysg o dan un pennawd, sef y Grant Addysg Awdurdodau Lleol o 2024/25 ymlaen, talwyd y grant i'r Awdurdodau Lleol i reoli a dirprwyo cyllid yn uniongyrchol i ysgolion. Yr Awdurdodau Lleol unigol sydd bellach yn llwyr gyfrifol am ofynion, risgiau, telerau ac amodau y grant. Er mwyn sicrhau parhad y gefnogaeth i ysgolion tra bod yr adolygiad yn mynd yn ei flaen, nododd Llywodraeth Cymru y disgwyliad bod unrhyw drefniadau gweithio rhanbarthol presennol yn parhau yn ystod y cyfnod hwn a'u bod yn cael eu hwyluso drwy'r cyllid grant penodol i gefnogi'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol mewn ysgolion.

Mae'r cyllid ddaw i GwE gan y Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn amrywio ar draws yr Awdurdodau Lleol o dan y penawdau hyn:
- Y Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol

- Nid oes cyllid ecwiti wedi'i drosglwyddo i GwE.
- Elfen Safonau y Grant Addysg Awdurdodau Lleol
- Cadwyd y rhan fwyaf o'r cyllid i gefnogi Cymraeg 2050 gan yr Awdurdod Lleol gyda chanran i'w drosglwyddo i GwE

Mae Cyllideb GwE ar gyfer 2024-25 hefyd yn adlewyrchu penderfyniad y chwe Awdurdod Lleol i leihau eu cyfraniad at y gwasanaeth craidd o 10%, ac felly gweithredu toriad o £392K yn 2024/25, yn ogystal â'r penderfyniad i beidio ag ychwanegu chwyddiant yn llawn. Golyga hyn doriad mewn termau real o £345K yn ychwanegol i'r cyllid craidd, gan roi cyfanswm o £737k.

Mae'r penderfyniadau hyn wedi cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth a ddarperir gan GwE a'r trefniadau gwella ysgolion yng Ngogledd Cymru o 1 Ebrill, 2024. Yn benodol:

- Mae GwE wedi newid o fod yn 'wasanaeth rhanbarthol ar y cyd' i fod yn wasanaeth sydd wedi'i gomisiynu.
- Cleient yw GwE sydd yn darparu comisiwn gwahaniaethol i'r Awdurdod Lleol.
- Y Prif Swyddogion Addysg sydd yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwella ysgolion, a ddelir yn atebol gan drefniadau craffu lleol.
- Rhaid i GwE gadw'n gaeth at y comisiwn a ddiffinnir gan yr Awdurdod Lleol ac a nodir yn y Cytundeb Comisiynu rhwng Awdurdodau Lleol unigol a GwE ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.
- Mae ffocws gwahanol i amodau'r grantiau.
- Telerau ac Amodau y Grant Addysg Awdurdodau Lleol sydd yn pennu ein Dysgu Proffesiynol.
- Mae ein Cynnig Dysgu Proffesiynol yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol.

Mae ein Hamcanion Strategol a'n blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn 2024-25 felly ar sail Telerau ac Amodau y Grant Addysg Awdurdodau Lleol a blaenoriaethau Awdurdod Lleol, ac mae ein Fframwaith Cynllunio Busnes wedi'i ddiwygio i:

- fodloni cyfraniad Craidd ALl a chyllid Safonau Ysgolion.
- bodloni Telerau ac Amodau'r grant ar gyfer Diwygio
- bodloni Telerau ac Amodau grant Cymraeg 2050

---

## AMCANION STRATEGOL

| | BETH YDYM NI'N CEISIO'I GYFLAWNI? |
|---|---|
| 1. | **Gwella Ysgolion a Safonau**<br>• Gwreiddio trefniadau gwella ysgol effeithiol wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau cysylltiedig. |
| 2. | **Diwygio**<br>• **Y Cwricwlwm i Gymru** - Cefnogi dealltwriaeth a dulliau gweithredu ysgolion ac UauCD yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru, gan alluogi ymarferwyr i gwblhau ystod o weithgareddau i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harferion.<br>• **Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth** - datblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol i alluogi ysgolion ac UauCD i ddatblygu gweithwyr addysg myfyriol, ymchwilgar a chydweithredol. |

| 3. | **Cymraeg 2050** |
|---|---|
| | • Cefnogi efo cyflawni nodau Cymraeg 2050 a rhoi mynediad cyfartal at yr iaith i bob dysgwr, a chyfle i gyflawni ei botensial. |

### Blaenoriaethau

Dyma ein blaenoriaethau ar gyfer gwelliant:

| **AMCAN STRATEGOL 1: GWELLA YSGOLION A SAFONAU**<br><br>Gwreiddio trefniadau gwella ysgol effeithiol wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau cysylltiedig. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| **1.1** | Sicrhau bod pob ysgol yn cael ei chefnogi i werthuso yn fanwl gywir a chyflawni cynlluniau gwella cadarn yn effeithiol. |
| **1.2** | Cefnogi arweinwyr i hyrwyddo safonau uchel ac uchelgais i bawb [i gynnwys ansawdd yr addysgu a darpariaeth gwricwlwm]. |
| **1.3** | Cefnogi arweinwyr mewn ysgolion i ddod yn gyfarwydd â'r canllawiau gwella ysgol newydd ac i fod yn hyderus i'w gweithredu. |
| **1.4** | Cryfhau dulliau amlasiantaethol a'r 'tîm o amgylch yr ysgol' gydag ysgolion sy'n achosi consyrn. |
| **1.5** | Cryfhau gwaith partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol. |

| **AMCAN STRATEGOL 2: DIWYGIO**<br><br>**Y Cwricwlwm i Gymru** - Cefnogi dealltwriaeth a dulliau gweithredu ysgolion ac UauCD yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru, gan alluogi ymarferwyr i gwblhau ystod o weithgareddau i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harferion<br><br>**Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth** - datblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol i alluogi ysgolion ac UauCD i ddatblygu gweithwyr addysg myfyriol, ymchwilgar a chydweithredol. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |

| | |
|---|---|
| **2.1** | Cefnogi ysgolion ac ymarferwyr i gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru. |
| **2.2** | Cefnogi ysgolion ac UauCD gyda'u gwaith o sicrhau cynnydd dysgwyr ar draws y cwricwlwm yn y sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. |
| **2.3** | Gweithredu Rhaglenni Arweinyddiaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol |

| **AMCAN STRATEGOL 3: CYMRAEG 2050**<br><br>Cefnogi efo cyflawni nodau Cymraeg 2050 a rhoi mynediad cyfartal at yr iaith i bob dysgwr, a chyfle i gyflawni ei botensial. | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Blaenoriaeth** |
| | |

**** Cymraeg 2050 - i'w gadarnhau yn dilyn trafodaethau gyda ALl unigol***

# Dogfennau Ategol

GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Cynllun Busnes GwE

# 2023 - 2024

# Atodiad 1:

# Data Rhanbarthol

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RANBARTHOL 2023 – 2024**

**Data Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol**

| **AMCAN 1 – GWELLA YSGOLION** |
|---|
| **GWELLA YSGOLION** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>Proffil presennol:<br><br>• 9 ysgol yng nghategori statudol [3 uwchradd / 6 cynradd]<br>• 14 ysgol yn peri pryder [0 cynradd uwchradd / 14]<br>• 46 o ysgolion sy'n cael eu hadolygu [22 ysgol uwchradd / 24 cynradd] |

| **AMCAN 2 – CWRICWLWM AC ASESU** |
|---|
| **DATBLYGU'R CWRICWLWM A'R RHWYDWEITHIAU (CiG)** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>Nifer o ymarferwyr GwE sydd wedi cofrestru ar y sesiynnau Cenedlaethol isod:<br><br>• Sesiwn Asesu 1 = 22<br>• Sesiwn Asesu 2 = 42<br>• Sesiwn Asesu 3 = 4<br>• Sesiwn Asesu 4 = 7<br><br><u>Sesiynnau MDaPh:</u><br>• Iaith a Llythrennedd = 6<br>• Mathemateg a Rhifedd = 11<br>• Gwyddoniaeth a Thechnoleg = 9<br>• Celfyddydau Mynegiannol = 15<br>• Dyniaethau = 15<br>• Iechyd a Lles = 36<br><br>CYFANSWM: 167 |
| **Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Gweithdy 3 – 8 Celfyddydau Mynegiannol: presenoldeb i gyfarfod clwstwr y Celfyddydau Mynegiannol a chyfarfod Rhwydwaith y Celfyddydau Mynegiannol: 293 |
| **IECHYD A LLES** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Ymweliadau ac ysgolion: 43 |

- Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr Lles Uwchradd / Arbennig / UCD ar lein:  24
- Rhwydwaith Iechyd a Lles Uwchradd / Arbennig / UCD ar lein:  22
- Chwarae i Ddysgu Iechyd a Lles – Gweithdai Cynradd (3-8): 58
- Iechyd a Lles – Gweithdai Cynradd Llythrennedd Corfforol/Bwyd a Maeth (3-8): 23
- Rhwydwaith Arweinwyr Lles (Gorllewin): 13
- Rhwydwaith Arweinwyr (Dwyrain): 13

## Y DYNIAETHAU

**Data Rhanbarthol:**

- Mynychodd 30 o ysgolion uwchradd y rhanbarth Gynhadledd Cwricwlwm i Gymru Dyniaethau ar gyfer Athrawon Uwchradd 16/11/2023.
- Mae 3 ysgol wedi darparu astudiaethau achos sy'n dangos effaith gweithio gyda phartneriaid allanol ar wella profiadau dysgu i ddysgwyr.

## IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

### SAESNEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol:**

- Cefnogaeth i ysgolion cynradd: 339
- Cefnogaeth i ysgolion Uwchradd: 50

### CYMRAEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol:**

Rhwydweithiau:

- Arweinyddiaeth: 36
- Gwireddu Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol: 15
- Llythrennedd trawsgwricwlaidd: 14
- Datblygu’r Gymraeg: 4

### IEITHOEDD RHYNGWLADOL / ITM

**Data Rhanbarthol:**

- Cwrs ‘Power Language up-skilling’:  30 ysgol / 56 o athrawon
- Tanysgrifiad ‘Power Language’: 27/09/2023 - 148 ysgol
- Cwrs Prifysgol Agored 2023-2024 ‘TELT’: 6
- Cerdd Iaith 19/10/2023 & 15/11/2023: 14 ysgol / 14 o athrawon

- Prosiect Sanako (Uwchradd) – 7 ysgol
- CAL: Dulliau ysgrifennu creadigol – 15 ysgol / 16 o athrawon
- CAL: Digwyddiad y dysgwr 17.7.23: Amlieithrwydd creadigol yng nghyd-destun y byd naturiol: 2 ysgol / 30 o ddysgwyr
- Cefnogaeth ysgol i ysgol – cynllun cefnogaeth: 5
- Mentora ITM – Recriwtio 23-24: 21 ysgol
- Hyfforddiant trochi 2024: 23 ysgol / 29 o athrawon
- Partneriaeth Cymru-Llydaw: 16 ysgol gynradd / 4 ysgol uwchradd
- Digwyddiad Pencampwyr Iaith Fusnes (BLC) Blwyddyn 9: 8 ysgol / 91 o ddysgwr; Blwyddyn 10: 7 ysgol / 80 o ddysgwr
- Gweithgor AATT 23-24: 6/7 ysgol - 7/8 o athrawon
- Shirley Clarke 13/11/2023 – 19 ysgol
- Jennifer Wozniak-Rush 26/01/2024 – 56 ysgol / 56 o athrawon
- Cyfarfodydd Rhwydwaith Tachwedd 2023 Sector Uwchradd: 22 ysgol
- Cyfarfodydd Fforwm Tachwedd 2023 Sector cynradd: 16 ysgol
- Ymwybyddiaeth amgylcheddol trwy ddysgu iaith a chreadigrwydd: gweithdai ysgol gyda'r artist graffig Ffrengig arobryn Anne Defréville: 30ain Ebrill-3 Mai 2024, Bangor: 4 ysgol wedi cofrestru

**MATHEMATEG A RHIFEDD**

**Data Rhanbarthol:**

| | Nifer o ymwweliadau |
|---|---|
| Cynradd –Cefnogaeth ysgol pwnc unigol | 39 |
| Uwchradd - Cefnogaeth ysgol unigol | 168 |
| Cefnogaeth Clwstwr / Cynghrair Pwrpasol Cynradd ac Uwchradd | 34 |

| | Cyfanswm y mynychwyr |
|---|---|
| Gweithdy Mathemateg Cynradd ac Uwchradd (Craig Barton) | 149 |
| Cyfarfodydd rhwydwaith Penaethiaid Mathemateg Uwchradd (Ch4) | 33 |
| Cyfarfodydd rhwydwaith arweinwyr Rhifedd Uwchradd (Ch4) | 30 |

| | |
|---|---|
| Rhaglen MEI Uwchradd (rhaglen gyfan) | 29 |
| Rhaglen Ulwchradd 'Defnydd effeithiol o drindodau' (rhaglen gyfan) | 41 |
| Rhaglen Gwyddoniaeth Gynradd a Thechnoleg/Rhifedd (Carfan 1 a 2) | 85 |
| Rhaglen Gynradd 'Defnydd effeithiol o drindodau' | 37 |

**GWYDDONIAETH A THECHNOLEG**

**GWYDDONIAETH**

**Data Rhanbarthol:**

- Nifer yr ysgolion sydd wedi derbyn ymweliadau ysgol pwrpasol Ch1-4 – Uwchradd: 26
- Mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Gwyddoniaeth – C1-4 Uwchradd: 36
- Mynychodd hyfforddiant technoleg Ch1-4 – Uwchradd: 25

**DIGIDOL**

**Data Rhanbarthol:**

- Nifer o ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant / dysgu proffesiynol digidol yn ystod 23-24: 1350

**CONTINIWM ADDYSG 3 i 16**

**PONTIO**

**Data Rhanbarthol:**

- Prosiect pontio addysgeg – 12 clwstwr ar draws pob un o'r 6 Awdurdod Lleol
- Presenoldeb mewn gweithdai Pontio Cwricwlwm i Gymru 22/06/23: 61 ar draws pob un o'r 6 ALl
- Ymweliadau clwstwr gan YCG yn barhaus ar draws rhanbarth: pob un o'r 53 clwstwr ac yn cael eu trafod mewn cynghreiriau uwchradd rhanbarthol
- Presenoldeb yn y gweithdai pontio - 159

**ASESU**

**Data Rhanbarthol:**

- Cynhadledd Michael Chiles: 233

**AMCAN 3 – DATBLYGU DYSGU AC ADDYSGU O SAFON UCHEL**

**CYFRANIADAU GAN FDaPh A RHWYDWEITHIAU PWNC I WELLA ADDYSGU**

**Data Rhanbarthol:**

- Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu: 28

**YMCHWIL AC ARFARNU (Ymchwil ac ymholi)**

**Data Rhanbarthol:**

- Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - Cam 3 (Prosiectau 1 a 2): 39
- Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR): 9
- Addysgu Cynhwysol mewn Rhifedd Cynnar (i-TEN) mewn ysgolion cynradd prif lif: I'W GADARNHAU
- Datblygu a Gwerthuso Dysgu Sillafu mewn Dosbarthiadau Prif Lif (DEMSI): 61 I'W GADARNHAU

**ADDYSGEG A DYLUNIO DYSGU**

**Data Rhanbarthol:**

- Tuag at 2024 – 23 o ysgolion cynradd
- Dylunio Dysgu yn y Cwricwlwm i Gymru = 3 ysgol

**CYFLAWNI POTENSIAL – HER I BAWB (MATh)**

**Data Rhanbarthol:**

- Prosiect traws ranbarthol cynradd – Gwireddu Potensial: 5 ysgol

**ADDYSG 3-8**

**Data Rhanbarthol:**

- Ymweliadau cymorth i ysgolion: 239
- Cymorth clwstwr: 208 o ysgolion
- Rhwydwaith 3-8: 635 (Haf a Hydref 2023)
- Gweithdai i Athrawon a Cymorthyddion Addysg sy'n newydd i'r grŵp oedran 3-8: 71 ysgol
- Hyfforddiant Asesu: 374
- Hyfforddiant darllen rhanbarthol: 439 o ymarferwyr
- Gweithdy Celfyddydau Mynegiannol: 258
- Gweithdy Dyniaethau: 146

**ÔL-16**

**Data Rhanbarthol:**

- Rhwydweithiau Ôl-16: 32

**AGA**

**Data Rhanbarthol:**

- ANG: 224

## AMCAN 4 - ARWEINYDDIAETH

### RHAGLENNI ARWEINYDDIAETH

**Data Rhanbarthol:**

| | Niferoedd |
|---|---|
| 1. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol | 127 |
| 2. Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr | 117 |
| 3. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro | 34 |

### CALU - LLDC

**Data Rhanbarthol:**

- Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi:  34
- Cymorthyddion wrth eu Gwaith:  247
- Darpar CALU Cylch 6:  25
- Darpar CALU Cylch 7:  29
- Darpar CALU Cylch 8:  27
- Asesiadau Statws CALU Cylch 5: 34
- Asesiadau Statws CALU Cylch 6: 20
- Aseswyr CALU: 24
- Cymhorthydd Addysgu Eithriadol:  11
- Hyfforddiant Dyslecsia: 14
- ADY – rhannu arferion effeithiol: 92
- Diwrnod Datblygu CALU:  100
- Rhwydwaith Tymorol: 28

### CYMELL A MENTORA

**Data Rhanbarthol:**

- Nifer yn y grŵp Cymell a Mentora: 3

| CYMORTH I LYWODRAETHWYR |
|---|
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Mae 500 o fynychwyr wedi mynychu sesiynau amrywiol ar gyfer Cymorth Llywodraethwyr ar draws y rhanbarth |
| **YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Ymateb i'r holiadur YSD: 8 |
| **RHAGLEN PARTNERIAETH YSGOLION** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Nifer o ysgolion /clystyrau /cynghreiriau sy'n rhan o'r rhaglen: 255 / 46<br>• Nifer o Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd: 329<br>• Nifer o Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd: 290 |

| AMCAN 5 – PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB |
|---|
| **GDD / PMG** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Ymarferwyr Diploma TIS: 38 |

| AMCAN 6 – MAE CYMRAEG YN PERTHYN I BAWB |
|---|
| **Y GYMRAEG MEWN ADDYSG (DP / SIARTER IAITH / CYMRAEG CAMPUS)** |
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• Nifer cwrs CMB 2023-24: 14<br>• Cefnogaeth clwstwr neu unigol Ein Llais Ni i ysgolion cyfrwng Cymraeg: 13<br>• Prosiect Ein Llais Ni i ysgolion cyfrwng Saesneg: 8<br>• Rhwydwaith cariad@ddarllen: 23 |

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**22 MAI 2024**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Cofrestr Risg GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Bydd rheoli'r risgiau'n effeithiol yn galluogi GwE i gefnogi'r amcanion strategol a'r blaenoriaethau strategol, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae cofrestr risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r gofrestr risg wedi cael ei hadolygu yn dilyn canfyddiadau'r adolygiad o'r haen ganol a'r penderfyniad i gyfuno prif grantiau addysg o dan un pennawd, Grant Addysg Awdurdodau Lleol (GAALl) o 2024/25 ymlaen.

3.3 Gan fod GwE wedi newid o fod yn 'wasanaeth rhanbarthol ar y cyd' i fod yn wasanaeth sydd wedi'i gomisiynu, awgrymir dileu'r risgau blaenorol ac ychwanegu pedair risg newydd - gweler atodiad 1.

3.4 Dilynwyd y matrics risg canlynol wrth bennu statws y risg.

| Matrics Risg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| **Tebygolrwydd** | Bron yn sicr | Isel (4) | Canolig (8) | Uchel (12) | Uchel (16) | A |
| | Tebygol | Isel (3) | Canolig (6) | Canolig (9) | Uchel (12) | B |
| | Posib | Isel (2) | Isel (4) | Canolig (6) | Canolig (8) | C |
| | Annhebygol | Isel (1) | Isel (2) | Isel (3) | Isel (4) | D |
| | | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** | **Hynod uchel** | |
| | | **Effaith** | | | | |

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo cynnwys y gofrestr.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

5.0 **Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid yw'n glir faint y bydd y newid sylweddol mewn polisi yn ei gostio mewn cyfnod anodd yn gyllidebol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes asesiad wedi'i wneud gan LlC i bwyso a mesur effaith bosibl y newidiadau hyn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Mae morâl a chymhelliant staff GwE yn hynod isel.

7.2 Nid oes eglurder o ran swyddi amgen i staff gwella ysgolion wedi mis Mawrth 2025.

7.3 Bydd angen diswyddiadau er mwyn cyrraedd y toriad sylweddol i'r gyllideb graidd gan Awdurdodau Lleol a lleihad sylweddol mewn grantiau sydd bellach yn cael eu dal gan yr Awdurdodau Lleol.

7.4 Bydd llai o secondiadau a diswyddiadau yn effeithio ar batrwm y tîm ac yn achosi anghydbwysedd yn y cymorth i'r gwahanol sectorau.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 O ran y gofrestr risg, ymgynghorwyd gyda Uwch Dîm Arwain GwE a Bwrdd Rheoli GwE.

8.2 Dim ymgynghori ffurfiol gan Lywodraeth Cymru o ran y newid polisi.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Cofrestr Risg GwE.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae'r gofrestr yn nodi'r risgiau newydd sy'n ganlyniad i'r datblygiadau diweddar, a bydd cefnogaeth a chyngor yn cael ei ddarparu i fynd i'r afael â goblygiadau'r datblygiadau hyn, yn cynnwys o safbwynt llywodraethiant.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Bydd yr aelodau'n gweld fod cynnwys y gofrestr risg wedi newid yn llwyr ers y tro diwethaf iddo gael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor. Mae hynny yn ddisgwyliedig o dan yr amgylchiadau presennol o ran dyfodol GwE. Byddaf yn parhau i gefnogi Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wrth reoli'r risgiau mae GwE yn eu wynebu.

**Risgiau newydd**

| RHIF RISG | CRYNODEB | AMCAN STRATEGOL GwE | RISG A NODWYD | TEBYGOLRWYDD RISG | EFFAITH RISG | TEBYGOLRWYDD X EFFAITH | GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU | RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL | TEBYGOLRWYDD X EFFAITH | PERCHENNOG RISG | CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyllidol | I GYD | Toriad o 18% i Gyllideb Graidd GwE a thoriadau sylweddol i'r cyllid grant. Model newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer dosbarthu grantiau ar gyfer 2024/25 yn arwain at ddyraniad gwahaniaethol gan Awdurdodau Lleol. Amodau cyfyngedig iawn ar sut y dylai ysgolion wario eu dyraniadau. | U | U | 1A | Newid o wasanaeth ar y cyd i wasanaeth wedi ei gomisiynu gyda phob Awdurdod Lleol yn atebol am sut y caiff grantiau eu gwario ar lefel gwasanaeth ac ysgol. | U | 1A | 6 ALl | Awdurdodau Lleol unigol i gyfathrebu eu comisiwn lleol, trefniadau atebolrwydd a llywodraethiant. |
| 2 | Cyllidol | I GYD | Nid yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol Gwella Ysgolion wedi'i phennu eto. Amserlenni heb eu cadarnhau eto ac yn aneglur. Nid yw'r gost o gau consortiwm rhanbarthol ac agor modelau newydd wedi'u pennu eto. | U | U | 1A | Awdurdodau Lleol i gael eglurder gan Lywodraeth Cymru. | U | 1A | 6 ALl | Awdurdodau Lleol i hysbysu Cydbwyllgor GwE. |
| 3 | AD | I GYD | Diffyg capasiti gyda staff yn gadael gydag ecsodus posibl gan nad oes eglurder o ran opsiynau sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Gall hyn arwain at forâl isel, llai o gymhelliant a gwasanaeth wedi ei leihau mewn rhai meysydd. | U | U | 1A | Dim. | U | 1A | 6 ALl | Awdurdodau Lleol i hysbysu Cyd-bwyllgor GwE o'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. |
| 4 | Llywodraethiant | I GYD | Mae rôl Cyd-bwyllgor GwE yn aneglur ac angen ei ailddiffinio o ran adrodd, atebolrwydd a llywodraethiant. | U | U | 1A | Awdurdodau Lleol i ofyn am gyngor cyfreithiol gan yr Awdurdod Lletyol. | U | 1A | 6 ALl | Awdurdod Lletyol i lunio cyngor i hysbysu Cyd-bwyllgor GwE. |

**Risgiau wedi'u dileu**

| RHIF RISG | CRYNODEB | AMCAN STRATEGOL GwE | RISG A NODWYD | TEBYGOLRWYDD RISG | EFFAITH RISG | TEBYGOLRWYDD X EFFAITH | GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU | RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL | TEBYGOLRWYDD X EFFAITH | PERCHENNOG RISG | CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyllidol | I GYD | Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir. | C | C/U | 2A | Mae cynllun Ariannol Tymor Canolig a Fframwaith a Pholisi Gwerth am Arian ar waith. Datblygwyd cynlluniau ar y cyd â Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau. Cyhoeddwyd setliad grant drafft Llywodraeth Cymru eleni gyda amlinelliad cyllidebol 3 blynedd. Awgryma'r amlinelliad bod toriadau yn y gyllideb grant ar y gorwel. | C | 2B | RhG / RhP | Yn dilyn adolygiad gwariant cynhwysfawr Llywodraeth San Steffan ac adnabod blaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru, mae GwE wedi ac yn parhau i weithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r pwysau cyllidebol erbyn 2023/24 a thu hwnt (gan gofio effaith posibl Covid-19). Gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac ymgynghori â phrif swyddogion o awdurdodau cyfansoddol ar effaith unrhyw doriadau cyllidol posibl. Mae GwE wedi cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu i sicrhau y gellir cynllunio'n hyblyg ar gyfer ystod eang o ddeilliannau, ac yn aros am benderfyniad Prif Weithredwyr y gogledd. Bydd prif ganfyddiadau ac argymhellion ar gael yn dilyn derbyn gwybodaeth ar gyllideb 2024/25, a chanfyddiadau yr 'Adolygiad o wella ysgolion: rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru' |
| 2 | Cyllidol | I GYD | Ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid grant gan LlC yn llesteirio cynllunio strategol tymor hir. Mae oedi sylweddol o ran cadarnhau lefelau cyllido yn effeithio ar weithredu'r Cynllun Busnes Strategol. | U | U | 1A | Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau, ond hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â'r Swyddog Adran 151. Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys manylion ynghylch y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gweithredir modelu ariannol i lywio penderfyniadau. Nid oes gwybodaeth wedi ei rannu eto o ran cyllideb grantiau 2024/25. | U | 2A | RhG / RhP / Bwrdd Rheoli | Gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Polisi a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn gyson. Cysylltu â swyddogion LlC, aelodau addysg Cabinet awdurdodau etholaethol a phenaethiaid addysg, i gael mwy o dryloywder a sicrwydd o ran arian grant. |
| 3 | Trefniadau gweithredu a strwythur staffio GwE | I GYD | Nid yw trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol yn cyfarch y cyfeiriad rhanbarthol na Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen. | U | C/U | 2A | Mae'r BRh, CB a'r Prif Weithredwyr wedi cytuno i adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfeiriad Llywodraeth Cymru a rhanbarthol ar gyfer y dyfodol. Mae gwaith yn parhau i esblygu a chryfhau'r gwaith partneriaeth presennol ag Awdurdodau Lleol i wneud pethau'n eglur, lleihau dyblygu a biwrocratiaeth, a gwella effeithiolrwydd cyflawni ymhellach. | C/I | 2C | RhG / BRh / CB | Cynnal adolygiad o'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol yn ystod haf / hydref 2023 i sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol wedi'i strwythuro'n addas. Cysoni adolygiadau Llywodraeth Cymru a GwE a sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agos ac yn ategu ei gilydd. Mae GwE wedi cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu i sicrhau y gellir cynllunio'n hyblyg ar gyfer ystod eang o ddeilliannau, ac yn aros am benderfyniad Prif Weithredwyr y gogledd. Bydd prif ganfyddiadau ac argymhellion ar gael yn dilyn derbyn gwybodaeth ar gyllideb 2024/25, a chanfyddiadau yr 'Adolygiad o wella ysgolion: rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru' |
| 4 | Recriwtio a chynllunio olyniaeth | I GYD | Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth o fewn y gwasanaeth gan nad yw cyflogau'n gystadleuol gyda sefydliad tebyg neu gyda chyflogau Prifathrawon ac uwch arweinwyr. | U | C/U | 2A | Mae angen sicrhau bod cyflogau yn y strwythurau sefydliadol yn gystadleuol â sefydliadau tebyg i ganiatáu cynllunio olyniaeth llwyddiannus yn y dyfodol a denu staff o safon uchel. Mae trafodaethau yn mynd rhagddo efo Cyngor Gwynedd er mwyn unioni cyflogau GwE efo chodiadau cyflog swyddogion o fewn yr Awdurdod Lletyol. | C | 2B/2C | RhG / BRh / CB | Cynnwys hyn fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol (fel y nodwyd dan Risg Rhif 3). |
| 5 | Datblygu arweinyddiaeth | 1, 4 & 6 | Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg. Ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yw materion yn ymwneud â chyllidebau, cefnogaeth i faterion presenoldeb ac ymddygiad, a gweithredu cyson gan Undebau Athrawon. | C/U | C/U | 2A | Mae'r Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol yn cefnogi datblygiad sgiliau arwain ymarferwyr trwy gydol pob carreg filltir o'r llwybr dysgu proffesiynol.<br>Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi gweithio gyda rhanbarthau eraill i ddarparu rhaglenni datblygu effeithiol ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel. Mae'r Grŵp wedi llwyddo i oresgyn heriau o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig ac wedi parhau i sicrhau tegwch o ran mynediad i bob rhaglen datblygu arweinyddiaeth -h.y. Dull cyfunol/rhithiol a diweddaru cynnwys yn rhithiol i fodloni anghenion arweinwyr ble mae'r anghenion hynny'n newid yn gyson.<br>Drwy gydweithio â'r Awdurdodau, sicrheir mynediad i ystod o hyfforddiant i wella Sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg er mwyn cynnyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg . Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor, Y Coleg Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau i ddarparu rhaglen gyfoethog ar gyfer datblygu medrau iaith a hyder staff<br>Cydweithio gyda CABAN/Prifysgol Bangor yn sicrhau lleoliadau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr AGA.<br>Adnabod y gweithlu sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg – cynllunio ar gyfer datblygu ymhellach (cymorthyddion, athrawon, arweinwyr) frwy gyd-weithio gyda'r ALl. Parhau i rannu negesuon drwy fforymau ALl / GwE i adnabod problemau recritwio a chynllunio olyniaeth. | C | 2B | RhG / CC | Parhau i gynnig amrediad eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn perthynas â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a datblygu sgiliau iaith y gweithlu er mwyn datblygu arweinwyr y presennol a'r dyfodol. |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Gwella ysgolion | 1 | Cyflymder datrys materion mewn ysgolion uwchradd a roddir mewn categori Statudol Estyn. | U | U | 2A | Mae rhaglenni ymyrraeth a chymorth dwys ar waith yn yr ysgolion hyn sy'n canolbwyntio ar wella dysgu ac addysgu; datblygu systemau tracio ac asesu; gwella arweinyddiaeth ar bob lefel a datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio gwelliant grymus. Bydd GwE yn gweithio'n agos gyda'r ALl, Estyn a Llywodraeth Cymru i yrru'r gwelliannau angenrheidiol. | C/U | 2B/C | RhG/CC/Uwch Arweinwydd Uwchradd | Mae angen i'r prosesau gwerthuso mewn ysgolion sy'n nodi cynnydd yn erbyn argymhellion allweddol gasglu amrywiaeth eang o dystiolaeth yn unol â disgwyliadau'r GGY newydd. Mae angen i Grŵp Gorchwyl y Bwrdd Rheoli barhau i adolygu'n gyson effeithiolrwydd strwythur rhanbarthol a phrosesau ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder. |
| 8 | Safonau | I GYD | Ansicrwydd ynglŷn ag atebolrwydd a mesurau perfformiad sy'n llesteirio cyflymder y Daith Ddiwygio, yn enwedig yn y sector uwchradd. | U | C/U | 2A | Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi eu cynnal dros y cyfnod i ddylanwadu ar fwriadau cenedlaethol parthed datblygu fframwaith atebolrwydd newydd. | C | 2B/C | CC / Uwch Arweinydd Uwchradd | Parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, consortia eraill, awdurdodau lleol ac Estyn i sicrhau bod ysgolion yn deall yn llawn y cyfeiriad a amlinellir yn y FfGY newydd a bod prosesau a strwythurau atebolrwydd rhanbarthol yn cefnogi ysgolion i fynd i'r afael yn effeithiol â gofynion y daith ddiwygio. |
| 9 | Safonau | I GYD | Mae ansicrwydd ynglŷn â sut y bydd cymwysterau 2027 yn edrych yn ffactor cyfyngol mewn ysgolion uwchradd. | U | C/U | 2A | Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC wedi eu cynnal dros y cyfnod i ddylanwadu ar gyfeiriad. | C | 2B/C | CC / Uwch Arweinydd Uwchradd | Parhau i gyfrannu at sesiynau ymgynghori ac at waith rhwydweithiau a fforymau perthnasol i ddylanwadu ar gyfeiriad. |
| 11 | Gwella Ysgolion | I GYD | Gweithredu'r Canllawiau Gwella Ysgolion newydd. | C/U | C | 2B | Bydd gweithio o fewn y GGY newydd yn galluogi pob rhanddeiliad i weithio mewn ffyrdd mwy newydd. Mae cynllun busnes 2023-26 GwE yn amlinellu sut y bydd, gan gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella addysgu a dysgu, ac yn cynyddu'r dyhead i effeithio ar safonau. Fel gwasanaeth, byddwn yn gwneud y canlynol: sicrhau bod pob ysgol yn cael cefnogaeth i werthuso'n fanwl gywir a chyflawni cynlluniau gwella cadarn yn effeithiol; cefnogi arweinwyr sy'n cydweithio i hybu safonau a dyheadau uchel i bawb; cefnogi arweinwyr ysgolion i ymgyfarwyddo â'r arweiniad gwella ysgolion newydd a chymryd camau hyderus; cryfhau dulliau amlasiantaethol a 'thîm o gwmpas yr ysgol' gydag ysgolion sy'n achosi pryder a chryfhau gwaith partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol. | C/I | 2C | RhG / BRh / CB | Parhau i ymgysylltu â phob rhanddeiliad i sicrhau bod datblygiadau cenedlaethol yn dylanwadu ar waith rhanbarthol, y cânt eu gwerthuso'n llawn ac y delir eu heffaith. Bydd GwE a'r Awdurdodau Lleol, drwy gyfrwng y Bwrdd Rheoli a'u Grŵp Gorchwyl, yn parhau i fonitro effeithiolrwydd dulliau rhanbarthol o nodi, creu, cyflawni a monitro Cynlluniau Cefnogi Ysgolion. Bydd y Grŵp Gorchwyl yn archwilio ffyrdd posibl o gydweithio'n gryfach ar draws Awdurdodau Lleol i gynyddu eu gallu a sicrhau cefnogaeth fwy cyson gan sicrhau hefyd ein bod yn mabwysiadu dull cyfannol a thryloyw o ran llunio adroddiadau a rhannu gwybodaeth. Parhau i gydweithio efo LlC i baratoi i ymgynghori ar y Fframwaith Gwella Ysgolion. |
| 12 | Hinsawdd Undebol | I GYD | Yr hinsawdd bresennol o ran Undebau. | U | U | 2A | Parhau i gyfathrebu a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Undebau ynghylch y ffordd orau o gefnogi ysgolion i roi Canllawiau Gwella Ysgolion anstatudol ar waith yn yr hinsawdd sydd ohoni o ran yr Undebau. | C | 2B | RhG / CC | Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Undebau i sicrhau perthynas waith effeithiol a llwyddiannus. |
| 13 | Gwella Ysgolion | I GYD | Arolygu a monitro parhaus o waith y gwasanaeth yn cael effaith ar waith craidd GwE ac ar les a moral staff. | C/U | C | 2B | Mae fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn GwE. Mae'r Fframwaith Cynllunio Busnes sydd ar waith yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol. Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn gwerthuso ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Mae proses glir ac effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn cyrraedd blaenoriaethau a thargedau corfforaethol yr Awdurdodau Lleol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae cefnogi lles a gwytnwch staff wedi ei adanbod fel un o flaenoriaethau'r gwasanaeth. | C | 2B/C | RhG / BRh / CB | Cynnal trafodaethau efo Llywodraeth Cymru, Estyn ac Awdurdodau Lleol i geisio lleihau amlder yr ymweliadau gan osgoi dyblygu. |

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**22 MAI 2024**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas – Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Cefnogaeth Dysgu Proffesiynol GwE** |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Rhannu gwybodaeth gydag Aelodau Cyd-bwyllgor GwE am ein Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae GwE yn cynhyrchu cynnig cynhwysfawr o Ddysgu Proffesiynol amrywiol sydd yn addas i bwrpas. Mae'r Cynnig hwn yn cael ei werthfawrogi gan ein hysgolion ac yn cefnogi ein ffrydiau cefnogaeth eraill.

2.2 Yn unol â datganiad y cyn Weinidog dros Addysg a'r Gymraeg ar 31 Ionawr 2024, mae'r awdurdodau lleol yn parhau i gefnogi ac ariannu consortia rhanbarthol i gynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon drwy'r GAALl (Grant Addysgol Awdurdodau Lleol). Bydd Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE yn ymateb yn benodol i ofynion telerau ac amodau'r grant hwn, felly byddwn yn cynnig darpariaeth i gefnogi'r agweddau canlynol:

- Diwygio – Cefnogaeth i Ddiwygio'r Cwricwlwm
- Diwygio – Cefnogaeth Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth
- Cymraeg 2050

2.3 Mae'r Cynnig Proffesiynol newydd yma yn disodli'r cynnig blaenorol oedd i redeg tan ddiwedd tymor yr haf yn wreiddiol.

2.4 Mae'r Cynnig ar gael am ddim i holl ymarferwyr y Gogledd ar ffurf catalog sy'n cael ei ddiweddaru'n gyson. Mae ysgolion yn derbyn Bwletin bythefnosol yn eu hatgoffa o Ddysgu proffesiynol sydd ar y gweill ac yn darparu gwybodaeth ar gyfer cofrestru. Gellir cyrchu'r Cynnig Dysgu Proffesiynol o'n gwefan: [Cynnig Proffesiynol GwE - GwE (gwegogledd.cymru)]

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Yn unol â disgwyliad y Grant, mae'r cynnig wedi'i greu i gefnogi ysgolion mewn dwy ran:

- 1. Cynnig Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol - Cefnogaeth i Ddiwygio'r Cwricwlwm - gyda ffocws benodol ar gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd ar draws y cwricwlwm yn y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol (llythrennedd, rhifedd a cymhwysedd digidol) a chefnogi amlieithrwydd drwy ddatblygu darpariaeth ieithoedd rhyngwladol
- 2. Cynnig Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol - Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth. Bydd ymarferwyr yn gallu cael mynediad i Raglenni Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol drwy unrhyw ddulliau a gytunir yn genedlaethol. Byddwn yn parhau i annog ysgolion a'u cyfeirio at brosiectau a rhaglenni cenedlaethol.

3.2 Yn unol â dymuniad ysgolion roedd yn fwriad i leihau'r Cynnig Proffesiynol nesaf er mwyn ceisio sicrhau cefnogaeth mwy miniog a phenodol i ysgolion. Gyda'r newid i wasanaeth sy'n gweithio drwy gomisiwn i'r awdurdodau i wireddu telerau ac amodau y grant, mae hyn wedi digwydd yn naturiol gyda'r Cynnig newydd hwn.

3.3 Bwriedir cynnal y sesiynau hyn yn fwy aml ar lefel fwy lleol gyda datblygu rhwydweithiau yn greiddiol iddynt. Byddant hefyd yn gosod disgwyliad i ymarferwyr gymryd cyfrifoldeb am eu Dysgu Proffesiynol eu hunain trwy dasgau rhyngsesiynol.

3.4 Byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd ein Cynnig drwy brosesau monitro chwe misol y Cynllun Busnes. Rydym wedi esblygu ein prosesau monitro i fod yn dal effaith cyffredinol ein Cynnig ar wahanol lefelau gan osod disgwyliad fel y nodir uchod ar yr unigolion sy'n mynychu i weithredu ar yr hyn y maent wedi ddysgu o'r gefnogaeth.

3.5 Gydag arian dysgu proffesiynol bellach yn cael ei rannu yn syth i ysgolion, bwriedir cynnig cyfle hefyd i ysgol/ysgolion gomisiynu GwE i ddarparu dysgu proffesiynol neu gefnogaeth ychwanegol.

3.6 Drwy'r broses gomisiynu yma, bwriedir cynnig cefnogaeth bwrpasol wedi ei deilwra i anghenion penodol. Rhagwelir y gallwn gynnig cefnogaeth benodol ar gyfer gwahanol:

- Sectorau: Uwchradd, Cynradd, Arbennig
- Sefydliadau: Ysgolion unigol, Dalgylch/Clwstwr/Cynghrair, grŵp o ysgolion
- Gynulleidfaoedd: Penaethiaid, Uwch Arweinwyr, Arweinwyr Canol, Ymarferwyr
- Amseroedd: Diwrnod llawn, hanner diwrnod, gwyll/cyfarfod staff, HMS

3.7 Mae trefn bendant er mwyn i ysgolion wneud cais am gomisiwn gan GwE. Mae'r drefn wedi ei llunio er mwyn sicrhau bod yr ysgolion yn cael y gefnogaeth wedi ei deilwra yn benodol i'w anghenion ac yn cael gwerth da am arian o'u buddsoddiad. Bydd GwE yn llunio cytundeb gydag unrhyw ysgol sy'n archebu comisiwn fel bod yr atebolrwydd yn glir.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r Cynllun Dysgu Proffesiynol newydd.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'w adnoddau ariannol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5 o'r adroddiad yn bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol presennol . Felly, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.